# Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5)

See all updates

Nod y gronfa hon, sy'n dyfarnu grantiau rhwng £50,000 ac £1miliwn, yw cryfhau cydnerthedd rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchodedig, ac adeiladu gallu sefydliadau i gyflymu adferiad byd natur ac ymgysylltu â chymunedau.

## Ai hon yw'r rhaglen iawn i chi?

- Ydych chi'n unigolyn neu'n sefydliad sy'n gweithio gyda threftadaeth naturiol yng Nghymru?
- A oes angen ariannu arnoch i gynllunio neu gyflwyno prosiect sy'n seiliedig ar fyd natur?
- A yw eich prosiect yn canolbwyntio ar wella bywyd gwyllt a bioamrywiaeth yng Nghymru o fewn ac o amgylch y rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig?

- A oes angen grant rhwng £50,000 ac £1m arnoch?
- Os gwnaethoch chi ateb **yn gadarnhaol** i'r cwestiynau hyn, yna mae **Cronfa Rhwydweithiau Natur** yn addas i chi.

# Cynnwys yr arweiniad


1. Trosolwg
2. Beth mae Rhwydweithiau Natur yn ei ariannu
3. Amserlen ymgeisio a dyddiadau allweddol
4. Pwy all ymgeisio?
5. Pa gostau allwch chi ymgeisio amdanynt?
6. Sut i wneud cais
7. Dogfennau ategol
8. Sut y byddwn yn asesu'ch cais
9. Grantiau cymunedol
10. Gofynion cyfreithiol a pholisi
11. Cysylltu â ni
12. Rheoli eich data
13. Diweddariadau i'r arweiniad


# Trosolwg

Rydym yn darparu Rhwydweithiau Natur ar ran Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Nod Cronfa Rhwydweithiau Natur yw gwella cydnerthedd **rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchodedig**. Mae'n elfen allweddol o gyflwyno Rhaglen Rhwydweithiau Natur ehangach Llywodraeth Cymru, gan gefnogi ei thargedau adferiad byd natur fel '30x30'.

## Beth yw'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig?

Mae'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, safleoedd Ramsar a Pharthau Cadwraeth Forol. I wirio a yw ardal o dir neu fôr wedi'i chynnwys o fewn un o'r safleoedd hyn, ewch i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a Phorth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru.

Mae gwella cyflwr a chysylltedd rhwng safleoedd gwarchodedig yn eu galluogi i weithredu'n well fel **rhwydweithiau natur**. Mae rhwydweithiau natur yn ardaloedd hanfodol a chydnerth lle gall cynefinoedd a rhywogaethau ffynnu, ehangu ac addasu i newid amgylcheddol. Bydd adfer cysylltedd yn y rhwydweithiau hyn yn:

- atal dirywiad pellach mewn rhywogaethau a chyflwr cynefinoedd
- cefnogi adferiad byd natur
- gwella'r gallu i addasu i'r argyfwng hinsawdd
- gwella darpariaeth gwasanaethau ecosystem sy'n cefnogi ein lles

Mae diogelu safleoedd a sicrhau eu cydnerthedd hir dymor yn dibynnu ar sefydliadau cryfion, llywodraethu da a chynllunio prosiectau mewn ffordd gadarn. Felly, bydd y Gronfa Rhwydweithiau Natur hefyd yn **cefnogi datblygiad prosiect ac adeiladu gallu** prosiectau adferiad byd natur yn y dyfodol. Gallai'r gwaith hwn gynnwys y canlynol (ond nid yw'n gyfyngedig iddynt):

- datblygu partneriaethau

- ymgynghori ac ymgysylltu â thirfeddianwyr/cymunedau
- arolygon ecolegol
- astudiaethau dichonoldeb
- dylunio cynlluniau
- datblygu sgiliau ar gyfer cyllid gwyrdd
- gwaith paratoadol arall ar gyfer prosiectau cyfalaf yn y dyfodol

Gall adeiladu gallu helpu datblygwyr prosiectau a phartneriaid i ddangos canlyniadau, creu modelau busnes cadarn sydd â'r potensial i ddenu buddsoddi a darparu sylfaen dystiolaeth i gefnogi dulliau rheoli effeithiol.

Mae'r gronfa hon hefyd yn cefnogi cyfranogiad gweithredol cymunedau mewn safleoedd gwarchodedig ac o'u cwmpas. Gall hyn fod yn hanfodol i lwyddiant hirdymor prosiectau adferiad byd natur, ac yn aml hefyd bydd manteision ehangach ar gyfer iechyd a lles pobl.

Gallwch gyflwyno uchafswm o **ddau** gais i'r Gronfa Rhwydweithiau Natur: un am grant rhwng £50,000 a £250,000 ac un am grant rhwng £250,000 ac £1miliwn.

### Pethau y mae angen i chi eu gwybod

- Ar gyfer prosiectau rhwng £50,000 a £250,000 **rhaid i chi gyflwyno Ymholiad Prosiect yn gyntaf**. Efallai y cewch eich gwahodd wedyn i wneud cais llawn.
- Ar gyfer prosiectau rhwng £250,000 a £1miliwn **rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb yn gyntaf**. Efallai y cewch eich gwahodd wedyn i wneud cais llawn.
- Mae'r dudalen hon yn cynnwys y prif arweiniad sydd ei angen arnoch i lunio eich cais, fodd bynnag mae gennym dudalennau arweiniad ychwanegol i'ch helpu i ateb y cwestiynau ar ein ffurflenni ar-lein a dylech ddarllen y rhain hefyd cyn dechrau ar eich cais.
- Rhaid **peidio â** dechrau eich prosiect cyn i ni wneud penderfyniad.
- Rydym yn darparu llawer o arweiniad arfer da. Gallwch ddarllen yr arweiniad sy'n berthnasol i chi i'ch helpu i ddatblygu a rheoli eich prosiect.
- Mynnwch gip ar ein safbwynt a'n cyngor ar ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) yn eich cais am grant.

### Gweminar

Os ydych chi'n unigolyn neu'n sefydliad sydd â diddordeb mewn gwneud cais, ac os ydych wedi darllen yr arweiniad ymgeisio ond mae gennych gwestiynau o hyd, ymunwch â ni ar gyfer ein gweminar cyn-ymgeisio Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5) **ddydd Mawrth 1 Gorffennaf 2025 10am-11:30am** trwy gofrestru yma.

Yn ôl i'r brig.

## Beth mae Rhwydweithiau Natur yn ei ariannu

Drwy'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, rydym am gefnogi:

- Gweithredu ar safleoedd gwarchodedig neu'r rhwydweithiau ecolegol sy'n eu cynnal. Gall hyn gynnwys gweithredu y tu allan i safleoedd gwarchodedig a fydd yn fanteisiol i'r rhwydwaith yn gyffredinol (gweler 'Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan brosiectau' isod). Dylai'r prosiect hefyd ddangos rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ar draws Cymru.
- Camau gweithredu y gall cymunedau lleol gymryd rhan ynddynt mewn ffordd deg a gweithredol, ac elwa ohonynt. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cyfranogiad gweithredol gydag ystod amrywiol o bobl a chymunedau (yn enwedig grwpiau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol). Dylai cyfranogiad y gymuned gynyddu'r rhwydwaith o bobl sy'n ymwneud â byd natur, a meithrin cydnerthedd safleoedd

gwarchodedig a'u rhwydweithiau ecolegol.
- Gweithgarwch datblygu sy'n galluogi sefydliadau i adeiladu eu gallu a'u sylfaen dystiolaeth i gynllunio prosiectau adferiad byd natur yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys adeiladu gallu i barhau i gyrraedd cymunedau sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol neu ddenu buddsoddiad ariannol (gan gynnwys cyllid gwyrdd) i gynyddu'r gwaith o gyflwyno prosiectau adferiad byd natur.

## Iaith Gymraeg

Rhaid i chi gynnwys y Gymraeg ym mhob agwedd o'ch gwaith. Dywedwch wrthym sut y byddwch chi'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r Gymraeg ac yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru.

Gwnewch yn si?r bod cyfieithu wedi'u cynnwys yn eich cynllun prosiect a chyllideb eich prosiect o dan y categori costau 'Arall' yn adran costau prosiect y cais.

Am ragor o wybodaeth gweler ein Harweiniad prosiect dwyieithog yng Nghymru.

## Hyrwyddo a chydnabod ariannu

Darperir yr ariannu hwn gan Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'ch grant, rhaid i chi gydnabod eich ariannu ar gyfryngau cymdeithasol, drwy ddatganiadau i'r wasg, a thrwy arddangos ein logo partneriaeth. Darllenwch ein Canllaw cydnabod eich grant gan Lywodraeth Cymru.

Bydd cynllunio'n gynnar, a dyrannu cyllideb briodol, yn eich helpu i fodloni ein gofynion a chydnabod eich grant mewn ffyrdd sy'n greadigol ac yn addas ar gyfer eich prosiect.

Dylech gynnwys cyllideb ar gyfer cydnabyddiaeth yn y categori costau 'Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo' yn adran costau prosiect y cais. Rydym yn argymell i chi seilio'r costau hyn ar ddyfynbrisiau gan ddarpar gyflenwyr.

Defnyddiwch ein harweiniad cydnabyddiaeth i gynllunio eich gweithgareddau'n gymesur â maint eich grant.

## Gwerthuso ac adrodd

Rydym yn argymell i chi ystyried gwerthuso o ddechrau eich prosiect. Po fwyaf gofalus y mae prosiectau'n cyllidebu ar gyfer eu gwerthusiad, yr uchaf fydd ansawdd yr adroddiad terfynol. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn ein canllaw gwerthuso.

Ar ddiwedd eich prosiect byddwn yn disgwyl i chi gyflwyno adroddiad gwerthuso. Mae angen cyflwyno hwn cyn i ni dalu'r 20% olaf o'ch grant.  Dylai hyn gynnwys manylion am sut mae cydnerthedd ecosystemau a/neu gysylltedd cynefinoedd wedi elwa o'r buddsoddiad (neu y bydd yn elwa yn y dyfodol). Dylech rannu data a methodoleg monitro perthnasol.

Byddwn hefyd yn disgwyl i chi rannu data geo-ofodol a data eraill ar ble mae eich prosiect wedi gweithio er mwyn gwella setiau data Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn disgwyl i chi gyflwyno cofnodion presenoldeb/absenoldeb rhywogaethau i'ch canolfan cofnodion amgylcheddol leol a/neu gronfa ddata cofnodion cyhoeddus debyg. Caiff arweiniad pellach ar hyn ei ddarparu os dyfernir grant i chi.

## Adennill costau llawn

Os ydych yn sefydliad yn y sector gwirfoddol (er enghraifft, efallai bod gennych fwrdd ymddiriedolwyr ac wedi'ch ariannu gan grantiau a rhoddion), gallwn dalu cyfran o orbenion eich sefydliad ar ffurf adennill costau llawn.

Mae adennill costau llawn yn golygu sicrhau ariannu ar gyfer yr holl gostau sydd ynghlwm wrth redeg prosiect. Mae hyn yn golygu y gallwch ofyn i gostau prosiect uniongyrchol gael eu hariannu yn ogystal â chyfran gymesur o gostau sefydlog eich sefydliad.

Gall hyn gynnwys costau sy'n cefnogi'r prosiect yn rhannol, ond sydd hefyd yn cefnogi prosiectau neu weithgareddau eraill y mae eich sefydliad yn eu darparu, megis cyflogau staff sy'n gweithio ar draws prosiectau ym meysydd gweinyddu, rheoli, AD, neu godi arian, costau swyddfa fel rhent neu gyfleustodau a ffioedd cyfreithiol neu archwilio.

Gall ariannu sy'n talu am rai o'ch costau rhedeg fod yn bwysig i'ch cynaladwyedd, felly rydym yn eich annog i ystyried cynnwys hyn yn eich cyllideb yn y categori costau 'Adennill costau llawn' os ydych yn gymwys.

Mae arweiniad cydnabyddedig ar gyfrifo'r swm adennill costau llawn sy'n berthnasol i'ch prosiect ar gael gan sefydliadau megis Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

## Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan brosiectau

Mae'n rhaid i weithgareddau greu buddion uniongyrchol ar gyfer y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig nawr neu yn y dyfodol. Bydd hyn fel arfer yn ymwneud â gwelliannau'n uniongyrchol ar safle neu ar leoliadau cyfagos a fydd yn gwella cyflwr nodweddion a chysylltedd safleoedd. Gall gynnwys y canlynol hefyd:

- gwelliannau i hygyrchedd safle
- cefnogi sefydliadau i gyrraedd cymunedau sydd heb eu gwasanaethau'n ddigonol
- cefnogi sefydliadau neu unigolion sydd (neu a fydd yn y dyfodol) yn ymwneud â phrosiectau ar safleoedd a/neu ar rwydweithiau ecolegol sy'n eu cefnogi. Gallai hyn gynnwys cynllunio, staffio, hyfforddiant, prentisiaethau, cyllid gwyrdd, caffael tystiolaeth drwy arolygon, adolygiadau llywodraethu ac yn y blaen.

Gall prosiectau weithredu ar y tir/môr o fewn a thu hwnt i'r safleoedd gwarchodedig eu hunain. Er enghraifft, gallai prosiectau y tu hwnt i safleoedd gwarchodedig:

- wella cysylltedd ecolegol rhwng safleoedd gwarchodedig penodol
- gweithredu er budd cynefinoedd neu rywogaethau y tu hwnt i safleoedd gwarchodedig lle y maent hefyd yn nodweddion o safleoedd gwarchodedig cysylltiedig
- canolbwyntio ar rywogaeth nad yw'n nodwedd o safle, cyn belled â'i bod yn creu buddion o ran cyflwr, cysylltedd neu weithrediad ecosystem safleoedd penodol a'u nodweddion
- fod o fudd i gynefin neu rywogaeth nad yw'n nodwedd o safle ar hyn o bryd, ond bod tystiolaeth yn awgrymu y gallai fod felly
- fod yn seiliedig ar ardaloedd diffiniedig nad ydynt o dan warchodaeth statudol ar hyn o bryd, ond sydd â lefel debyg o bwysigrwydd o ran bioamrywiaeth
- lleihau effeithiau allanol ar safleoedd gwarchodedig i wella cyflwr, er enghraifft o ddyddodiad nitrogen neu gytrefu INNS
- adfer swyddogaethau ecosystem o amgylch safleoedd gwarchodedig ar raddfa'r dirwedd

Ym mhob un o'r achosion hyn, rhaid i gais gynnwys cyfiawnhad sy'n seiliedig ar dystiolaeth dros gymhwystra'r prosiect. Dylid enwi'r safleoedd a'r nodweddion penodol sy'n elwa o'r prosiect ac esbonio'r sail resymegol ecolegol drosto.

Bydd disgwyl i chi ddangos bod eich prosiect arfaethedig yn cyflwyno yn erbyn yr amcanion rheoli neu amcanion cadwraeth ar gyfer y safle dan sylw.

Byddwn yn ceisio ariannu cyfuniad o weithgarwch cyfalaf a refeniw ar draws portffolio o brosiectau. I gael mwy o ddealltwriaeth, gweler Pa gostau allwch chi ymgeisio amdanynt? isod.

### Nodi safleoedd posibl ar gyfer cysylltedd

Bydd camau gweithredu i wella cysylltedd rhwng safleoedd gwarchodedig yn fwyaf effeithiol os caiff eu lleoli i wella patrymau cysylltedd presennol yn y dirwedd. Mae camau gweithredu'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol os ydynt yn atgyfnerthu, yn ehangu neu'n creu cysylltiadau rhwng rhwydweithiau cynefinoedd.

Mae'r Mapiau Rhwydweithiau Natur ar gael i helpu gyda hyn a gellir eu cyrchu trwy MapDataCymru a Phorth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru.

- MapDataCymru: Cysylltedd Cynefin a Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth
- Porth Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru. Dewiswch 'archwilio' o'r brif ddewislen, yna cliciwch ar y tab 'Gwytnwch Ecosystem'.

Mae'r mapiau'n dangos rhwydweithiau wedi'u modelu ar gyfer amrywiaeth o gynefinoedd sy'n dangos pa mor dda y mae ardaloedd cynefin yn debygol o fod wedi'u cysylltu ar draws Cymru ac â'r Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth. Maent yn dynodi cysylltedd presennol tebygol yn benodol rhwng ac o amgylch safleoedd gwarchodedig ar gyfer cynefinoedd gwahanol. Mae'r mapiau hefyd yn cyflwyno byffer generig o amgylch yr holl safleoedd gwarchodedig i dynnu sylw at bwysigrwydd gweithredu yn agos at safleoedd presennol.

Mae'n bwysig nodi mai allbynnau wedi'u modelu yw'r mapiau hyn a'u bwriad yw cyfeirio camau gweithredu, yn hytrach na'u rhagnodi. Efallai y bydd allbynnau model eraill ar gael, ac mae nodweddion cysylltiol eraill yn y dirwedd, megis cyrsiau d?r, cloddiau neu hyd yn oed ymylon ffyrdd, a allai gael eu hystyried wrth gynllunio prosiectau.

Yn ôl i'r brig.

## Amserlen ymgeisio a dyddiadau allweddol

Ar gyfer grantiau rhwng £50,000 a £250,000:

- Terfyn amser ar gyfer yr Ymholiad Prosiect: **12 hanner dydd** ar **14 Gorffennaf 2025**
- Terfyn amser ymgeisio: **12 hanner dydd** ar **26 Medi 2025**
- Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud: **Rhagfyr 2025**
- Dyddiad cwblhau eich prosiect: **30 Ionawr 2029**

Ar gyfer grantiau rhwng £250,000 ac £1 miliwn

- Terfyn amser ar gyfer Mynegiadau o Ddiddordeb: **12 hanner dydd** ar **12 Awst 2025**
- Terfyn amser ymgeisio: **12 hanner dydd** ar **18 Tachwedd 2025**
- Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud: **Chwefror 2026**
- Dyddiad cwblhau eich prosiect: **31 Mawrth 2029**

Yn ôl i'r brig.

## Pwy all ymgeisio?

Mae'r cynllun yn agored i bob tirfeddiannwr preifat a sefydliad sy'n gweithio gyda threftadaeth naturiol yng Nghymru. Rhaid i chi ddangos eich bod yn ymwybodol o feddu ar y caniatadau, y trwyddedau a'r cydsyniadau cywir sydd eu hangen i ymgymryd â gweithgaredd ar y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig

neu'r ardaloedd cyfagos, a'ch bod wedi sicrhau'r rhain yn barod neu'n gweithio tuag at eu sicrhau.  Mae'n rhaid i'r ardal yr ydych yn ei wella fod yng Nghymru, ond gallwch chi/eich sefydliad fod wedi'ch lleoli unrhyw le yn y DU.

## Partneriaethau

Rydym yn eich annog yn gryf i weithio gyda phobl eraill i ddatblygu a chyflawni eich prosiect.

Mae partner yn sefydliad arall neu gorff trydydd parti sy'n rhan annatod o gyflawni'ch prosiect.

Nid yw partneriaid yn isgontractwyr. Bydd ganddynt rôl weithredol yn y prosiect a byddant yn cymryd rhan yn y prosiect. Byddant yn helpu i adrodd ar y prosiect, yn mynychu cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd ac yn cefnogi gwerthusiad y prosiect.

Os ydych yn bwriadu gweithio gydag unrhyw sefydliadau eraill i gyflawni cyfran sylweddol o'ch prosiect, mae'n rhaid i chi ffurfioli eich perthynas trwy gytundeb partneriaeth.

## Perchnogion preifat ar dreftadaeth

Fel perchennog preifat ar ased treftadaeth mae'n rhaid i chi ddangos bod budd cyhoeddus eich prosiect yn drech nag unrhyw fudd preifat.

- Os nad yw perchennog y dreftadaeth yn gwneud y cais, byddwn yn gofyn iddynt ymrwymo i delerau ac amodau eich grant.

Ni fyddwn yn ariannu:

- gwaith y gellir yn rhesymol ei ystyried ei fod yn ddyletswydd statudol y perchennog
- prynu adeiladau neu dir
- codi adeiladau newydd, ar raddfa fawr

## Gweithio ar dir preifat

Ceir llawer o gynefinoedd a rhywogaethau dynodedig ar dir sy'n eiddo i unigolion preifat neu sefydliadau er-elw. Gall prosiectau gyflwyno gwaith neu weithgareddau ar dir preifat cyhyd â bod unrhyw fudd cyhoeddus yn amlwg yn drech nag unrhyw fudd preifat posibl ac ar yr amod nad yw rheolau rheoli cymorthdaliadau'n cael eu torri.

Er enghraifft, gallem ariannu gwaith adfer gwrychoedd neu greu pyllau ar fferm, ar yr amod nad ydynt yn ychwanegu gwerth ariannol at y tir nac yn cyfleu unrhyw fudd ariannol anuniongyrchol sylweddol a allai dorri rheolau rheoli cymorthdaliadau.

Wrth weithio ar dir preifat, rydym yn deall y gall fod cyfyngiadau ar fynediad cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym yn annog mynediad cyhoeddus pryd bynnag y bo'n ymarferol. Rydym hefyd yn cydnabod efallai na fydd mynediad ffisegol bob amser yn briodol nac yn ddymunol am resymau cadwraeth cynefinoedd. Os yw mynediad gwell yn bosib, efallai y byddwch hefyd eisiau gwneud cais am ariannu ar gyfer seilwaith newydd, er enghraifft llwybrau neu guddfannau, a all helpu i ddarparu mwy o fynediad i'r cyhoedd.

Gall gwaith gael ei wneud ar dir sy'n eiddo i adran o'r llywodraeth neu gorff hyd braich ar yr amod nad ydynt yn elwa'n ariannol o unrhyw fuddsoddiad. Pe bai elusen neu bartneriaeth amgylcheddol yn gwneud gwaith ar y fath dir, dim ond ar gyfer gwaith na fyddai'n dod o dan unrhyw gyfrifoldeb statudol y gall fod.

## Trwyddedau, caniatadau a chydsyniadau

Rhaid i ymgeiswyr ddangos yn eu cais eu bod yn ymwybodol o'r caniatadau a'r trwyddedau perthnasol ar gyfer cyflwyno eu prosiect, a'u bod yn gweithio tuag at gaffael y rhain.

Dylech gynnwys manylion unrhyw ganiatadau heb eu sicrhau eto yn eich cynllun prosiect, sydd ar gael ar ein tudalen templedi.

Yn ôl i'r brig.

# Pa gostau allwch chi ymgeisio amdanynt?

Os ydych yn gwneud cais am brosiect o dan £250,000 gallwch wneud cais am brosiect Datblygu/Adeiladu Gallu, prosiect Cyfalaf neu gyfuniad o'r ddau mewn un cais.  Ni chewch wneud mwy nag un cais o dan £250,000.

Dylai ceisiadau dros £250,000 fod ar gyfer prosiectau Cyfalaf yn unig. Ni chewch wneud mwy nag un cais dros £250,000.

Mae'n bwysig i chi nodi yn eich cais pa rai o gostau eich prosiect sy'n gyfalaf a pha rai sy'n refeniw. Ar draws y portffolio cyfan o brosiectau, rydym am ariannu cyfuniad cytbwys o weithgarwch cyfalaf a refeniw.

## Prosiectau Datblygu/Adeiladu Gallu

Dylai'r prosiectau hyn gynnwys mwyafrif o arian refeniw. Gallwch gynnwys rhai costau cyfalaf, ond ni ddylai gwaith cyfalaf fod yn ffocws i'r prosiect.

## Prosiectau cyfalaf

Dylai'r prosiectau hyn gynnwys mwyafrif o arian cyfalaf a dylent ganolbwyntio ar waith cyfalaf. Gallwch gynnwys rhai costau refeniw o fewn y prosiectau hyn.

### Costau cyfalaf:

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gostau cyfalaf ond nid yw'n rhestr gyflawn.

- prynu eitemau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau rheoli tir, megis coed, planhigion gwrychoedd, ffensys ac eitemau gwaith cyfalaf sy'n ofynnol i gyflwyno'r canlyniadau
- costau cyffredinol a geir wrth osod y gwaith cyfalaf, sy'n cynnwys costau contractwyr ar gyfer llafur a defnyddio offer
- prynu peiriannau ac offer hyd at werth yr ased ar y farchnad
- prynu, dylunio a gosod paneli dehongli, gan gynnwys costau cyfieithu
- caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau a nodau masnach
- ffioedd ymgynghorydd, costau dylunio technegol eraill, arolygon safle a ffioedd proffesiynol megis ffioedd sy'n gysylltiedig â chynaladwyedd amgylcheddol
- Ffioedd a chostau'r cais cynllunio. Mae ffioedd a godir am ganiatadau, trwyddedau a chydsyniadau statudol yn gymwys, ar yr amod eu bod yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r prosiect cyfalaf ac yn cael eu codi ar ôl i'r grant gael ei ddyfarnu.
- ariannu wrth gefn ar gyfer costau cyfalaf ychwanegol (argymhellwn tua 10% o arian wrth gefn)

- ariannu ar gyfer chwyddiant i ganiatáu ar gyfer cynnydd mewn costau cyflwyno'r prosiect yn y dyfodol

**Costau refeniw**

- amser staff
- adennill costau llawn neu gostau sefydliadol craidd tuag at gyflwyno prosiect (sefydliadau'r sector gwirfoddol yn unig)
- costau gweithgareddau (digwyddiadau, lluniaeth, llogi ystafell, etc)
- gwerthuso
- cynllunio'r prosiect (astudiaethau dichonoldeb, arolygon neu bennu gwaelodlin ecolegol, ymgynghori â thirfeddianwyr/y gymuned, adolygiadau llywodraethu, cyngor ymgynghorol ar gyllid gwyrdd, etc)
- costau hyfforddi a phrentisiaethau
- costau cyfieithu
- ariannu wrth gefn ar gyfer costau refeniw ychwanegol (argymhellwn tua 10% o arian wrth gefn)

**Costau anghymwys**

Ni chewch gynnwys costau ar gyfer:

- cynnal a chadw parhaus neu gostau rhedeg yn y dyfodol y tu hwnt i gyfnod y prosiect.
- caffael tir
- TAW y gellir ei adennill
- costau unrhyw weithgarwch sydd wedi digwydd cyn i grant gael ei ddyfarnu

### Arian cyfatebol

Nid oes unrhyw ofynion o ran cyfraniadau arian parod neu anariannol ar gyfer y Gronfa Rhwydweithiau Natur. Fodd bynnag, gall unrhyw gyfraniadau arian parod, anariannol neu ar ffurf gwirfoddolwyr y byddwch yn eu darparu ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael eu hystyried yn y cam asesu.

Ni chewch ddefnyddio'r grant hwn fel arian cyfatebol ar gyfer prosiect gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, nac i'r gwrthwyneb.

Yn ôl i'r brig.

## Sut i wneud cais

**Noder:** Peidiwch â symud ymlaen yn syth at lunio'ch cais. Yn gyntaf mae'n rhaid i chi gyflwyno Ymholiad Prosiect neu Fynegiad o Ddiddordeb er mwyn i ni allu rhoi adborth cynnar i chi ar eich cynnig prosiect.

### Grantiau rhwng £50,000 a £250,000

Ar gyfer grantiau rhwng £50,000 a £250,000, rhaid i chi gyflwyno Ymholiad Prosiect. Ewch i'n tudalen Ymholiad Prosiect i gael gwybod mwy am sut i lenwi eich ffurflen.

**12 hanner dydd ar 14 Gorffennaf 2025** yw'r terfyn amser ar gyfer Ymholiadau Prosiect.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch i benderfynu p'un a fyddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn ai beidio. Nid yw gwahoddiad i wneud cais yn gwarantu grant gennym yn y dyfodol, ond mae'n nodi ein bod yn gweld potensial yn eich cynigion cychwynnol.

Os bydd eich Ymholiad Prosiect yn llwyddiannus, rhaid i chi gyflwyno eich cais llawn erbyn **12 hanner dydd ar 26 Medi 2025**.

Ewch i'n gwasanaeth ar-lein i wneud cais.

### Grantiau rhwng £250,000 ac £1 miliwn

Gofynnwn i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais am grant **rhwng £250,000 ac £1miliwn** gwblhau ffurflen **Mynegiad o Ddiddordeb** fer. Ewch i'n tudalen Mynegiad o Ddiddordeb i gael gwybod mwy am sut i lenwi eich ffurflen.

Rhaid i chi gyflwyno eich MoDd erbyn **12 hanner dydd ar 12 Awst 2025**.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch i benderfynu p'un a fyddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn ai beidio. nid yw gwahoddiad i wneud cais yn gwarantu grant gennym yn y dyfodol, ond mae'n dangos ein bod yn gweld potensial yn eich cynigion cychwynnol.

Anelwn at ymateb i'ch Mynegiad o Ddiddordeb o fewn 20 diwrnod gwaith.  Os bydd eich MoDd yn llwyddiannus, rhaid i chi gyflwyno eich cais llawn erbyn **12 hanner dydd ar 18 Tachwedd 2025**.

Ewch i'n gwasanaeth ar-lein i wneud cais.

Yn ôl i'r brig.

## Dogfennau ategol

Bydd angen i chi ddarparu'r dogfennau ategol perthnasol a restrir isod fel rhan o'r broses ymgeisio. Ewch i'n tudalen Cwestiynau ymgeisio: £50,000 to £250,000 neu Cwestiynau ymgeisio: £250,000 i £1million am fanylion llawn. Gallwch lawrlwytho'r templedi angenrheidiol yma  fel rhan o'ch cais. Dylai maint y ffeiliau fod yn llai na 20MB.

**Noder** bod rhai o'r dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn y ffurflen gais ar-lein.

Rhaid i bob prosiect rhwng £50,000 ac £1 miliwn ddarparu'r dogfennau **gorfodol** canlynol:

- dogfen lywodraethu (oni bai eich bod wedi’ch eithrio)
- Cyfrifon wedi'u harchwilio neu eu dilysu (gorfodol os ydych yn sefydliad). Rhaid i chi ddarparu eich cyfrifon diweddaraf sydd wedi'u harchwilio neu eu dilysu gan gyfrifydd. Os yw cyfrifon eich sefydliad yn h?n na 18 mis oed, neu os sefydlwyd eich sefydliad lai na 14 mis yn ôl ac nad oes ganddo set o gyfrifon wedi'u harchwilio, rhaid i chi ddarparu eich tair cyfriflen banc ddiwethaf neu lythyr wedi'i lofnodi gan eich banc.
- cynllun prosiect (defnyddiwch ein templed sydd ar gael yma)

- templed costau (defnyddiwch ein templed costau prosiect sydd ar gael yma a **rhaid** i chi wahanu'r costau i Gyfalaf a Refeniw)
- dogfennau perchnogaeth tir, fel y Gofrestrfa Tir neu les neu Benawdau Telerau (gorfodol ar gyfer **prosiectau cyfalaf yn unig**)
- map yn dangos lleoliad y safle(oedd) ar raddfa ranbarthol
- o leiaf un map yn dangos lleoliadau gwaith cyfalaf, gyda safleoedd/nodweddion gwarchodedig wedi'u labelu. ShapeFiles, Tab Files neu KML yn dangos safle(oedd) eich prosiect fel polygonau (gorfodol ar gyfer **prosiectau cyfalaf yn unig**)

Ar gyfer prosiectau rhwng £250,000 ac £1 miliwn, rhaid i chi ddarparu'r dogfennau **gorfodol ychwanegol** canlynol:

- dogfen yn amlinellu **strwythur rheoli eich prosiect** er mwyn i ni wybod pwy fydd yn gwneud penderfyniadau a sut y byddwch yn rheoli newid yn ystod eich prosiect
- dogfen yn amlinellu'r **prif risgiau** sy'n wynebu'r prosiect ar ôl iddo gael ei gwblhau a sut y byddant yn cael eu rheoli

Yn ogystal â'r dogfennau gorfodol, gall pob prosiect rhwng £50,000 ac £1 miliwn gynnwys y dogfennau canlynol lle bo'n berthnasol hefyd:

- cytundeb partneriaeth (**gorfodol** os ydych yn gweithio mewn partneriaeth)
- disgrifiadau swydd (**gorfodol** os ydych yn creu swyddi neu brentisiaethau newydd fel rhan o'ch prosiect)
- briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir (os yn berthnasol)
- cyfrifo Adennill Costau Llawn (os yn berthnasol)
- tystiolaeth o gefnogaeth, megis llythyrau, e-byst neu fideos cefnogol (dewisol)

Yn ôl i'r brig.

# Sut y byddwn yn asesu'ch cais

Pan fyddwn yn asesu eich cais, byddwn yn ystyried amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys:

- y cyfraniad y mae eich prosiect yn ei wneud at wella cyflwr a chysylltedd y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig yng Nghymru
- eich cynlluniau i sicrhau bod gan bawb gyfleoedd i ddysgu, datblygu sgiliau newydd a fforio natur, beth bynnag fo'u cefndir neu amgylchiadau personol
- a fydd eich sefydliad yn datblygu ac yn cynnal sgiliau a gallu i sicrhau dyfodol hirdymor i'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig yng Nghymru
- nifer y swyddi/prentisiaethau/hyfforddeiaethau a gynigir, yn enwedig i bobl ifanc
- sut y bydd effaith eich prosiect yn cael ei chynnal

## Meini prawf cydbwyso

Os byddwn yn derbyn mwy o geisiadau o ansawdd da nag y gallwn eu hariannu, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau a fydd yn:

- gweithio mewn ardaloedd sydd fwyaf tebygol o gefnogi'r gwaith o ddarparu Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth o fewn y Rhaglen Rhwydweithiau Natur gyda thystiolaeth o hyn fel y nodir ar y Map Rhwydweithiau Natur
- cynrychioli lledaeniad o ran daearyddiaeth, bioamrywiaeth a sefydliadau arweiniol ledled Cymru ac ar draws yr holl rowndiau ariannu Rhwydweithiau Natur blaenorol

- darparu cyfuniad cytbwys o brosiectau cyfalaf a refeniw ar draws y portffolio

## Ystyried risg

Wrth asesu'ch cais, byddwn yn gwneud dyfarniad pwyllog ar y risgiau posibl i'ch prosiect a'ch risgiau sefydliadol presennol – ac yn edrych i weld a ydych wedi nodi'r rhain a dweud wrthym sut y byddwch yn lliniaru yn eu herbyn.

Bydd pob prosiect yn wynebu bygythiadau a chyfleoedd y bydd angen i chi eu nodi a'u rheoli. Rydym am i chi fod yn realistig ynghylch y risgiau y gallai eich prosiect a'ch sefydliad eu hwynebu fel eich bod mewn sefyllfa dda i reoli a chyflwyno'r prosiect yn llwyddiannus.

Dylech hefyd ystyried chwyddiant a chostau wrth gefn yn ofalus yn eich cais.

Mae chwyddiant ar gyfer prosiectau adeiladu'n debygol o barhau'n uchel hyd y gellir rhagweld. Dylech ddarparu ar gyfer chwyddiant yn seiliedig ar amserlen y prosiect, ynghyd â ffactorau eraill fel y deunyddiau a ddefnyddir, gofynion o ran llafur a lleoliad.

Y mathau o risgiau a phroblemau y dylech eu hystyried yw:

- ariannol: er enghraifft, gostyngiad yn y cyfraniad o ffynhonnell ariannu arall
- sefydliadol: er enghraifft, prinder pobl â'r sgiliau sydd eu hangen arnoch neu staff sy'n gorfod gweithio ar brosiectau eraill
- economaidd: er enghraifft, cynnydd annisgwyl yng nghost deunyddiau
- technegol: er enghraifft, darganfod rhywogaethau gwarchodedig annisgwyl ar eich safle
- cymdeithasol: er enghraifft, ymatebion negyddol i ymgynghori neu ddiffyg diddordeb gan eich cynulleidfa darged
- rheoli: er enghraifft, newid arwyddocaol yn nhîm y prosiect
- cyfreithiol: er enghraifft, rheoli cymhorthdal, neu newidiadau yn y gyfraith sy'n golygu nad yw'r prosiect yn ymarferol
- amgylcheddol: er enghraifft, anawsterau wrth ddod o hyd i ffynonellau pren o goedwigoedd a reolir yn dda

## Amser asesu

Byddwn yn anelu at wneud penderfyniadau ar brosiectau rhwng £50,000 a £250,000 erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025, ac ar brosiectau rhwng £250,000 ac £1miliwn erbyn diwedd mis Chwefror 2026

**Noder:** na allwn ddechrau asesu eich cais hyd nes i'r holl wiriadau gofynnol gael eu cwblhau a'n bod wedi derbyn yr holl wybodaeth ategol ofynnol.

## Os bydd eich cais yn llwyddiannus

Byddwn yn darparu arweiniad ychwanegol ar ein gofynion monitro ac amodau cyfreithiol ar bwynt y dyfarniad.

Bydd pob grant o dan £250,000 yn cael ei dalu mewn tri rhandaliad. Byddwch yn derbyn 50% o'ch grant unwaith y byddwch wedi derbyn caniatâd i ddechrau ar eich prosiect. Byddwch yn derbyn y 30% nesaf hanner ffordd drwy eich prosiect, pan fydd y 50% cyntaf wedi'i wario. Rydym yn cadw'r 20% olaf o'ch grant yn ôl hyd nes bod y prosiect wedi'i gwblhau.

Bydd grantiau o £250,000 a throsodd yn cael eu talu mewn ôl-daliadau, mewn rhandaliadau rheolaidd, wrth dderbyn tystiolaeth o wariant.

Rhaid i chi aros i dderbyn caniatâd gennym cyn dechrau ar eich prosiect.

### Os yw eich cais yn aflwyddiannus

Mae’r broses asesu'n gystadleuol ac ni allwn ariannu pob un o’r ceisiadau o ansawdd da a dderbyniwn.

Yn ôl i'r brig.

## Grantiau cymunedol

Mae cynlluniau grantiau cymunedol a thrydydd parti'n gronfeydd ariannol y gallwch eu defnyddio i ariannu grwpiau neu sefydliadau eraill i gyflwyno prosiectau bach i'ch helpu cyflawni eich nodau treftadaeth trosgynnol. Gallant eich helpu i wella ymgysylltu ac ehangu effaith eich prosiect.

Gellir defnyddio grantiau cymunedol i ariannu gweithgareddau neu waith cyfalaf ar asedau treftadaeth. Gellir eu dyfarnu i grwpiau cymunedol nid-er-elw neu berchnogion preifat treftadaeth i ymgymryd â gwaith cyfalaf er mwyn gwarchod y dreftadaeth honno. Ni ellir rhoi grantiau cymunedol i gaffael tir, adeiladau neu eitemau treftadaeth.

Os mai chi yw'r ymgeisydd arweiniol, chi fydd yn rheoli'r broses grantiau cymunedol a'r gronfa ariannu. Chi fydd yn gyfrifol am:

- wahodd ac asesu ceisiadau drwy broses deg, agored a thryloyw
- sefydlu panel i wneud penderfyniadau i ddyfarnu neu wrthod grantiau
- adolygu'r cynnydd a wnaed ar y prosiect i sicrhau ei fod yn foddhaol
- gwneud taliadau grant
- monitro cydymffurfiaeth â thelerau'r grant cymunedol, datrys unrhyw broblemau ac ad-dalu'r grant os oes angen

Yn eich cais dylech esbonio beth yw nodau eich cynllun grantiau cymunedol, sut mae'n cyfrannu at y prosiect ehangach a sut y caiff ei reoli.

Argymhellwn na ddylai’r gronfa grantiau cymunedol fod yn fwy na £200,000. Dylid cyfyngu grantiau unigol i £10,000 ar gyfer gweithgareddau a £25,000 ar gyfer gwaith cyfalaf.

Bydd angen i chi ffurfioli'r dyfarniad grant mewn cytundeb trydydd parti rhyngoch chi a derbynnydd y grant cymunedol sy'n diffinio'r gweithgareddau i'w cyflwyno ac yn nodi telerau'r grant. Mae’n rhaid i dderbynyddion grantiau cymunedol ymrwymo i’n telerau ac amodau, gan gyfeirio’n benodol at y canlynol (lle bo’n berthnasol):

- Dyddiad Dod i Ben Cyffredinol y Grant
- cydnabod ariannu gan Lywodraeth Cymru
- hawlio'n ôl
- monitro'r prosiect
- grant heb ei wario
- caffael
- gofynion digidol
- tir neu adeiladau sy'n eiddo i drydydd parti

Bydd angen i chi adlewyrchu'r meysydd hyn yn eich cytundebau gyda derbynyddion y grantiau cymunedol, gan mai chi fydd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn deall telerau ac amodau eich grant ac yn cytuno iddynt.

Rhaid i gytundebau â thirfeddianwyr trydydd parti, gan gynnwys perchnogion preifat, sicrhau bod gwaith cyfalaf yn cael ei reoli a'i gynnal a chadw o ddechrau'r gwaith ar y prosiect tan 10 mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect.

Gallwch gynnwys costau rheoli'r cynllun grant, gan gynnwys costau addasu a sefydlu unrhyw gytundebau trydydd parti a cheisio cyngor cyfreithiol, fel rhan o'r costau, yn eich cais.

Bydd angen i chi ddatblygu proses ymgeisio deg a thryloyw gyda chanllawiau clir. Rhaid i chi gyflwyno'ch cais a'ch proses fonitro i ni i'w cymeradwyo cyn lansio'r cynllun grantiau cymunedol.

Dylai fod gennych feini prawf clir ar gyfer ceisiadau a sicrhau bod y meini prawf hyn ar gael yn gyhoeddus ynghyd â rhestr o'ch dyfarniadau.

Rhaid i chi ymgymryd â diwydrwydd dyladwy cyn dyfarnu grantiau cymunedol. Fel lleiafswm, bydd angen i chi ofyn am y canlynol gan ymgeisydd:

- dogfen lywodraethu'r sefydliad (oni bai ei fod yn sefydliad sector cyhoeddus neu'n berchennog preifat treftadaeth)
- prawf o berchnogaeth os yw'r prosiect yn cynnwys gwaith ar dir, adeiladau neu eitemau treftadaeth (er enghraifft, gweithredoedd, lesau neu unrhyw wybodaeth yn ymwneud â morgeisi)
- copi o gyfrifon diweddar neu gyfriflenni banc y tri mis diwethaf

Rhaid i benderfyniadau i ddyfarnu neu wrthod ceisiadau gael eu gwneud gan banel grantiau. Ni ddylai pob aelod o'r panel ddod o'r un sefydliad, ac ni ddylai gynnwys sefydliadau neu unigolion a fydd o bosibl yn dymuno gwneud cais am grantiau o'r gronfa gymunedol. Gwrthdaro buddiannau yw hwn.

Bydd angen i chi sicrhau bod derbynyddion grantiau cymunedol wedi cydymffurfio â thelerau'ch cynllun grant cymunedol a bod y grant wedi'i ddefnyddio'n briodol. I wneud hyn bydd angen i chi gywain tystiolaeth gan dderbynnydd y grant cymunedol. Dylai lefel y manylder y gofynnwch amdano fod yn gymesur â swm y grant.

Bydd angen i chi ddatrys unrhyw broblemau gyda derbynnydd y grant cymunedol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer ad-dalu'r grant neu ei hawlio'n ôl.

Bydd gennych gyfrifoldeb cyffredinol dros adrodd i ni ar gynnydd y grantiau cymunedol a bydd angen i chi gynhyrchu adroddiad gwerthuso ar ddiwedd eich prosiect. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn dyrannu cyllideb ddigonol i ymgymryd â'r gwaith gwerthuso hwn.

Yn ôl i'r brig.

# Gofynion cyfreithiol a pholisi

## Perchnogaeth

Disgwyliwn i chi fod yn berchennog ar unrhyw eiddo (tir, adeiladau, eitemau treftadaeth neu eiddo deallusol) yr ydych yn gwario'r grant arno neu feddu ar les sy'n bodloni ein gofynion.

Rhaid i chi fod yn berchennog ar y rhydd-ddaliad neu feddu ar les gydag o leiaf bum mlynedd yn weddill arni ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect.

Dyddiad Cwblhau'r Prosiect yw'r dyddiad pan fyddwn yn eich hysbysu y rhoddwyd cofnod wedi'i gwblhau i'r Prosiect.

Rhaid i bob les fodloni'r gofynion canlynol:

- nid ydym yn derbyn lesau sydd â chymalau torri (mae'r rhain yn rhoi'r hawl i un neu fwy o bartïon y les ddod â'r les i ben o dan rai amgylchiadau)
- nid ydym yn derbyn lesau sydd â fforffediad ar gymalau ansolfedd (mae'r rhain yn rhoi'r hawl i'r landlord ddod â'r les i ben os bydd y tenant yn mynd yn fethdalwr)
- mae'n bosibl y bydd modd i chi werthu, is-osod neu forgeisio'r cyfan neu ran o'ch les, ond os byddwn yn dyfarnu grant i chi, rhaid i chi gael caniatâd gennym yn gyntaf i wneud unrhyw un o'r rhain

Os mai tir sy'n eiddo i drydydd parti neu drydydd partïon lluosog yw testun eich prosiect, byddwn fel arfer yn disgwyl i'r perchennog gael ei wneud yn grantï ar y cyd. Mewn rhai sefyllfaoedd, yn hytrach na gwneud y perchennog yn grantï ar y cyd, efallai y byddwn yn gofyn iddynt lofnodi llythyr ychwanegol yn cytuno i gydymffurfio ag unrhyw delerau ac amodau sy'n ymwneud â'u heiddo.

Yn yr achos hwn, dylid rhoi cytundeb cyfreithiol ar waith hefyd rhwng pob perchennog tir neu adeilad a'r grantï. Nid oes ffurf ragnodedig ar gytundeb, ond mae gennym ofynion penodol y dylid eu cynnwys mewn unrhyw gytundeb perchennog trydydd parti.

Fel lleiafswm, dylai'r cytundebau gynnwys y canlynol:

- cadarnhad ynghylch sut mae'r tir wedi'i ddal (rhydd-ddaliad neu ar brydles)
- disgrifiad o'r eiddo (gan gynnwys cynlluniau)
- cyfamodau ar ran y perchennog i gynnal a chadw'r eiddo a darparu mynediad cyhoeddus yn unol â thelerau'r grant (fel y bo'n berthnasol)
- darpariaeth y dylai unrhyw warediad ymlaen fod yn ddarostyngedig i'r cytundeb trydydd parti
- cadarnhad y bydd y cytundeb yn para o ddechrau'r gwaith ar dir y trydydd parti tan bum mlynedd yn dilyn Dyddiad Cwblhau'r Prosiect ar gyfer prosiectau o dan £250k, a deng mlynedd yn dilyn Dyddiad Cwblhau'r Prosiect ar gyfer prosiectau dros £250k.

Bydd angen cwblhau'r cytundebau a'u rhoi ar waith cyn rhyddhau unrhyw arian grant ar gyfer gwaith ar unrhyw dir neu adeilad sy'n eiddo i drydydd parti.

Rydym yn derbyn ceisiadau am brosiectau tirwedd a natur sydd ar dir cyhoeddus a phreifat, ar yr amod bod y budd cyhoeddus yn drech nag unrhyw fudd preifat i'r tirfeddiannw(y)r unigol os ydynt yn unigolion preifat neu'n sefydliadau er-elw.

## Gwaith digidol

Mae gennym ofynion penodol ar gyfer gwaith digidol a gynhyrchir fel rhan o unrhyw brosiect.

Mae hyn yn ymdrin ag unrhyw beth yn eich prosiect rydych yn ei greu mewn fformat digidol sydd wedi'u dylunio i roi mynediad i dreftadaeth a/neu helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth a dysgu amdani.

Er enghraifft, gallai hyn gynnwys ffotograffau, testun, meddalwedd, cynnwys gwe ac apiau, cronfeydd data, modelau 3D, recordiadau sain a fideo. Nid yw eitemau a grëir wrth reoli'r prosiect, er enghraifft e-byst rhwng aelodau tîm a chofnodion cyfarfodydd, wedi'u cynnwys yn y gofyniad.

Gofynnwn i chi rannu eich allbynnau digidol o dan drwydded agored. Ein trwydded agored ddiofyn yw CC-BY 4.0. Mae hyn yn helpu dileu rhwystrau i ddefnyddio ac ailddefnyddio gwaith a ariennir, gan alluogi gwell ymgysylltiad â threftadaeth y DU. Mae hefyd yn helpu sicrhau bod eraill yn rhoi credyd priodol i'ch gwaith.

Mae ein rheoliadau ynghylch gwaith digidol yn amrywio gan ddibynnu ar faint y grant.

Gallwch ddarllen arweiniad pellach ar gynhyrchu deunyddiau digidol fel rhan o brosiect.

## Caffael

Rhaid i chi ddilyn ein canllawiau caffael. Fel trosolwg, dylai prosiectau ag unrhyw nwyddau, gwaith neu wasanaethau unigol sy'n werth mwy na £10,000 (ac eithrio TAW), geisio o leiaf dri thendr/dyfynbris cystadleuol. Ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth mwy na £50,000 (ac eithrio TAW), rhaid i chi ddarparu prawf o weithdrefnau tendro cystadleuol.

Dylai eich prawf fod yn adroddiad ar y tendrau yr ydych wedi'u derbyn, ynghyd â'ch penderfyniad ar ba un i'w dderbyn. Rhaid i chi roi rhesymau llawn os na fyddwch yn dewis y tendr isaf. Gan ddibynnu ar natur eich sefydliad a'ch prosiect, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi gydymffurfio â Deddfwriaeth Caffael y DU.

Os yw partner yn y prosiect yn darparu nwyddau neu wasanaethau y telir amdanynt drwy'r grant, mae angen i chi ddweud wrthym pam y cawsant eu dewis a pham nad yw proses dendro agored yn briodol. Byddwn yn ystyried ai dyma'r ffordd orau o gyflawni eich prosiect ac yn disgwyl i chi ddangos gwerth am arian a bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol.

Os ydych yn ansicr ynghylch eich rhwymedigaethau, rydym yn eich cynghori i geisio cyngor proffesiynol neu gyfreithiol. Os ydych eisoes wedi caffael nwyddau, gwaith neu wasanaethau gwerth mwy na £10,000 (ac eithrio TAW) ar gyfer eich prosiect, bydd angen i chi ddweud wrthym sut y gwnaethoch chi hynny. Ni allwn dalu eich grant os nad ydych wedi dilyn y drefn gywir.

## Recriwtio staff

Rhaid hefyd i chi hysbysebu'n agored yr holl swyddi staff ar gyfer y prosiect, gyda'r eithriadau a ganlyn:

- Mae gennych aelod staff â chymwysterau addas ar eich cyflogres yr ydych yn ei symud i swydd ar y prosiect.
- Rydych yn ymestyn oriau aelod staff â chymwysterau addas ar eich cyflogres fel y gall weithio ar y prosiect. Yn yr achos hwn byddwn yn ariannu cost yr oriau ychwanegol sy'n cael eu treulio ar y prosiect a bydd angen i chi ddweud wrthym beth yw eu rôl.

Yn yr achosion hyn, mae angen o hyd i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer y swydd sy'n esbonio'r gwaith y bydd yr aelod staff a benodir yn ei wneud yng nghyd-destun eich prosiect.

Rydym wedi'n hymrwymo i sicrhau bod y sector treftadaeth yn gynhwysol ac yn gynaliadwy. Fel lleiafswm mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r gyfradd Cyflog Byw (a Chyflog Byw Llundain lle bo'n berthnasol) ar gyfer holl staff y prosiect. Gofynnir i chi ddangos tystiolaeth o gyllidebu ar gyfer y cyfraddau Cyflog Byw fel lleiafswm yn eich costau staff a'ch cyllidebau.

Rhaid i weithdrefnau recriwtio ymgynghorwyr a chontractwyr fod yn deg ac yn agored a glynu wrth y ddeddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol.

## Rheoli cymorthdaliadau

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae'n bwysig cofio bod ein grant yn dod o arian cyhoeddus a'i fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Gofynnwn i chi ymgyfarwyddo â'r gofynion allweddol.

Ceir cymhorthdal pan fydd awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth ariannol o arian cyhoeddus sy'n rhoi mantais economaidd i'r derbynnydd, lle y gellir ystyried bod y derbynnydd hwnnw'n ymwneud â gweithgareddau economaidd. Bydd y rhan fwyaf o'n grantiau naill ai heb fod yn gymhorthdal neu'n gallu symud ymlaen fel cymhorthdal cyfreithlon sy'n bodloni gofynion Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Fel corff cyhoeddus, ein cyfrifoldeb ni yw penderfynu'n derfynol a yw eich grant yn gymhorthdal a/neu gymhwyso eithriadau perthnasol fel y bo angen ac mae ein hasesiad rheoli cymhorthdal yn rhan bwysig o'r broses ymgeisio.  Wrth baratoi eich cais dylech ystyried a yw unrhyw eithriad rheoli cymhorthdal penodol yn ofynnol ar gyfer eich prosiect. Byddwn yn disgwyl i'ch grant gydymffurfio ag egwyddorion y gyfundrefn rheoli cymhorthdal gan gynnwys y Ddeddf a'r Arweiniad Statudol a gyhoeddwyd. Os ydych yn ansicr a fydd eich prosiect yn bodloni'r gofynion perthnasol dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol.

Rydym yn cadw'r hawl i bennu gofynion pellach a cheisio gwybodaeth bellach yn hyn o beth a byddwn yn disgwyl i chi ddarparu unrhyw gymorth y gallwn fod ei angen yn rhesymol i gwblhau asesiad rheoli cymhorthdal.

### Embargos a sancsiynau llywodraeth y DU

Rhaid i'n grantiau beidio â chael eu defnyddio i ariannu sefydliadau sy'n cefnogi eithafiaeth, gweithgarwch troseddol ac/neu sy'n destun embargos a sancsiynau llywodraeth y DU.

Rhaid i chi ddilyn yr holl ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n berthnasol i'ch prosiect a chyflawni eich diwydrwydd dyladwy eich hun ar unrhyw gronfeydd, contractau neu unigolion sy'n gysylltiedig â lleoedd a allai fod yn ddarostyngedig i embargos a sancsiynau.

Os yw eich prosiect wedi'i effeithio, cysylltwch â'ch Rheolwr Buddsoddi neu eich swyddfa leol. Rydym yn cadw'r hawl i atal taliadau grant os ystyriwn fod arian cyhoeddus mewn perygl.

Yn ôl i'r brig.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn am y Gronfa Rhwydweithiau Natur, cysylltwch â natur@heritagefund.org.uk.

Rydym yn deall efallai y bydd penderfyniad yn peri siom i chi.

Gyda'r Gronfa Rhwydweithiau Natur, nid oes hawl i apelio. Ni allwn ond adolygu ein penderfyniad os byddwch yn gwneud cwyn ffurfiol am sut yr ydym wedi ymdrin â'ch cais. Mae gennym broses gwynion dau gam ar gyfer y rhaglen hon.

Ni fyddwn ond yn gallu ystyried ac ymchwilio i'r g?yn os gallwch ddangos y canlynol:

- ni fu i ni ddilyn y gweithdrefnau cyhoeddedig ar gyfer asesu eich cais
- rydym wedi camddeall rhan sylweddol o'ch cais
- ni fu i ni gymryd gwybodaeth berthnasol i ystyriaeth

Rhaid gwneud cwyn ffurfiol yn ysgrifenedig **o fewn 10 diwrnod gwaith** ar ôl derbyn y penderfyniad ar eich cais. Rhaid i chi anfon eich cwyn at: enquire@heritagefund.org.uk

Anelwn at gydnabod eich cwyn o fewn tri diwrnod gwaith.

Bydd eich cwyn yn cael ei hadolygu yn y lle cyntaf gan un o'n Cyfarwyddwyr Ardal a Gwlad, sy'n annibynnol ar y paneli argymell a phenderfynu ar gyfer y gronfa hon.

Anelwn at gyfathrebu penderfyniad o fewn 15 diwrnod gwaith o'r adeg y gwnaethoch gyflwyno'ch cwyn.

I gael cymorth, cysylltwch â'n Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 020 7591 6044 neu gyrrwch e-bost enquire@heritagefund.org.uk.

Yn ôl i'r brig.

## Rheoli eich data

Y Gronfa Treftadaeth a Llywodraeth Cymru fydd y cyd-reolwyr data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperwch mewn perthynas â'ch cais am grant neu gais am arian grant. Byddwn yn ei brosesu'n unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio ynom i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio hunaniaeth.

Bydd eich data personol a data sy'n gysylltiedig â'r grant yn cael eu rhannu â rheolydd data arall, Llywodraeth Cymru, ac unrhyw gontractwr a benodir gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad allanol o'r Rhwydweithiau Natur i adolygu effaith, perfformiad a chostau'r cynllun. Byddwch yn cael eich hysbysu pan fydd gwerthusiad allanol yn cael ei gynnal a byddwch yn cael cyfle i optio allan.

Yn ôl i'r brig.

## Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.

Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5) yn cael ei chyflwyno gan y Gronfa Treftadaeth, ar ran Llywodraeth Cymru ac mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Yn ôl i'r brig.

# Ymholiad Prosiect: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5) £50,000 i £250,000

24/06/2025
24/06/2025
See all updates
Rhaid i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais am grant Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5) rhwng £50,000 a £250,000 gyflwyno ffurflen Ymholiad Prosiect cyn symud ymlaen i gais llawn.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch i benderfynu p'un a fyddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn ai beidio. Nid yw gwahoddiad i wneud cais yn gwarantu grant gennym yn y dyfodol, ond mae'n nodi ein bod yn gweld potensial yn eich cynigion cychwynnol.

Rhaid i chi gyflwyno eich Ymholiad Prosiect **erbyn 12 hanner dydd ar 14 Gorffennaf 2025**.

Eisiau gwneud cais am fwy na £250,000? Dylech gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb yn lle.

**Pwysig:** Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn defnyddio'r un ffurflenni ar draws amrywiaeth o raglenni yr ydym yn eu darparu. Wrth lenwi eich ffurflen gais, mae'n rhaid i chi ddilyn yr arweiniad isod am fod angen ateb rhai cwestiynau yn wahanol ar gyfer y rhaglen hon. **Ni ddylech** ddefnyddio'r eiconau cymorth sydd wedi'u hymwreiddio yn y ffurflen ar-lein gan nad ydynt yn gysylltiedig â'r ariannu hwn.

# Cyn cyflwyno

- Cofiwch sicrhau eich bod wedi darllen arweiniad ymgeisio llawn Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5)
- Mynnwch gip ar ein safbwynt a'n cyngor ar ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) yn eich Ymholiad Prosiect.

# Cwestiynau Ymholiad Prosiect

Gallwch weld y cwestiynau Ymholiad Prosiect yma.

## Ydych chi wedi siarad ag unrhyw un yn y Gronfa Treftadaeth am eich syniad?

Os ydych, dywedwch wrthym beth yw eu henw. Dywedwch wrthym hefyd os ydych wedi siarad ag unrhyw un yn Cyfoeth Naturiol Cymru am eich prosiect, ac am beth e.e. caniatadau neu drwyddedau.

## Beth yw'r angen am y prosiect hwn?

Beth yw'r angen am y prosiect hwn o ran cefnogi amcanion y rhaglen Rhwydweithiau Natur? Beth yw cyflwr presennol y safle(oedd)?  A oes risg benodol i'r safle(oedd)?

Dywedwch wrthym am unrhyw ymchwil yr ydych wedi'i wneud gyda'ch cynulleidfa.

Mae gennych 200 o eiriau.

## Disgrifiwch yr hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod y prosiect.

Gofynnir i chi gynnwys unrhyw dasgau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i gyflawni nod y prosiect. Er enghraifft, disgrifiwch pa gamau penodol y byddwch yn eu cymryd i wella rheolaeth cynefinoedd/ rhywogaethau, gan gynnwys gweithgarwch datblygu ac adeiladu gallu os yn berthnasol.

Mae gennych 200 o eiriau.

## A oes gennych deitl ar gyfer y prosiect?

**Rhaid** i chi gynnwys y rhagddodiad #NNF5 yn nheitl eich prosiect.

Er enghraifft, #NNF5 Gwelliannau i warchodfa natur gweision y neidr, gan fod yn glir ac yn gryno ynghylch gweithgarwch a lleoliad y prosiect os yn bosib.

Os cewch wahoddiad i gyflwyno cais llawn gallwch newid eich teitl.

## Dywedwch wrthym am dreftadaeth y prosiect.

Ar gyfer y rhaglen hon, mae treftadaeth yn cyfeirio at y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig.

Dywedwch wrthym:

- sut mae eich prosiect yn cysylltu â'r rhwydwaith safleoedd gwarchodedig (er enghraifft, enwau safleoedd penodol e.e. SoDdGA a/neu bobl/sefydliadau sy'n eu rheoli)
- pam ei fod yn  bwysig (ar gyfer bioamrywiaeth/bywyd gwyllt a phobl).
- ble bydd y gwaith yn digwydd.
- pa gynefinoedd/poblogaethau rhywogaethau y byddwch yn gweithio i'w gwarchod neu eu hadfer.

Mae gennych 100 o eiriau.

## Amlinellwch sut y bydd eich prosiect yn ymateb i'n pedair egwyddor fuddsoddi.

Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn gweddu i'n holl egwyddorion buddsoddi, ond eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu ar gryfder y ffocws a'r pwyslais ar bob egwyddor, a dangos hynny.

**Achub treftadaeth**, dywedwch wrthym:

- sut y bydd eich prosiect yn gwella cyflwr rhwydwaith safleoedd gwarchodedig Cymru.
- sut y byddwch chi'n adfer cysylltedd ac yn cyfrannu at Rwydweithiau Ecolegol Cydnerth (REN), hyd yn oed os bydd hyn yn y dyfodol.

**Diogelu'r amgylchedd**, dywedwch wrthym:

- sut y bydd eich prosiect yn lliniaru ac yn addasu i fygythiadau i safleoedd gwarchodedig, fel newid hinsawdd, rhywogaethau estron goresgynnol, a llygredd.
- pa wasanaethau ecosystem y byddwch yn gweithio i'w gwarchod neu eu hadfer.
- sut y bydd eich gwaith yn cyfrannu at gydnerthedd ecosystemau ar raddfa'r dirwedd.

**Cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad**, dywedwch wrthym:

- sut fydd cymunedau neu gynulleidfaoedd yn cymryd rhan yn weithredol yn y safleoedd gwarchodedig ac o'u cwmpas.
- Os bydd unrhyw welliannau hygyrchedd.

**Cynaladwyedd sefydliadol**, dywedwch wrthym:

- sut y bydd eich prosiect yn datblygu ac yn cynnal sgiliau a gallu a/neu'n gwella cydnerthedd eich sefydliad i sicrhau dyfodol hirdymor i rwydwaith y safleoedd gwarchodedig.

Mae gennych 300 o eiriau.

## Pwy fydd yn cymryd rhan yn y prosiect?

Dywedwch wrthym bwy fydd yn rhedeg y prosiect, unrhyw bartneriaethau ac a fydd pobl yn gwirfoddoli ar y prosiect. Mae gennych 100 o eiriau.

## Faint o amser ydych chi'n meddwl y bydd y prosiect yn ei gymryd?

Rhowch amcangyfrif o'r dyddiadau dechrau a dod i ben. Noder bod yn rhaid i brosiectau ddod i ben erbyn 30 Ionawr 2029, gan gynnwys gwerthuso a'r holl adrodd ariannol.

Mae gennych 50 o eiriau.

### Faint mae'r prosiect yn debygol o gostio?

Os ydych yn gwybod, dywedwch wrthym am y costau pwysicaf, wedi'u rhannu i gostau cyfalaf a refeniw. Gellir amcangyfrif y costau hyn.

Mae gennych 200 o eiriau.

### Faint o ariannu ydych chi'n bwriadu gwneud cais amdano gennym?

£[nodwch swm]

## Sut i gyflwyno

Pan fyddwch yn barod i gyflwyno'ch ymholiad, cwblhewch y cwestiynau ar ein gwasanaeth ar-lein **erbyn 12 hanner dydd ar 14 Gorffennaf 2025**.

Cyn cyflwyno, bydd angen i chi gofrestru cyfrif i chi'ch hun ac i'r sefydliad yr ydych yn gwneud cais amdano.

## Clywed yn ôl gennym

Unwaith y byddwch wedi cyflwyno ymholiad byddwn yn cysylltu â chi erbyn dechrau mis Awst 2025 i'ch hysbysu am y canlyniad.  Os bydd eich ymholiad yn llwyddiannus fe gewch eich gwahodd i wneud cais llawn erbyn y terfyn amser o 26 Medi 2025.

## Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.

# Mynegiad o Ddiddordeb: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5) £250,000 i £1miliwn

24/06/2025
24/06/2025
See all updates
Gofynnwn i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais am grant Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5) rhwng £250,000 ac £1miliwn gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb cyn gwneud cais.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwch i benderfynu p'un a fyddwn yn eich gwahodd i gyflwyno cais llawn ai beidio. Nid yw gwahoddiad i wneud cais yn gwarantu grant gennym yn y dyfodol, ond mae'n nodi ein bod yn gweld potensial yn eich cynigion cychwynnol.

**Rhaid** i chi ddefnyddio'r canllaw hwn i'ch cynorthwyo i gwblhau'r Mynegiad o Ddiddordeb (MoDd) ar-lein ar gyfer grantiau dros £250,000 hyd at £1miliwn. **Os na fyddwch yn cyflwyno MoDd ni fyddwch yn cael eich gwahodd i gyflwyno cais llawn.**

Mae cyfrif geiriau'r MoDd yn fwriadol fyr (uchafswm o 1,000 o eiriau) er mwyn lleihau amser ac ymdrech i chi wrth gwblhau'r cam hwn.

Rhaid i chi gyflwyno eich MoDd erbyn 12 hanner dydd ar 12 Awst 2025.

Eisiau gwneud cais am lai na £250,000? Dylech gyflwyno ffurflen Ymholiad Prosiect orfodol yn lle

**Pwysig:** Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn defnyddio'r un ffurflenni ar draws amrywiaeth o raglenni yr ydym yn eu darparu. Wrth lenwi eich ffurflen gais, mae'n rhaid i chi ddilyn yr arweiniad isod am fod angen ateb rhai cwestiynau yn wahanol ar gyfer y rhaglen hon. **Ni ddylech** ddefnyddio'r eiconau cymorth sydd wedi'u hymwreiddio yn y ffurflen ar-lein gan nad ydynt yn gysylltiedig â'r ariannu hwn.

# Cyn cyflwyno

- Cofiwch sicrhau eich bod wedi darllen arweiniad ymgeisio llawn Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5).
- Mynnwch gip ar ein safbwynt a'n cyngor ar ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) yn eich Mynegiad o Ddiddordeb.

# Sut i gyflwyno

Pan fyddwch yn barod, cwblhewch y MoDd ar ein gwasanaeth ar-lein.

Bydd angen i chi gofrestru cyfrif i chi'ch hun ac i'r sefydliad yr ydych yn gwneud cais amdano os nad oes gennych un eisoes.

Y terfyn amser i gyflwyno eich Mynegiad o Ddiddordeb **yw 12 hanner dydd ar 12 Awst 2025**.

# Clywed yn ôl gennym

Anelwn at ymateb i'ch MoDd o fewn 20 diwrnod gwaith o'r terfyn amser MoDd.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi drwy e-bost a ydych wedi llwyddo i gael eich gwahodd i gyflwyno cais llawn i Rhwydweithiau Natur Rownd 5.

# Cwestiynau'r Mynegiad o Ddiddordeb

Gallwch weld y cwestiynau yn y MoDd isod.

### Ydych chi wedi siarad ag unrhyw un yn y Gronfa Treftadaeth am eich syniad?

Os ydych, dywedwch wrthym beth yw eu henw.

Dywedwch wrthym hefyd os ydych wedi siarad ag unrhyw un yn Cyfoeth Naturiol Cymru am eich prosiect, ac am beth e.e. caniatadau neu drwyddedau.

## Disgrifiwch yr hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod y prosiect.

Gofynnir i chi gynnwys unrhyw dasgau y mae'n rhaid i chi eu gwneud i gyflawni nod y prosiect. Er enghraifft, disgrifiwch pa gamau penodol y byddwch yn eu cymryd i wella rheolaeth ar gynefinoedd/ rhywogaethau .

Mae gennych 200 o eiriau.

## A oes gennych deitl ar gyfer y prosiect?

**Rhaid** i chi gynnwys y rhagddodiad #NNF5 yn nheitl eich prosiect.

Er enghraifft, #NNF5 Gwelliannau i warchodfa natur gweision y neidr, gan fod yn glir ac yn gryno ynghylch gweithgarwch a lleoliad y prosiect os yn bosib.

Os cewch wahoddiad i gyflwyno cais llawn gallwch newid eich teitl.

## Amlinellwch sut y bydd eich prosiect yn ymateb i'n pedair egwyddor fuddsoddi.

Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Natur yn gweddu i'n holl egwyddorion buddsoddi, ond eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu ar gryfder y ffocws a'r pwyslais ar bob egwyddor, a dangos hynny.

**Achub treftadaeth**, dywedwch wrthym:

- sut y bydd eich prosiect yn gwella cyflwr rhwydwaith safleoedd gwarchodedig Cymru.
- sut y byddwch chi'n adfer cysylltedd ac yn cyfrannu at Rwydweithiau Ecolegol Cydnerth (REN), hyd yn oed os bydd hyn yn y dyfodol.

**Diogelu'r amgylchedd**, dywedwch wrthym:

- sut y bydd eich prosiect yn lliniaru ac yn addasu i fygythiadau i safleoedd gwarchodedig, fel newid hinsawdd, rhywogaethau estron goresgynnol, a llygredd.
- pa wasanaethau ecosystem y byddwch yn gweithio i'w gwarchod neu eu hadfer.
- sut y bydd eich gwaith yn cyfrannu at gydnerthedd ecosystemau ar raddfa'r dirwedd.

**Cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad**, dywedwch wrthym:

- sut fydd cymunedau neu gynulleidfaoedd yn cymryd rhan yn weithredol yn y safleoedd gwarchodedig ac o'u cwmpas.
- Os bydd unrhyw welliannau hygyrchedd.

**Cynaladwyedd sefydliadol**, dywedwch wrthym:

- sut y bydd eich prosiect yn datblygu ac yn cynnal sgiliau a gallu a/neu'n gwella cydnerthedd eich sefydliad i sicrhau dyfodol hirdymor i rwydwaith y safleoedd gwarchodedig.

Mae gennych 300 o eiriau.

## Dywedwch wrthym am dreftadaeth y prosiect.

Ar gyfer y rhaglen hon, mae treftadaeth yn cyfeirio at y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig. Dylech esbonio sut mae eich prosiect yn cysylltu â'r rhwydwaith (er enghraifft, enwau safleoedd penodol e.e. SoDdGA a chyfeiriadau grid a/neu bobl/sefydliadau sy'n eu rheoli) a pham ei fod yn bwysig (ar gyfer bioamrywiaeth/bywyd gwyllt a phobl).

Dywedwch wrthym:

- Ble fydd y gwaith yn digwydd?
- Pa ecosystemau/cynefinoedd/poblogaethau rhywogaethau y byddwch chi'n gweithio i'w gwarchod neu eu hadfer?

Mae gennych 100 o eiriau.

### Beth yw'r angen am y prosiect hwn?

Dywedwch wrthym:

- Beth yw'r angen am y prosiect hwn o ran cefnogi amcanion y rhaglen Rhwydweithiau Natur?
- Beth yw cyflwr presennol y safle(oedd)?
- A oes risg benodol i'r safle(oedd)?
- am unrhyw ymchwil yr ydych wedi'i wneud gyda'ch cynulleidfa.

Mae gennych 200 o eiriau.

### Faint o amser ydych chi'n meddwl y bydd y prosiect yn ei gymryd?

Dywedwch wrthym beth yw eich dyddiadau dechrau a gorffen amcangyfrifedig. Rhaid i'ch prosiect gael ei gwblhau erbyn **31 Mawrth 2029** gan gynnwys gwerthuso ac adrodd terfynol.

Mae gennych 50 o eiriau.

### Faint mae'r prosiect yn debygol o gostio?

Rhaid i chi wneud cais am swm rhwng £250,000 ac £1miliwn Gellir amcangyfrif y costau hyn. Os oes angen llai arnoch, dylech gwblhau Ymholiad Prosiect am £50,000 i £250,000 ac nid MoDd. Rhowch symiau amcangyfrifedig o gostau cyfalaf a refeniw y byddwch yn gwneud cais amdanynt.

Mae gennych 200 o eiriau.

### Faint o ariannu ydych chi'n bwriadu gwneud cais amdano gennym?

Nodwch swm.

### Pryd ydych chi'n debygol o gyflwyno cais am ariannu, os gofynnir i chi wneud hynny?

Mae gennych 50 o eiriau. Os cewch eich gwahodd, bydd yn rhaid i chi gyflwyno eich cais erbyn **12 hanner dydd ar 18 Tachwedd 2025.**

# Templedi: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5)

24/06/2025
24/06/2025

See all updates

Defnyddiwch y templedi hyn i helpu i baratoi eich cais i'r Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5).

| Atodiad | Maint |
|---|---|
| Nature Networks Fund project costs template | 6.56 KB |
| Nature Networks Fund project plan template | 33.01 KB |
| Cronfa Rhwydweithiau Natur - costau prosiect | 6.78 KB |
| Cronfa Rhwydweithiau Natur - cynllun prosiect | 33.26 KB |

# Cwestiynau ymgeisio: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5) £50,000 to £250,000

24/06/2025
24/06/2025
See all updates

Cwestiynau o'n ffurflen gais Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol £50,000 i £250,000.

Cyn y gallwch wneud cais am grant dros £50,000, **rhaid** i chi gyflwyno ffurflen Ymholiad Prosiect i ddweud wrthym am eich syniad. Os ydych yn llwyddiannus, byddwn yn eich gwahodd i wneud cais. Ar ôl i chi gael eich gwahodd i wneud cais, bydd gennych tan 12 hanner dydd ar 26 Medi 2025 i gyflwyno cais.

- **Rhaid** i chi ddefnyddio'r canllaw hwn i'ch cynorthwyo wrth gwblhau ffurflen gais ar-lein am grant Rhwydweithiau Natur (Rownd 5) am lai na £250,000.

**Pwysig:** Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn defnyddio'r un ffurflenni ar draws amrywiaeth o raglenni yr ydym yn eu darparu. Wrth lenwi eich ffurflen gais, mae'n rhaid i chi ddilyn yr arweiniad isod am fod angen ateb rhai cwestiynau yn wahanol ar gyfer y rhaglen hon. **Ni ddylech** ddefnyddio'r eiconau cymorth sydd wedi'u hymwreiddio yn y ffurflen ar-lein gan nad ydynt yn gysylltiedig â'r ariannu hwn.

Mae terfyn geiriau i bob cwestiwn; fodd bynnag, nid oes angen i chi gyrraedd hwn. Dim ond yr wybodaeth y gofynnwn amdani sy'n berthnasol i'ch prosiect y mae angen i chi ei chynnwys.

Mynnwch gip ar ein safbwynt a'n cyngor ar ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) yn eich cais am grant.

## Ynghylch eich gweledigaeth

### Disgrifiwch yr hyn yr hoffai eich sefydliad ei gyflawni drwy eich prosiect.

Byddwn yn defnyddio eich ateb i ddweud wrth bobl am eich prosiect, gan gynnwys y cyrff sy'n gwneud y penderfyniadau, sef Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cyhoeddi manylion ceisiadau a dyfarniadau grant ar ein gwefan ac mewn cronfeydd data cyhoeddus. Mae hyn yn gweddu i'n hymrwymiad i dryloywder ac egwyddorion data agored. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i darparu wrth ateb y cwestiwn hwn i ddisgrifio'ch prosiect.

Dywedwch wrthym beth rydych chi'n gobeithio ei gyflawni a'r hyn yr ydych yn gobeithio fydd etifeddiaeth eich prosiect o ran cyfrannu at Rwydweithiau Ecolegol Cydnerth yng Nghymru.

[Maes testun – 150 gair]

# Ynghylch eich ffocws treftadaeth

## Dywedwch wrthym am y dreftadaeth y byddwch yn canolbwyntio arni fel rhan o'r prosiect hwn.

Ar gyfer y rhaglen hon, mae treftadaeth yn cyfeirio at y safle(oedd) neu'r rhywogaethau y bydd y prosiect yn gweithio arnynt. Dywedwch wrthym:

- beth yw enw(au) y safle(oedd)
- a oes unrhyw gydnabyddiaeth swyddogol neu ddynodiadau ffurfiol o'r safle(oedd), er enghraifft, efallai bod safle yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
- pa gynefinoedd neu rywogaethau sydd wedi'u cynnwys, eu cyflwr presennol a'u defnydd
- sut mae'r safle(oedd) neu'r rhywogaeth yn gysylltiedig â rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchodedig

Peidiwch â defnyddio'r adran hon i ddweud wrthym am eich prosiect, neu beth fydd yn digwydd yn ystod eich prosiect. Byddwn yn gofyn i chi am hyn yn nes ymlaen yn y cais.

[Maes testun – 500 gair]

## A yw'r dreftadaeth hon mewn perygl?

Esboniwch pam fod y dreftadaeth o dan fygythiad, a pha gamau sydd wedi'u cymryd (os o gwbl) i isafu'r risg.

Er enghraifft, efallai ei fod mewn perygl o gael ei cholli trwy ddifrod ffisegol neu esgeulustod, neu ddiffygion ariannol. Gall mynediad y cyhoedd i'r dreftadaeth hefyd fod mewn perygl o gael ei golli.

Dywedwch wrthym a yw'r dirwedd, cynefin neu rywogaeth mewn perygl ac ym mha ffordd (er enghraifft, wedi'i nodi fel blaenoriaeth mewn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth).

Dywedwch wrthym:

- sut mae'r dreftadaeth yn cael ei rheoli ar hyn o bryd a chan bwy
- sut mae pobl yn ymgysylltu â'r dreftadaeth ar hyn o bryd

Ateb:

- Nac ydy, dydy hi ddim mewn perygl [Blwch ticio]
- Ydy, mae hi mewn perygl [Blwch ticio]

Os ydy, esboniwch pam fod y dreftadaeth mewn perygl.

[Maes testun – 500 gair]

# Yngl?n â'ch prosiect

## Beth yw teitl eich prosiect?

Rhowch deitl neu enw i ni allu cyfeirio at eich prosiect.

Bydd hwn yn cael ei weld gan y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, ac os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw bostiadau cyhoeddus a wneir am eich prosiect a'i gyhoeddi ar ein gwefan. Gwnewch yn si?r eich bod chi'n dewis teitl rydych chi'n hapus i amrywiaeth eang o bobl ei weld.

Rydym yn eich annog i gadw eich teitl yn fyr ac yn ddisgrifiadol.

Cofiwch gynnwys y rhagddodiad #NNF5 yn nheitl eich prosiect. Er enghraifft **#NNF5 Gwelliannau i warchodfa natur gweision y neidr**.

[Mewnbynnu testun – 255 nod]

## Pryd fydd eich prosiect yn digwydd?

Nodwch y dyddiad yr ydych yn disgwyl dechrau ar eich prosiect. Ni ddylai hyn fod cyn 1 Ionawr 2026.

**Rhaid** i'ch prosiect ddod i ben erbyn Dyddiad Cwblhau'r Prosiect sef 30 Ionawr 2029, gan gynnwys yr holl waith adrodd ariannol a gwerthuso. Rhagwelwn y bydd y rhan fwyaf o brosiectau cynllunio prosiect yn para'n fyrrach na phrosiectau sy'n cyflwyno gwaith cyfalaf.

- dyddiad dechrau'r prosiect [Rhowch ddyddiad]
- dyddiad dod i ben y prosiect [Rhowch ddyddiad]

## Ble mae eich prosiect yn digwydd?

Efallai bod eich prosiect yn digwydd rhywle sy'n wahanol i'ch sefydliad. Dywedwch wrthym ble mae hynny. Os yw eich prosiect yn digwydd ar fwy nag un safle, dywedwch wrthym ble y bydd y rhan fwyaf o'ch prosiect yn digwydd.

- yr un lle â chyfeiriad fy sefydliad [Blwch ticio]
- rhywle arall [Blwch ticio]

Os rhywle arall:

## Dywedwch wrthym beth yw cyfeiriad eich prosiect.

[Nodi cod post > dewis cyfeiriad > golygu manylion y cyfeiriad a ddewisir]

Rydym yn deall efallai nad oes gennych god post. Dywedwch wrthym beth yw'r cod post agosaf at leoliad eich prosiect.

## Ydych chi eisiau ychwanegu cyfeirnod grid?

Rhowch gyfeirnod grid os yw eich prosiect yn cael ei gynnal ar draws ardal fawr, ar fwy nag un safle neu mewn lle sy'n anodd ddod o hyd iddo gan ddefnyddio cod post.

Rhowch gyfeirnod grid chwe digid yr Arolwg Ordnans ar gyfer pwynt canol ardal eich prosiect (er enghraifft: SK510072). Os ydych yn gweithio ar nifer o safleoedd, gwahanwch bob cyfeirnod grid gyda hanner colon (er enghraifft: SK510072; SX163777; TQ317842).

- Peidiwch â chynnwys unrhyw destun ychwanegol gyda'ch cyfeirnodau grid. Nac ydym, nid ydym am ychwanegu cyfeirnod grid [Blwch ticio]

- Ydym, rydym am ychwanegu cyfeirnod grid [Blwch ticio]

Os ydym: Rhowch gyfeirnod grid [Maes testun – 20 nod]

Os hoffech ychwanegu cyfeirnod grid arall, bydd modd i chi ychwanegu mwy ar y dudalen nesaf.

Mwy o wybodaeth:

Rhowch fwy o wybodaeth am y cyfeirnod grid. Er enghraifft, enw'r safle neu ddisgrifiad o'r ardal y mae'n ei chwmpasu.

[Maes testun – 50 gair]

## A ydych wedi derbyn unrhyw gyngor gennym ynghylch y prosiect hwn?

Os ydych wedi siarad ag unrhyw un yng Nghronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am eich prosiect, dywedwch wrthym am y cyngor a gawsoch a sut rydych wedi defnyddio'r cyngor hwnnw i ddatblygu eich prosiect.

- Nac ydym, nid ydym wedi derbyn unrhyw gyngor gennych chi [Blwch ticio]
- Ydym, rydym wedi derbyn cyngor gennych chi [Blwch ticio]

Os ydym: Dywedwch fwy wrthym am y cyngor a gawsoch gennym am y prosiect hwn

[Maes testun – 500 gair]

## A ydych wedi derbyn unrhyw gyngor gan unrhyw un arall am y prosiect hwn?

Dywedwch wrthym a ydych wedi derbyn unrhyw gyngor arbenigol am eich prosiect. Gallai hyn fod yn arbenigwyr ar y dreftadaeth y mae eich prosiect yn canolbwyntio arni neu sefydliadau eraill a fydd yn eich cefnogi i gyflwyno eich prosiect.

Gallai hyn gynnwys:

- unrhyw gyngor ar gynigion prosiect, fel gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu ecolegwyr
- unrhyw waith ymgynghori rydych wedi'i wneud gyda'ch cymuned leol a'r rhai a fydd yn ymwneud â'ch prosiect, fel tirfeddianwyr lleol
- unrhyw gyngor cyn-ymgeisio ar faterion cynllunio neu ganiatadau, er enghraifft gan eich awdurdod lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru
- cyngor ar sut i ymdrin â lles y cyfranogwyr yn eich prosiect, er enghraifft gan elusen neu gr?p lleol a all ddarparu cymorth sy'n berthnasol i'w profiad o lygad y ffynnon

Ateb:

- Nac ydym, nid ydym wedi derbyn unrhyw gyngor [Blwch ticio]
- Ydym, rydym wedi derbyn cyngor [Blwch ticio]

Os ydym: Dywedwch fwy wrthym am y cyngor a gawsoch gan unrhyw un arall am y prosiect hwn

[Maes testun – 500 gair]

## Dywedwch wrthym beth fyddwch yn ei wneud yn ystod eich prosiect.

Rhowch drosolwg o'r hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod eich prosiect. Dylech ddefnyddio'r ddau is-bennawd a ganlyn, gan ddibynnu a yw eich prosiect yn gyfalaf neu'n ymwneud â datblygu/adeiladu gallu.

Prosiectau cyfalaf:

- Pa safle(oedd) gwarchodedig neu Rwydweithiau Ecolegol Blaenoriaeth y bydd eich prosiect yn cael effaith arnynt?
- Pa waith fyddwch chi'n ymgymryd ag ef ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau?
- Pwy fydd yn cymryd rhan a sut (staff, gwirfoddolwyr, y cyhoedd, cynulleidfaoedd targed)?

Prosiectau datblygu/adeiladu gallu:

- Pa waith fyddwch chi'n ei ymgymryd ag ef yn ystod y prosiect (er enghraifft, pa arolygon, ymgynghoriadau neu weithgareddau cynllunio)?
- Pwy fydd yn cymryd rhan a sut (staff, gwirfoddolwyr, y cyhoedd, cynulleidfaoedd targed, partneriaid)?

Dylai eich cynllun prosiect ddarparu gwybodaeth fanylach am bob elfen o'ch prosiect.

- [Maes testun – 500 gair]

## A fydd gwaith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect?

Ceir manylion am yr hyn a ystyriwn yn waith cyfalaf yn yr arweiniad ymgeisio.

- Dywedwch wrthym a fydd unrhyw waith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect, hyd yn oed os yw'n rhan fach o'ch prosiect ehangach.
- Na fydd, nid yw gwaith cyfalaf yn rhan o'n prosiect [Blwch ticio]
- Bydd, gwaith cyfalaf yw rhan o'n prosiect [Blwch ticio]

Os bydd gwaith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect, bydd angen i chi ddweud wrthym pwy sy'n berchen ar y dreftadaeth. Os ydyn nhw gyda chi, mae angen i ni weld unrhyw ddogfennau perchnogaeth, lesau ac arolygon cyflwr.

Os mai eich sefydliad chi sy'n berchen ar y dreftadaeth, dywedwch wrthym:

- a oes gan eich sefydliad rydd-ddaliad ar yr adeilad neu dir, neu os yw'n berchen yn gyfan gwbl ar yr eitemau treftadaeth
- a oes gan eich sefydliad les ar yr adeilad neu dir a faint o flynyddoedd sy'n weddill ar y les
- a oes gan eich sefydliad, neu a yw'n bwriadu cymryd, morgais neu fenthyciadau eraill sydd wedi'u sicrhau ar yr adeilad neu dir, neu eitem treftadaeth. Os oes, rhowch fanylion y benthyciwr a maint y morgais neu fenthyciad i ni. Os oes gennych un, uwchlwythwch ddogfen o berchnogaeth.

Os yw sefydliad partner yn berchen ar y dreftadaeth, dywedwch wrthym:

- enw'r sefydliad partner
- a oes gan y partner yn y prosiect rydd-ddaliad ar yr adeilad neu dir, neu a yw'n berchen yn gyfan gwbl ar yr eitemau treftadaeth
- a oes gan y partner yn y prosiect les ar yr adeilad neu dir a faint o flynyddoedd sy'n weddill ar y les
- a oes gan y partner yn y prosiect, neu a yw'n bwriadu cymryd, morgais neu fenthyciadau eraill sydd wedi'u sicrhau ar yr adeilad neu dir, neu eitem treftadaeth
- os oes, rhowch fanylion y benthyciwr a maint y morgais neu fenthyciad i ni
- Os nad ydych yn bodloni ein gofynion o ran perchnogaeth ar hyn o bryd, rhowch ddyddiad i ni pan fyddwch yn disgwyl y bydd modd gwneud hyn.

Dywedwch wrthym pwy sy'n berchen ar y dreftadaeth.

[Maes testun – 500 gair]

Uwchlwytho dogfen o berchnogaeth.

[Dewis ffeil]

**Os dewiswch 'Bydd, gwaith cyfalaf yw rhan o'n prosiect', bydd angen hefyd i chi ateb y pum cwestiwn nesaf:**

## A oes angen unrhyw ganiatâd arnoch i wneud y gwaith cyfalaf?

Enghreifftiau o'r hyn y gallai fod angen caniatâd ar ei gyfer:

- cydsyniad gan berchennog ased treftadaeth
- hawliau mynediad gan dirfeddiannwr
- caniatâd cynllunio gan y cyngor
- trwyddedau a hawlenni gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- cydsyniad i recordio sain neu dynnu lluniau o unigolion

Os nad ydych chi'n gwybod a oes angen caniatâd arnoch ai beidio, dewiswch yr opsiwn 'Nid ydym yn si?r a oes angen caniatâd arnom' a rhowch fanylion.

- Nac oes, does dim angen caniatâd arnom [Blwch ticio]

Os nac oes: Dywedwch wrthym pam nad oes angen caniatâd arnoch i wneud y gwaith cyfalaf [Maes testun – 500 gair]

- Oes, mae angen caniatâd arnom i wneud y gwaith cyfalaf [Blwch ticio]

Os oes: Dywedwch wrthym gan bwy y mae angen caniatâd arnoch [Maes testun - 500 gair]

- Nid ydym yn si?r a oes angen caniatâd arnom [Blwch ticio]

## A yw arolwg cyflwr wedi'i gynnal yn ystod y pum mlynedd diwethaf?

Dywedwch wrthym am unrhyw arolygon ecolegol neu Asesiadau Effaith Amgylcheddol sydd wedi'u cwblhau

Os ydych wedi cael unrhyw fath o arolwg cyflwr, fe hoffem ei weld. Gallwch uwchlwytho arolwg cyflwr yma.

- Nac ydy, nid oes arolwg cyflwr wedi'i gynnal [Blwch ticio]

Os nac ydy: Dywedwch wrthym pam nad ydych wedi cael arolwg cyflwr

[Maes testun – 500 gair]

- Ydy, mae arolwg cyflwr wedi'i gynnal [Blwch ticio]

Os ydy: Dywedwch fwy wrthym am yr arolwg cyflwr

[Maes testun – 500 gair]

Uwchlwythwch arolwg cyflwr.

[Dewis ffeil]

- Nid ydym yn si?r a oes arolwg cyflwr wedi'i gynnal [Blwch ticio]

Os nad ydych yn si?r: Dywedwch wrthym pam nad ydych yn si?r a oes arolwg cyflwr wedi'i gynnal

[Maes testun – 500 gair]

## A oes unrhyw amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r dreftadaeth a allai effeithio ar eich prosiect?

Dywedwch wrthym a yw'r gofrestr teitl neu ddogfennau perchnogaeth eraill yn cynnwys unrhyw waharddiadau neu gyfyngiad ar ei defnydd neu berchnogaeth, neu a oes angen unrhyw ganiatadau ar gyfer unrhyw drafodion. Os oes, bydd angen i chi roi'r manylion llawn a thystiolaeth bod y rhain wedi'u bodloni.

Gallai hyn gynnwys:

- Cyfamod Cyfyngol sy'n cyfyngu ar y math o ddefnydd ar gyfer y tir neu'r eiddo
- cyfyngiad sy'n rhoi hawl i barti arall gael ei hysbysu am unrhyw drafodion neu nodi amodau y byddai angen eu datrys cyn gwerthu'r eiddo

Ateb:

- Nac oes, does dim amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r dreftadaeth [Blwch ticio]
- Oes, mae yna amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r dreftadaeth [Blwch ticio]

Os oes: Dywedwch fwy wrthym am unrhyw amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r ased treftadaeth a allai effeithio ar eich prosiect

[Maes testun – 500 gair]

- Nid wyf yn si?r a oes unrhyw amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r dreftadaeth [Blwch ticio]

## A yw'r dreftadaeth hon ar y Gofrestr Mewn Perygl?

- Ateb: Nac ydy, nid yw ar y Gofrestr Mewn Perygl [Blwch ticio]

A fyddwch yn creu unrhyw waith digidol fel rhan o'ch prosiect?

Wrth allbynnau digidol rydym yn golygu unrhyw beth a grëir mewn fformat digidol gyda'n hariannu, sydd wedi'i ddylunio i roi mynediad i dreftadaeth neu helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth a dysgu amdani.

Dywedwch wrthym a fyddwch yn creu unrhyw allbynnau digidol fel rhan o'ch prosiect. Bydd angen i'r allbynnau digidol y byddwch yn eu creu fodloni ein gofynion digidol, a bod ar gael, yn hygyrch ac yn agored. Gallwch ddarllen mwy am ein gofynion digidol ar ein gwefan.

Gallai eich allbynnau digidol gynnwys:

- ffotograffau, recordiadau sain a fideo

- dogfennau electronig a chronfeydd data
- cynnwys gwefannau ac apiau
- meddalwedd a chod
- modelau 3D
- Na fyddwn, nid ydym yn creu unrhyw waith digidol [Blwch ticio]
- Byddwn, rydym yn creu gwaith digidol [Blwch ticio]

Os byddwn: Dywedwch wrthym sut y byddwch yn sicrhau bod y gwaith digidol hwn yn bodloni ein gofynion digidol.

[Maes testun – 500 gair]

**Diwedd y cwestiynau ychwanegol ar gyfer prosiectau sy'n gwneud gwaith cyfalaf.**

### A fyddwch yn caffael unrhyw adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth fel rhan o'ch prosiect?

Nid yw caffael tir ac adeiladau'n gost gymwys ar gyfer Cronfa Rhwydweithiau Natur. Ticiwch Na fyddwn.

- Na fyddwn, nid ydym yn caffael unrhyw adeiladau, tir neu eitemau treftadaeth [Blwch ticio]

### Mae ein hariannu'n ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022. Dywedwch wrthym a ydych o'r farn bod yr ariannu y gwnaed cais amdano'n Gymhorthdal o dan y Ddeddf ac am unrhyw gyngor yr ydych efallai wedi'i geisio.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae'n bwysig cofio bod ein grant yn dod o arian cyhoeddus ac y gall fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Gallwch ddysgu mwy am reoli cymhorthdal yn adran Gofynion cyfreithiol a pholisi arweiniad y rhaglen.

[Maes testun – 500 gair]

### Sut fyddwch chi'n cynnal buddion eich prosiect ac yn talu unrhyw gostau cysylltiedig?

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn rheoli buddion eich prosiect ar ôl i'r ariannu ddod i ben.

Er enghraifft:

- sut y byddwch yn rheoli ac yn monitro safle(oedd) y prosiect yn y dyfodol, er enghraifft a fyddwch yn parhau i gyflogi staff neu sut y byddwch yn cefnogi grwpiau gwirfoddol i helpu cynnal safle rydych wedi'i adfer.
- sut y byddwch yn ymdrin ag unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw a monitro'r safle(oedd) pan ddaw'r prosiect i ben

Ar gyfer prosiect Datblygu:

- Dywedwch wrthym pwy fydd yn gyfrifol am symud y prosiect ymlaen i'r cam cyflwyno. Beth fydd ei angen i wneud hyn?

[Maes testun – 500 gair]

## Ynghylch am yr angen am eich prosiect

## Pam fod angen i'ch prosiect ddigwydd?

Dywedwch wrthym pam fod angen i'ch prosiect ddigwydd, pam fod angen iddo ddigwydd nawr a pha gyfleoedd y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw.

Er enghraifft, dywedwch wrthym:

- sut mae eich prosiect yn cefnogi cyflwyno Rhaglen Rhwydweithiau Natur ehangach Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu at y Targedau 30x30
- sut mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar gamau blaenorol neu gyfredol a gymerwyd i leihau risgiau i'r dreftadaeth.
- sut rydych chi wedi defnyddio'r mapiau Rhwydweithiau Natur i lywio eich cynlluniau
- am unrhyw ariannu partneriaeth sydd ar gael i chi nawr na fydd ar gael yn y dyfodol
- beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn derbyn grant gennym ni
- pam fod eich prosiect yn bwysig i'ch cymuned leol a pham eu bod am i'r prosiect hwn ddigwydd
- a oes unrhyw rwystrau i bobl ymgysylltu â'r dreftadaeth a sut y bydd eich prosiect yn helpu dileu'r rhain

[Maes testun – 500 gair]

## A oes cymuned benodol y mae eich prosiect wedi ymrwymo i'w gwasanaethu? Dewiswch unrhyw un sy'n berthnasol.

Rydym yn defnyddio'r Safon Data Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiad i'n helpu deall pwy mae ein hariannu'n ei gyrraedd. Os ydych chi'n meddwl bod 75% neu fwy o'r bobl a allai gael eu cefnogi neu gael budd o'ch prosiect yn dod o un neu fwy o'r cymunedau penodol hyn, dywedwch wrthym pwy ydyn nhw.

Dewiswch o'r rhestr isod i adlewyrchu pwy fydd eich prosiect yn ei gefnogi. Dewiswch unrhyw a phob un sy'n berthnasol, neu dewiswch 'dim un o'r uchod' os nad yw hyn yn berthnasol i'ch prosiect.

Os ydych yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed fel rhan o'ch prosiect, bydd angen i chi fod wedi rhoi polisïau ac arferion diogelu ar waith. Dylech hefyd sicrhau bod lles staff y prosiect, cyfranogwyr ac ymwelwyr yn cael ei ystyried trwy gydol eich prosiect.

Dylech wneud addasiadau rhesymol i'r ffordd yr ydych yn cyflwyno'ch prosiect neu wasanaethau fel y gall pawb gymryd rhan.

- Cymunedau sy'n profi annhegwch, gwahaniaethu neu anghydraddoldeb ethnig neu hiliol [Blwch ticio]
- Cymunedau ffydd [Blwch ticio]
- Pobl sydd wedi mudo a/neu sydd â phrofiad o'r system fewnfudo [Blwch ticio]
- Pobl f/Fyddar, anabl, dall, â golwg rhannol a/neu niwrowahanol [Blwch ticio]
- Pobl h?n (65 oed a throsodd) [Blwch ticio]
- Pobl iau (o dan 25 oed) [Blwch ticio]
- Menywod a merched [Blwch ticio]
- Pobl LHDTC+ [Blwch ticio]
- Pobl sydd o dan anfantais addysgol neu economaidd [Blwch ticio]
- Grwpiau penodol nad ydynt eisoes wedi'u cynnwys [Blwch ticio]
- Dim un o'r uchod [Blwch ticio]

## Pwy arall ydych chi wedi cysylltu â nhw ynghylch ariannu eich prosiect?

Dywedwch wrthym am unrhyw ariannu arall:

- rydych wedi'i sicrhau i helpu tuag at gost eich prosiect
- rydych yn bwriadu gwneud cais amdano i gefnogi'r prosiect hwn
- y byddwch yn ei godi drwy godi arian neu gyfraniadau torfol

Dywedwch wrthym a ydych wedi codi unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod i'ch helpu i gyflwyno'ch prosiect.

Er y gallwn ariannu cost gyfan y prosiect, dylech esbonio pam na allwch godi unrhyw ariannu arall naill ai o'ch adnoddau eich hun neu o ffynonellau eraill.

[Maes testun – 500 gair]

# Ein hegwyddorion buddsoddi

Bydd ein pedair egwyddor fuddsoddi'n cyfeirio ein holl benderfyniadau gwneud grantiau o dan ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033

Ein hegwyddorion buddsoddi yw:

- achub treftadaeth
- diogelu'r amgylchedd
- cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad
- cynaladwyedd sefydliadol

Rydym wedi esbonio isod sut mae meini prawf y Gronfa Rhwydweithiau Natur yn gweddu i'r egwyddorion buddsoddi. Gallwch ganolbwyntio'n fwy ar rai egwyddorion buddsoddi nag eraill.

Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn achub treftadaeth.

Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn gwella cyflwr a chysylltedd y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig, hyd yn oed os bydd hyn yn digwydd yn y dyfodol.

Er enghraifft, disgrifiwch pa gamau penodol y byddwch yn eu cymryd i wella'r cyflwr drwy reoli'r cynefinoedd a'r rhywogaethau a pha effaith y bydd hyn yn ei chael dros gyfnod y prosiect ar y nodwedd ddynodedig.

Os nad yw eich prosiect yn digwydd yn uniongyrchol ar safle gwarchodedig, esboniwch sut y bydd eich prosiect yn gwella cysylltedd a chyflwr er mwyn ychwanegu gwerth at y rhwydwaith yn y tymor hir a chefnogi adeiladu cydnerthedd gan gynnwys cydnerthedd y cynefinoedd a'r rhywogaethau dynodedig.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gyfeirio at y Mapiau Rhwydweithiau Natur am dystiolaeth o sut y bydd lleoliad gweithgareddau y tu hwnt i safleoedd gwarchodedig yn datblygu cysylltedd.  Mae'r dolenni i hyn ar gael o dan 'Nodi safleoedd posibl ar gyfer cysylltedd' yn yr arweiniad ymgeisio.

[Maes testun – 500 gair]

## Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn diogelu'r amgylchedd.

Esboniwch sut y bydd y camau y byddwch yn eu cymryd yn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a/neu'n gwella'r gallu i addasu i'r argyfwng hinsawdd.

Gall hyn gynnwys:

- pa wasanaethau ecosystem y byddwch yn gweithio i'w gwarchod neu eu hadfer.

- sut y bydd eich gwaith yn cyfrannu at gydnerthedd ecosystemau ar raddfa'r dirwedd.

[Maes testun – 500 gair]

### Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn cynyddu cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad.

Mae'r gronfa hon yn cefnogi cyfranogiad gweithredol cymunedau mewn safleoedd gwarchodedig ac o'u cwmpas.

Dylai eich ateb esbonio sut y bydd eich proffil o ran staff, cynulleidfa neu wirfoddolwyr wedi newid drwy'r prosiect neu, os mai cais am gynllunio prosiect yw hwn, sut y byddai'n newid mewn prosiect yn y dyfodol. Gall hyn gynnwys:

- gwelliannau i hygyrchedd safle
- gweithio gyda phartneriaid neu sefydliadau eraill i gyrraedd cynulleidfaoedd sydd heb eu gwasanaethau'n ddigonol
- cefnogi unigolion newydd i gyrchu'r sector trwy swyddi, hyfforddiant a/neu brentisiaethau

[Maes testun – 500 gair]

### Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn gwella'ch cynaladwyedd sefydliadol.

Mae diogelu safleoedd yn dibynnu ar sefydliadau cryf, llywodraethu da a chynllunio prosiectau mewn ffordd gadarn. Felly, gall y Gronfa Rhwydweithiau Natur hefyd gefnogi datblygiad prosiect ac adeiladu gallu ar gyfer prosiectau adferiad byd natur yn y dyfodol. Gallai'r gwaith hwn gynnwys y canlynol (ond nid yw'n gyfyngedig iddynt):

- datblygu partneriaethau
- ymgynghori ac ymgysylltu â thirfeddianwyr/cymunedau
- arolygon ecolegol
- astudiaethau dichonoldeb
- dylunio cynlluniau
- datblygu sgiliau ar gyfer cyllid gwyrdd
- gwaith paratoadol arall ar gyfer prosiectau cyfalaf yn y dyfodol

Dylai eich ateb esbonio sut y bydd eich sefydliad yn datblygu ac yn cynnal sgiliau a gallu i sicrhau dyfodol hirdymor i safleoedd gwarchodedig yng Nghymru.

[Maes testun – 500 gair]

## Cyflwyno eich prosiect

### Pam mai eich sefydliad chi yw'r un gorau i gyflwyno'r prosiect hwn?

Dywedwch wrthym pam y dylai eich sefydliad chi'n benodol redeg y prosiect hwn.

Gall hyn gynnwys:

- unrhyw brofiad sydd gan eich sefydliad o redeg prosiectau tebyg
- gwybodaeth a sgiliau staff a/neu aelodau Bwrdd ac Ymddiriedolwyr
- capasiti eich sefydliad i gyflwyno'r prosiect ar yr un pryd â'ch gwaith arferol
- eich cysylltiadau â phrosiectau neu sefydliadau perthnasol eraill

[Maes testun – 500 gair]

## Sut fyddwch chi'n rheoli cyflwyniad eich prosiect?

Dywedwch wrthym sut y bydd eich prosiect yn cael ei reoli o ddydd i ddydd ac am y bobl a fydd yn ymwneud ag ef.

Dylai hyn gynnwys dweud wrthym:

- bwy fydd yn gwneud penderfyniadau, profiad y bobl sy'n cymryd rhan a'u rolau yn y prosiect
- am swyddi staff, prentisiaid, hyfforddeiaethau, neu unrhyw gyfleoedd cyflogedig eraill, y bydd eich prosiect yn eu creu
- am unrhyw gyfleoedd gwirfoddoli y bydd eich prosiect yn eu creu. Gwirfoddolwyr yw pobl sy'n rhoi o'u hamser am ddim i helpu cyflwyno eich prosiect
- os ydych yn symud aelod staff presennol i swydd sydd wedi'i chreu gan y prosiect hwn, neu'n ymestyn oriau aelod staff presennol i weithio ar y prosiect, dywedwch wrthym beth yw eu cymwysterau ar gyfer y rôl

Cofiwch, rhaid i chi hysbysebu pob swydd staff newydd yn agored, oni bai eich bod yn symud aelod staff presennol i swydd sydd wedi'i chreu gan y prosiect hwn neu'n ymestyn oriau aelod staff presennol i weithio ar y prosiect.

[Maes testun – 500 gair]

## A fydd eich prosiect yn cael ei gyflwyno gan bartneriaeth?

Dywedwch wrthym pwy yw eich partneriaid, natur eich partneriaethau a sut y byddwch yn gweithio ar y cyd.

Hoffem weld eich cytundeb partneriaeth os ydych yn gweithio gydag unrhyw sefydliadau eraill i gyflawni eich prosiect. Os oes gennych un, gallwch ei uwchlwytho yma.

Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid a dylai pob parti ei llofnodi. Dylai'r cytundeb hwn adlewyrchu anghenion eich prosiect ac mae'n bosibl y bydd angen i chi geisio cyngor annibynnol.

Does dim angen i chi ddarparu cytundeb partneriaeth oni bai bod sefydliad arall yn cyflwyno rhan sylweddol o'ch prosiect.

- Na fydd, ni chaiff y prosiect ei gyflwyno gan bartneriaeth [Blwch ticio]
- Bydd, caiff y prosiect ei gyflwyno gan bartneriaeth [Blwch ticio]

Os bydd: Dywedwch wrthym am eich partneriaid

[Maes testun – 500 gair]

Uwchlwythwch gytundeb partneriaeth.

[Dewis ffeil]

## Sut fyddwch chi'n gwerthuso eich prosiect?

Rhaid i chi werthuso eich prosiect a darparu adroddiad gwerthuso ysgrifenedig ar ôl i chi orffen eich prosiect.

Bydd angen i chi greu cynllun gwerthuso ar ddechrau eich prosiect. Braslun yw hwn o sut y byddwch yn cywain data i fesur, dadansoddi a deall yr hyn rydych chi'n ei wneud ac yn y pen draw i ddarparu tystiolaeth o'r canlyniadau y mae eich prosiect wedi'u cyflawni.

Dywedwch wrthym pwy fydd yn gwneud eich gwerthusiad. Gallai hyn fod yn staff yn eich sefydliad neu'n unigolyn neu sefydliad y bydd angen i chi ei gyflogi. Dylech ddarparu brîff ar gyfer y gwaith hwn fel dogfen ategol.

Rydym yn disgwyl gweld costau ar gyfer eich gwerthusiad wedi'u cynnwys yn eich costau prosiect.

[Maes testun – 500 gair]

### A fydd unrhyw ran o'ch prosiect yn digwydd yng Nghymru?

Rhaid i bob prosiect Rhwydweithiau Natur ddigwydd yng Nghymru. Ticiwch Bydd.

- Na fydd, nid yw unrhyw ran o'n prosiect yn digwydd yng Nghymru [Blwch ticio]
- Bydd, mae ein prosiect cyfan neu ran ohono'n digwydd yng Nghymru [Blwch ticio]

Rhaid i chi gynnwys y Gymraeg ym mhob agwedd o'ch gwaith.

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn defnyddio'r Gymraeg yn eich prosiect, a chofiwch sicrhau bod yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys yng nghyllideb a chynllun eich prosiect. Dylech gynnwys cyllideb ar gyfer cyfieithu o dan y categori costau 'Arall' yn yr adran costau prosiect.

[Maes testun – 500 gair]

### Dywedwch wrthym am unrhyw heriau allweddol neu risgiau posibl i'ch prosiect yr ydych wedi'u nodi.

Rydym yn gwybod bod pob prosiect yn wynebu heriau a risgiau. Dywedwch wrthym am yr heriau neu'r risgiau yr ydych wedi'u nodi, a allai effeithio ar eich prosiect.

Dylai eich cofrestr risgiau ddarparu gwybodaeth fanylach am yr heriau neu'r risgiau hyn a sut y byddwch yn eu rheoli.

Byddem yn disgwyl gweld cronfa wrth gefn yn eich costau prosiect i helpu rheoli'r heriau neu'r risgiau a nodwyd.

[Maes testun – 500 gair]

## Costau’r prosiect

### Dywedwch wrthym faint y bydd yn ei gostio i gyflwyno eich prosiect.

Dylech gynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'ch prosiect. **Rhaid** i chi ddweud wrthym pa gostau sy'n gyfalaf a pha rai sy'n refeniw. Cyfeiriwch at yr arweiniad ymgeisio am fanylion yr hyn yr ystyriwn i fod yn gostau cyfalaf a refeniw.

Defnyddiwch y templed isod i amlinellu eich costau fel refeniw neu gyfalaf, yn ogystal â manylu ar y costau hyn yma.

Templed costau prosiect

Bydd angen i chi ychwanegu cost newydd ar gyfer pob cost prosiect wahanol.

Er enghraifft, os ydych yn recriwtio tri aelod staff newydd i reoli'ch prosiect, bydd angen i chi ychwanegu tair cost staff newydd wahanol. Bydd angen i bob cost fod â'i disgrifiad a'i swm ei hun.

**TAW**

- Os ydych yn hawlio TAW ar unrhyw un o'ch costau prosiect, cofiwch sicrhau'n gyntaf na ellir ei hadennill trwy ffynonellau eraill. Ni allwn dalu costau TAW y gallwch ei adennill.
- Os bydd eich statws TAW yn newid yn ystod eich prosiect, byddwn yn lleihau ein cyfraniad at y costau os ydych wedi llwyddo i hawlio'r TAW yn ôl.
- Math o gost [cwymplen]

**Staff newydd**

- Dylech gynnwys costau ar gyfer staff a fydd yn gweithio ar eich prosiect. Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys unrhyw argostau perthnasol hefyd.
- Gallai hyn gynnwys costau contractau cyfnod penodol newydd, secondiadau, prentisiaethau a chost staff llawrydd i helpu cyflwyno eich prosiect. Peidiwch â chynnwys costau talu hyfforddeion yma.
- Mewn rhai amgylchiadau gall fod yn briodol cynnwys costau ar gyfer absenoldeb mamolaeth a/neu daliadau diswyddo. Rydym yn disgwyl i'ch sefydliad lynu wrth arfer adnoddau dynol da a dilyn yr holl gyfreithiau perthnasol, gan gynnwys talu o leiaf y Cyflog Byw Cenedlaethol i holl aelodau staff y prosiect.

**Ffioedd proffesiynol**

- Dylech gynnwys costau ar gyfer unrhyw wasanaethau y bydd angen i chi dalu amdanynt yn ystod eich prosiect. Er enghraifft, ecolegydd neu bensaer tirwedd.
- Dylai ffioedd gydweddu â chanllawiau proffesiynol a bod yn seiliedig ar ddyfynbrisiau gan y gweithiwr proffesiynol neu gorff proffesiynol yr ydych yn ei dalu.

**Recriwtio**

- Gall hyn gynnwys cost hysbysebu ac unrhyw dreuliau teithio ar gyfer cyfweliadau.
- Rydym yn disgwyl i'ch sefydliad lynu wrth arfer adnoddau dynol da a dilyn yr holl gyfreithiau perthnasol.

**Cost prynu eitemau treftadaeth**

- Peidiwch â defnyddio'r pennawd cost hwn. Nid yw caffael tir yn gymwys o dan y Gronfa Rhwydweithiau Natur.

**Gwaith atgyweirio a chadwraeth**

- Mae hyn yn cynnwys costau gwaith atgyweirio, adfer neu warchod eitem neu safle treftadaeth.

**Costau digwyddiadau**

- Costau ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau, er enghraifft, bwyd a diod neu hurio ystafell.

**Allbynnau digidol**

- Costau ar gyfer creu unrhyw waith digidol a bodloni ein gofynion digidol.

**Offer a deunyddiau, gan gynnwys deunyddiau dysgu**

- Costau prynu offer a deunyddiau, er enghraifft deunyddiau ar gyfer creu taflenni a chyhoeddiadau.

**Hyfforddiant ar gyfer staff**

- Efallai y bydd angen hyfforddiant ar staff presennol a staff newydd i gyflawni'ch prosiect.

**Hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr**

- Efallai y bydd angen hyfforddiant ar wirfoddolwyr presennol a gwirfoddolwyr newydd i gyflawni'ch prosiect.

**Teithio ar gyfer staff**

- I helpu staff i deithio i safleoedd.
- Gallai hyn gynnwys costau defnyddio cludiant cyhoeddus, neu hurio beic neu gar.
- Rydym yn annog cludiant cynaliadwy lle bo modd (fel defnyddio cerbyd trydan yn hytrach na cherbyd disel), ond yn deall efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl.
- Dylai costau teithio mewn car fod yn seiliedig ar 45c y filltir.

**Teithio ar gyfer gwirfoddolwyr**

- I helpu gwirfoddolwyr i deithio i safleoedd. Gall cynnig talu am deithio helpu dileu rhwystrau a allai atal pobl rhag gwirfoddoli.
- Gallai hyn gynnwys costau defnyddio cludiant cyhoeddus, neu hurio beic neu gar.
- Rydym yn annog cludiant cynaliadwy lle bo modd (fel defnyddio cerbyd trydan yn hytrach na cherbyd disel), ond yn deall efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl. Mewn rhai amgylchiadau efallai y byddai'n fwy priodol hurio bws mini os yw nifer fawr o wirfoddolwyr yn teithio i'r un lle.
- Dylai costau teithio mewn car fod yn seiliedig ar 45c y filltir.

**Treuliau ar gyfer staff**

- Dylech gynnwys costau ar gyfer treuliau staff. Dylech dalu am unrhyw gostau staff a ysgwyddir o ganlyniad i gyflwyno'ch prosiect.
- Er enghraifft, gallai hyn gynnwys costau ar gyfer lluniaeth neu lety.

**Treuliau ar gyfer gwirfoddolwyr**

- Dylech gynnwys costau ar gyfer treuliau gwirfoddolwyr. Gall cynnig talu am dreuliau helpu dileu rhwystrau a allai atal pobl rhag gwirfoddoli.
- Er enghraifft, gallai hyn gynnwys costau lluniaeth, gofalu am ddibynyddion a chostau gweithwyr cymorth.

Peidiwch â defnyddio'r math hwn o gost i dalu am amser gwirfoddolwyr. Cofiwch fod gwirfoddolwyr yn bobl sy'n rhoi o'u hamser am ddim, ac ni ddylech gynnwys costau i ad-dalu gwirfoddolwyr am unrhyw amser

y maent yn ei dreulio ar eich prosiect.

**Arall**

- Dylech gynnwys unrhyw gostau nad ydynt yn ffitio i unrhyw un o'r penawdau cost eraill. Cofiwch roi disgrifiad clir o beth yw'r costau hyn.
- Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys costau digonol ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg yma.
- Efallai y byddwch am gynnwys costau ar gyfer addasiadau rhesymol yma hefyd.

**Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo**

- Dylech gynnwys costau ar gyfer deunyddiau hyrwyddo sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch prosiect.
- Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys costau digonol ar gyfer cydnabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru hefyd.

**Gwerthuso**

- Mae'r pennawd cost hwn yn orfodol gan fod yn rhaid gwerthuso pob prosiect.
- Dylid cynnwys costau gwerthuso eich prosiect o'r cychwyn cyntaf. Efallai y byddwch am gyflogi unigolyn neu sefydliad i'ch cefnogi gyda hyn.
- Rydym yn argymell bod y costau'n gymesur â graddfa eich prosiect.

**Swm wrth gefn**

- Mae'r pennawd cost hwn yn orfodol. Mae swm wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i dalu am gostau annisgwyl sy'n angenrheidiol er mwyn cyflwyno eich prosiect.
- Byddem yn disgwyl i swm yr arian wrth gefn sydd wedi'i gynnwys helpu wrth reoli'r heriau neu'r risgiau a nodwyd gennych. Dylai hefyd adlewyrchu graddfa eich prosiect.
- Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys eich swm wrth gefn gofynnol yma yn unig ac nid o fewn penawdau cost eraill y cais.

**Gwaith adeiladu o'r newydd**

- Dylech gynnwys costau unrhyw waith adeiladu o'r newydd a allai ddigwydd o ganlyniad i'ch prosiect.

**Grantiau cymunedol**

- Gallwch gynnwys costau ar gyfer unrhyw daliadau i berchnogion trydydd parti, gan gynnwys perchnogion preifat, ar gyfer gweithgareddau a gwaith cyfalaf sy'n cyfrannu at gyflawni nodau cyffredinol eich prosiect.

**Adennill costau llawn**

- Mae adennill costau llawn yn fath o gost a ddefnyddir i dalu costau anuniongyrchol prosiect. Mae costau anuniongyrchol yn cynnwys gorbenion, neu gostau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect y mae eich sefydliad yn ei gyflwyno, ond sy'n hanfodol i redeg eich sefydliad.
- Os ydych yn sefydliad yn y sector gwirfoddol, gallwn dalu cyfran o orbenion eich sefydliad, y mae'n rhaid iddynt fod yn briodol i'r amser neu adnoddau a ddefnyddir ar gyfer eich prosiect. Wrth sector gwirfoddol rydym yn golygu sefydliadau sy'n annibynnol ar lywodraeth y mae gan eu llywodraethu, eu hariannu a'u hadnoddau ffocws gwirfoddol. Er enghraifft, gallai sefydliad yn y sector gwirfoddol:

- fod â Bwrdd Ymddiriedolwyr
- cael ei ariannu gan grantiau a rhoddion
- dibynnu ar wirfoddolwyr i gyflawni ei nodau
- Dylech gynnwys unrhyw gostau ar gyfer adennill costau llawn yma.

**Chwyddiant**

- Dylech gynnwys unrhyw gostau priodol a fydd yn darparu'n ddigonol am chwyddiant a ragfynegir. Dylech gyllidebu'n briodol ar gyfer chwyddiant yn seiliedig ar amserlen y prosiect, ynghyd â ffactorau eraill megis deunyddiau a ddefnyddir, gofynion o ran llafur a lleoliad.

Disgrifiad o'r gost [Maes testun – 50 gair]

Swm [Mewnbynnu rhif, 1 neu'n uwch]

Swm TAW [Mewnbynnu rhif, a all fod yn 0]

## A ydych yn derbyn unrhyw gyfraniadau arian parod i gefnogi eich prosiect?

Cyfraniadau arian parod yw cronfeydd eraill y disgwyliwch eu derbyn tuag at gost eich prosiect. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfraniad arian parod gan eich sefydliad eich hun.

- Nac ydym, nid ydym yn derbyn cyfraniadau arian parod [Blwch ticio]
- Ydym, rydym yn derbyn cyfraniadau arian parod [Blwch ticio]

Os ydym: Disgrifiad o'r cyfraniad arian parod [Maes testun]

Ydy'r cyfraniad hwn wedi'i sicrhau? [opsiynau]

Wrth sicrhau, rydym yn golygu arian parod yn eich cyfrif banc sydd wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer y prosiect hwn neu fod yr arian wedi cael ei gynnig yn ffurfiol.

- Ydy a gallwn ddarparu tystiolaeth [Blwch ticio]

Os ydy: Uwchlwythwch dystiolaeth. Gallai hwn fod yn llythyr yn cadarnhau'r cynnig neu'n gopi o gyfriflenni banc yn dangos yr arian yn eich cyfrif.

Uwchlwytho tystiolaeth [Dewis ffeiliau]

- Ydy, ond nid oes gennym dystiolaeth eto [Blwch ticio]
- Nac ydy [Blwch ticio]
- Ddim yn si?r [Blwch ticio]

Swm [Mewnbynnu rhif, 1 neu'n uwch]

## A ydych yn derbyn unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod i gefnogi eich prosiect?

Cyfraniadau nad ydynt yn arian parod yw pethau sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich prosiect nad oes angen i chi dalu amdanynt.

Er enghraifft, defnyddio ystafell mewn busnes lleol, neu ddeunyddiau a roddir gan gwmni lleol.

- Nac ydym, nid ydym yn derbyn cyfraniadau nad ydynt yn arian parod [Blwch ticio]

- Ydym, rydym yn derbyn cyfraniadau nad ydynt yn arian parod [Blwch ticio]

Os ydym: Disgrifiad o'r cyfraniad nad yw'n arian parod [Maes testun]

Gwerth amcangyfrifedig [Mewnbynnu rhif, 1 neu'n uwch]

Rhowch amcangyfrif o faint y byddai hyn wedi'i gostio os oedd angen i'ch prosiect dalu amdano.

# Dogfennau ategol

Bydd angen i chi ddarparu'r dogfennau ategol perthnasol a restrir isod fel rhan o'r broses ymgeisio. Cyfeirir at y rhestr gyflawn o'r arweiniad ymgeisio llawn isod. Lawrlwythwch a chwblhewch y templedi angenrheidiol yma.

**Pwysig:** Mae ein rhaglen Cronfa Rhwydweithiau Natur yn defnyddio ein ffurflen gais safonol, a bydd angen i chi uwchlwytho rhai o'ch dogfennau ategol o dan yr adran 'Tystiolaeth o gefnogaeth' a ddisgrifir isod. Gallwch uwchlwytho hyd at chwe dogfen o dan yr adran hon. Sicrhewch eich bod yn defnyddio enwau ffeiliau sydd wedi'u labelu'n glir.

## Cyfrifon

Uwchlwythwch gyfrifon eich sefydliad.

Rhaid i chi ddarparu eich cyfrifon diweddaraf sydd wedi'u harchwilio neu eu dilysu gan gyfrifydd.

Mae angen i gyfrifon fod:

- yn **enw cyfreithiol** eich sefydliad
- **â dyddiad arnynt**
- â **llofnod mewn llawysgrifen**. Nid yw hyn yn cynnwys llofnodion digidol
- Dylid cynnwys **teitl** y sawl sy'n eu llofnodi. Rhaid i'r person hwn fod yn gyfarwyddwr, ymddiriedolwr, cyfrifydd, neu berson uwch arall yn eich sefydliad.

Os yw cyfrifon eich sefydliad yn h?n na 18 mis, rhaid hefyd i chi ddarparu tri mis o'ch cyfriflenni banc diweddaraf. Dylai hyn fod y tri mis cyn y dyddiad yr ydych yn cyflwyno'ch cais.

Os sefydlwyd eich sefydliad lai na 14 mis yn ôl ac nid oes gennych set o gyfrifon wedi'u harchwilio, rhaid i chi ddarparu eich tair cyfriflen banc ddiwethaf, neu lythyr gan eich banc yn cadarnhau bod eich sefydliad wedi agor cyfrif.

Nid oes angen i ni weld eich cyfrifon os ydych yn sefydliad cyhoeddus, er enghraifft awdurdod lleol neu brifysgol.

Uwchlwytho eich cyfrifon [Dewis ffeil]

## Cynllun prosiect a chofrestr risgiau

Uwchlwythwch eich cynllun prosiect a'ch cofrestr risgiau.

Rhaid i bob prosiect gyflwyno cynllun prosiect a chofrestr risgiau. **Rhaid** i chi ddefnyddio templed cynllun prosiect Rhwydweithiau Natur.

Mae'r templed hwn hefyd yn cynnwys tabiau i chi ddweud wrthym am eich cynllun ymgysylltu ac unrhyw ganiatadau sydd heb eu sicrhau eto.

Uwchlwytho eich cynllun prosiect a'ch cofrestr risgiau [Dewis ffeiliau]

## Disgrifiadau swydd

Uwchlwythwch ddisgrifiadau swydd ar gyfer unrhyw staff neu brentisiaid newydd.

Os ydych yn bwriadu recriwtio staff neu brentisiaid newydd i helpu cyflwyno eich prosiect, mae angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer pob swydd newydd. Os ydych yn symud aelod presennol o staff i rôl ar y prosiect, neu'n ymestyn ei oriau i gefnogi'r prosiect, mae angen i chi ddarparu disgrifiad swydd o hyd.

Dylai pob disgrifiad swydd gynnwys y cyflog a'r oriau gwaith arfaethedig.

Uwchlwytho unrhyw ddisgrifiadau swydd [Dewis ffeil]

## Briffiau

Uwchlwythwch friffiau ar gyfer unrhyw waith a gomisiynir.

Mae briffiau'n disgrifio unrhyw waith yr ydych yn bwriadu ei gomisiynu yn ystod eich prosiect.

Os ydych yn comisiynu gwaith, er enghraifft, gan artist neu ecolegydd, dylech ddarparu brîff. Dylai'r brîff ddisgrifio'r gwaith, faint o amser y bydd yn ei gymryd, a faint y bydd yn ei gostio.

Gallwch chi ddod o hyd i dempled o frîff ar ein gwefan.

Uwchlwytho unrhyw friffiau ar gyfer gwaith [Dewis ffeil]

## Adennill costau llawn

Uwchlwythwch gyfrifiadau ar gyfer adennill costau llawn

Os ydych wedi cynnwys adennill costau llawn fel pennawd cost yng nghostau eich prosiect, rhaid i chi ddarparu dogfen sy'n dangos sut rydych wedi cyfrifo hyn.

Dylai costau fod yn gymesur â'r amser neu'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer eich prosiect. Gallwn hefyd dalu cyfran o gost aelod staff presennol, ar yr amod nad yw'n gweithio'n gyfan gwbl ar y prosiect a ariennir mewn swydd newydd.

Uwchlwytho eich cyfrifiad adennill costau llawn [Dewis ffeil]

## Lluniau

Gofynnir i chi ddarparu:

- map yn dangos lleoliad y safle ar raddfa ranbarthol
- o leiaf un map yn dangos lleoliadau gwaith cyfalaf, gyda safleoedd/nodweddion gwarchodedig wedi'u labelu. ShapeFile, Tab File neu KML yn dangos safle(oedd) eich prosiect fel polygonau (gorfodol ar gyfer **prosiectau cyfalaf yn unig**)

- Nid oes angen Delweddau eraill o'r safle.

[Dewis ffeil]

### Tystiolaeth o gefnogaeth

Defnyddiwch yr adran hon i uwchlwytho unrhyw ddogfennau ategol ychwanegol sy'n benodol i Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5). Ymysg y dogfennau gorfodol (sy'n berthnasol i swm eich cais am grant) y dylech eu huwchlwytho yma mae:

- templed costau (defnyddiwch ein templed costau prosiect sydd ar gael yma a **rhaid** i chi wahanu'r costau i Gyfalaf a Refeniw)
- dogfen yn amlinellu **strwythur rheoli eich prosiect**, er mwyn i ni wybod pwy fydd yn gwneud penderfyniadau a sut y byddwch chi'n rheoli newid yn ystod eich prosiect (**gorfodol** ar gyfer ceisiadau grant dros £250,000 yn unig)
- dogfen yn amlinellu'r **prif risgiau** sy'n wynebu'r prosiect ar ôl iddo gael ei gwblhau a sut y byddant yn cael eu rheoli (**gorfodol** ar gyfer ceisiadau grant dros £250,000 yn unig)
- tystiolaeth o ddogfennau cefnogi gan sefydliadau neu unigolion eraill sydd wedi ymrwymo i'ch helpu i gyflwyno eich prosiect neu sy'n allweddol i lwyddiant eich prosiect (dewisol)

Nid oes angen i ni weld datganiadau cyffredinol o gefnogaeth i'ch prosiect.

Uwchlwytho unrhyw dystiolaeth o gefnogaeth [Dewis ffeil]

# Gwirio eich atebion

Caiff crynodeb o'ch holl atebion ei ddangos i chi.

Bydd gennych yr opsiwn hefyd i fynd yn ôl a newid ateb os oes angen.

### Cadarnhau'r datganiad

**Gofynnir i chi ddarllen ein datganiad a chytuno iddo.**

Gan eich bod chi nawr yn hapus gyda'ch cais, rydych yn barod i wneud cais am ariannu.

Rydym yn cynnal ymchwil defnyddwyr ansoddol i'n helpu datblygu ein cynhyrchion a'n gwasanaethau. Gallai hyn amrywio o arolwg 20 munud i gyfweliad 2 awr.

Ticiwch y blwch hwn os hoffech gymryd rhan yn ein hymchwil, neu i gael mwy o wybodaeth. [Blwch ticio]

Efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi o bryd i'w gilydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am waith Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Ticiwch y blwch os hoffech gael eich hysbysu am ein gwaith [Blwch ticio]

Rwyf wedi darllen y datganiad ac yn cytuno iddo. [Blwch ticio]

**Datganiad**

**a) Diogelu Data**

Rydym yn ymrwymedig i fod mor agored a thryloyw â phosibl. Mae hyn yn cynnwys bod yn glir yngl?n â sut rydym yn asesu ac yn gwneud penderfyniadau ar ein grantiau a sut y byddwn yn defnyddio eich ffurflen gais a'r dogfennau eraill rydych yn eu rhoi i ni. Rydym yn dilyn yr holl gyfreithiau a rheoliadau diogelu data sy'n berthnasol ac mewn grym o bryd i'w gilydd (y 'ddeddfwriaeth Diogelu Data'). Fel y diffinnir gan y ddeddfwriaeth Diogelu Data mae Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (sy'n gweinyddu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol) yn rheolydd data. Mae ein Polisi Preifatrwydd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys gwybodaeth gyswllt ein Swyddog Diogelu Data. Gellir dod o hyd iddo ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Fel rhan o'r broses ymgeisio byddwn yn casglu eich enw a'ch swydd yn y sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli yn ogystal ag unrhyw wybodaeth bersonol ychwanegol rydych yn ei darparu amdanoch chi eich hun neu am bobl eraill sy'n ymwneud â'ch prosiect. Efallai y byddwn ni'n rhannu'r wybodaeth hon gydag un o'r ymgynghorwyr ar ein Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi os byddant yn cael eu penodi i roi cefnogaeth i chi ar eich prosiect. Nid ydym yn trosglwyddo eich data i unrhyw drydydd partïon sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r UE.

Efallai y byddwn yn defnyddio'ch ffurflen gais a dogfennau eraill a roddwch i ni i:

- Benderfynu a fyddwn ni'n rhoi grant i chi.
- Darparu copïau i unigolion neu sefydliadau eraill sy'n helpu ni i asesu, monitro a gwerthuso grantiau.
- Rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda ni sydd â diddordeb dilys mewn ceisiadau a grantiau'r Loteri Genedlaethol neu raglenni ariannu penodol.
- Cadw mewn cronfa ddata a defnyddio at ddibenion ystadegol.
- Os byddwn ni'n cynnig grant i chi, byddwn ni'n cyhoeddi gwybodaeth amdanoch chi sy'n ymwneud â'r gweithgaredd rydym wedi'i ariannu, gan gynnwys swm y grant a'r gweithgaredd yr oedd i dalu amdano. Efallai y bydd yr wybodaeth hon yn ymddangos yn ein datganiadau i'r wasg, yn ein cyhoeddiadau printiedig ac ar-lein, ac yng nghyhoeddiadau neu ar wefannau adrannau llywodraeth perthnasol ac unrhyw sefydliadau partner sydd wedi ariannu'r gweithgaredd gyda ni.
- Os byddwn yn cynnig grant i chi, byddwch yn cefnogi ein gwaith o ddangos gwerth treftadaeth drwy gyfrannu (pan ofynnir i chi) at weithgareddau cyhoeddusrwydd yn ystod y cyfnod y byddwn yn darparu ariannu ar ei gyfer a chymryd rhan mewn gweithgareddau i rannu dysgu, y byddwn o bosibl yn cysylltu grantïon eraill â chi i wneud hynny.

**b) Rhyddid Gwybodaeth**

Fel sefydliad cyhoeddus rydym yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 sy'n rhoi hawl mynediad i'r cyhoedd i'r wybodaeth a ddaliwn, oni bai bod unrhyw eithriadau'n berthnasol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth gofnodedig a ddarparwyd i ni gan ein hymgeiswyr a grantïon.

Pan fyddwch yn cwblhau'r Datganiad ar ddiwedd y ffurflen gais, rydych yn cadarnhau nad oes gennych chi unrhyw wrthwynebiad i ni ryddhau'r ffurflen gais ac unrhyw wybodaeth arall a ddarparwch i ni i unrhyw un sy'n gofyn am weld nhw ar ôl i'ch cais gwblhau'r broses asesu. Os oes unrhyw wybodaeth nad ydych eisiau iddi fod ar gael yn gyhoeddus, gofynnir i chi esbonio eich rhesymau isod:

[Blwch testun]

Os byddwn yn derbyn cais am wybodaeth byddwn bob amser yn ymgynghori â chi'n gyntaf ac yn cymryd eich sylwadau i ystyriaeth, a byddwn yn cymhwyso'r eithriadau yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Fodd bynnag, ni sy'n penderfynu a fyddwn yn rhyddhau eich gwybodaeth neu'n ei dal yn ôl ac ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod yr ydych yn ei ddioddef o ganlyniad i ni gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

- Cadarnhaf fod y sefydliad sydd wedi'i enwi ar y cais hwn wedi rhoi'r awdurdod i mi gwblhau'r cais hwn ar ei ran.
- Cadarnhaf fod y gweithgaredd yn y cais yn dod o dan ddibenion a phwerau cyfreithiol y sefydliad.
- Cadarnhaf fod gan y sefydliad y p?er, os dyfernir grant iddo, i dderbyn y grant ac i'w dalu'n ôl.
- Cadarnhaf fod yr wybodaeth yn y cais hwn yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

### Cyflwyno'r cais

Mae eich cais wedi cael ei gyflwyno!

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

1. Byddwn yn anfon e-bost atoch cyn bo hir gyda rhif cyfeirnod prosiect.
2. Byddwn yn gwirio'ch cais a'r wybodaeth a ddarparwyd, i sicrhau bod gennym bopeth sydd ei angen arnom i asesu'ch cais. Bydd hyn yn cynnwys gwirio eich bod wedi darparu'r holl ddogfennau ategol priodol.
3. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am ragor o wybodaeth neu ddogfennau os bydd angen.
4. Byddwn yn gwirio eich cais ac unwaith y bydd gennym bopeth sydd ei angen arnom i asesu eich cais, byddwn yn rhoi ein penderfyniad i chi o fewn wyth wythnos.

# Cwestiynau ymgeisio: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5) £250,000 i £1miliwn

24/06/2025
24/06/2025
See all updates
Cwestiynau o'n ffurflen gais Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol £250,000 i £10m.

Cyn y gallwch wneud cais am grant dros £250,000, rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb i ddweud wrthym am eich syniad. Os ydych yn llwyddiannus, byddwn yn eich gwahodd i wneud cais. Ar ôl i chi gael eich gwahodd i wneud cais, bydd angen i chi gyflwyno cais erbyn hanner dydd ar 18 Tachwedd 2025

**Rhaid** i chi ddefnyddio'r canllaw hwn i'ch cynorthwyo wrth gwblhau ffurflen gais ar-lein am grant Rhwydweithiau Natur (Rownd 5) rhwng £250,000 ac £1m.

Mynnwch gip ar ein safbwynt a'n cyngor ar ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial (AI) yn eich cais am grant.

**Pwysig:** Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn defnyddio'r un ffurflenni ar draws amrywiaeth o raglenni yr ydym yn eu darparu. Wrth lenwi eich ffurflen gais, mae'n rhaid i chi ddilyn yr arweiniad isod am fod angen ateb rhai cwestiynau yn wahanol ar gyfer y rhaglen hon. **Ni ddylech** ddefnyddio'r eiconau cymorth sydd wedi'u hymwreiddio yn y ffurflen ar-lein gan nad ydynt yn gysylltiedig â'r ariannu hwn.

## Yngl?n â'r prosiect

## Teitl y prosiect.

Rhowch deitl neu enw i ni allu cyfeirio at eich prosiect.

Bydd hwn yn cael ei weld gan y sawl sy'n gwneud ein penderfyniadau, ac os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw bostiadau cyhoeddus a wneir am eich prosiect a'i gyhoeddi ar ein gwefan. Gwnewch yn si?r eich bod chi'n dewis teitl rydych chi'n hapus i amrywiaeth eang o bobl ei weld.

Rydym yn eich annog i gadw eich teitl yn fyr ac yn ddisgrifiadol.

Cofiwch gynnwys y rhagddodiad #NNF5 yn nheitl eich prosiect. Er enghraifft **#NNF5 Gwelliannau i warchodfa natur gweision y neidr**.

## Ai hwn yw'r cais cyntaf aton ni gan eich sefydliad?

[Dewiswch ydy neu nac ydy]

Os nac ydy:

Dywedwch wrthym beth yw rhif cyfeirnod eich cais diweddaraf. [Maes testun - 255 o nodau]

Dywedwch wrthym beth yw teitl prosiect eich cais diweddaraf. [Maes testun - 255 o nodau]

## Disgrifiwch yr hyn yr hoffai eich sefydliad ei gyflawni drwy eich prosiect.

Byddwn yn defnyddio eich ateb i ddweud wrth bobl am eich prosiect, gan gynnwys y cyrff sy'n gwneud y penderfyniadau, sef Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Dywedwch wrthym beth rydych chi'n gobeithio ei gyflawni a'r hyn yr ydych yn gobeithio fydd etifeddiaeth eich prosiect o ran cyfrannu at Rwydweithiau Ecolegol Cydnerth yng Nghymru.

Rydym yn cyhoeddi manylion ceisiadau a dyfarniadau grant ar ein gwefan ac mewn cronfeydd data cyhoeddus. Mae hyn yn gweddu i'n hymrwymiad i dryloywder ac egwyddorion data agored. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i darparu wrth ateb y cwestiwn hwn i ddisgrifio'ch prosiect.

[Maes testun – 150 gair]

## Dywedwch wrthym beth fyddwch yn ei wneud yn ystod eich prosiect.

Crynhowch yr hyn y mae eich prosiect yn bwriadu ei wneud a sut y bydd yn gwella cydnerthedd rhwydwaith Cymru o safleoedd tir neu forol gwarchodedig.

- Pa safle(oedd) gwarchodedig neu Rwydweithiau Ecolegol Blaenoriaeth y bydd eich prosiect yn cael effaith arnynt?
- Pa waith fyddwch chi'n ymgymryd ag ef ar gyfer cynefinoedd a/neu rywogaethau?
- Pwy fydd yn cymryd rhan a sut (staff, gwirfoddolwyr, y cyhoedd, cynulleidfaoedd targed)?

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Ble fydd eich prosiect yn digwydd?

- Stryd y prosiect [Maes testun - 255 o nodau]
- Dinas y prosiect [Maes testun - 255 o nodau]

- Sir y prosiect [Maes testun - 255 o nodau]
- Cod post y prosiect [Maes testun - 255 o nodau]

Os bydd eich prosiect yn digwydd ar draws lleoliadau gwahanol, defnyddiwch y cod post lle bydd y rhan fwyaf o'r prosiect yn digwydd.

Rhowch gyfeirnod grid chwe digid yr Arolwg Ordnans ar gyfer pwynt canol ardal eich prosiect (er enghraifft: SK510072). Os ydych yn gweithio ar nifer o safleoedd, gwahanwch bob cyfeirnod grid gyda hanner colon (er enghraifft: SK510072; SX163777; TQ317842).

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Esboniwch ba anghenion a chyfleoedd y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw.

Beth yw anghenion y safle(oedd) rydych wedi'u nodi a sut fydd eich prosiect yn mynd i'r afael â'r anghenion hyn?

Sut mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar gamau blaenorol neu gyfredol a gymerwyd i leihau risgiau i'r dreftadaeth?

Sut rydych chi wedi defnyddio'r mapiau Rhwydweithiau Natur i lywio eich cynlluniau?

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Pam fod angen i'ch prosiect chi ddigwydd nawr?

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Pwy arall ydych chi wedi cysylltu â nhw ynghylch ariannu eich prosiect?

Nid oes gofyniad gorfodol am gyfraniadau arian parod at brosiectau Rhwydweithiau Natur (rownd pump). Fodd bynnag, gall unrhyw gyfraniadau arian parod y byddwch yn eu darparu ychwanegu at effaith a gwerth am arian eich prosiect, a fydd yn cael eu hystyried yn y cam asesu.  Dywedwch wrthym am unrhyw ariannu:

- rydych wedi'i sicrhau i helpu tuag at gost eich prosiect
- rydych yn bwriadu gwneud cais amdano i gefnogi'r prosiect hwn
- y byddwch yn ei godi drwy godi arian neu gyfraniadau torfol

Dywedwch wrthym a ydych wedi codi unrhyw gyfraniadau nad ydynt yn arian parod i'ch helpu i gyflwyno eich prosiect.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Dywedwch wrthym ba gyngor rydych wedi'i dderbyn wrth gynllunio eich prosiect a chan bwy.

Os ydych wedi siarad ag unrhyw un yng Nghronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am eich prosiect, dywedwch wrthym am y cyngor a gawsoch a sut rydych wedi defnyddio'r cyngor hwnnw i ddatblygu eich prosiect.

Dywedwch wrthym a ydych wedi derbyn unrhyw gyngor arbenigol am eich prosiect gan unrhyw un arall. Gallai hyn fod yn arbenigwyr ar y dreftadaeth y mae eich prosiect yn canolbwyntio arni neu sefydliadau eraill a fydd yn eich cefnogi i gyflwyno eich prosiect.

Gallai hyn gynnwys:

- unrhyw gyngor ar gynigion prosiect, fel gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu ecolegwyr
- unrhyw waith ymgynghori rydych wedi'i wneud gyda'ch cymuned leol a'r rhai a fydd yn ymwneud â'ch prosiect, fel tirfeddianwyr lleol
- unrhyw gyngor cyn-ymgeisio ar faterion cynllunio neu ganiatadau, er enghraifft gan eich awdurdod lleol neu Cyfoeth Naturiol Cymru
- cyngor ar sut i ymdrin â lles y cyfranogwyr yn eich prosiect, er enghraifft gan elusen neu gr?p lleol a all ddarparu cymorth sy'n berthnasol i'w profiad o lygad y ffynnon

[Maes testun – 5,000 o nodau]

### A fydd eich prosiect yn cael ei gyflwyno gan bartneriaeth?

[Dewiswch ydy neu nac ydy]

Os ydy: Pwy yw eich partneriaid?

Rhowch enw cyswllt o bob sefydliad.

Dywedwch wrthym pwy yw eich partneriaid, natur eich partneriaethau a sut y byddwch yn gweithio ar y cyd.

Mae angen i ni weld eich cytundeb partneriaeth os ydych yn gweithio gydag unrhyw sefydliadau eraill i gyflawni eich prosiect. Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r holl bartneriaid a dylai pob parti ei llofnodi. Dylai'r cytundeb hwn adlewyrchu anghenion eich prosiect ac mae'n bosibl y bydd angen i chi geisio cyngor annibynnol.

Does dim angen i chi ddarparu cytundeb partneriaeth oni bai bod unrhyw sefydliadau eraill yn cyflwyno rhan sylweddol o'ch prosiect.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

### A fydd unrhyw ran o'ch prosiect yn digwydd yng Nghymru?

Rhaid i bob prosiect Rhwydweithiau Natur ddigwydd yng Nghymru. Ticiwch Bydd.

- Os bydd: Dywedwch wrthym sut y caiff y Gymraeg ei defnyddio yn eich prosiect.

Rhaid i chi gynnwys y Gymraeg ym mhob agwedd o'ch gwaith.

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn defnyddio'r Gymraeg yn eich prosiect, a chofiwch sicrhau bod yr wybodaeth hon wedi'i chynnwys yng nghyllideb a chynllun eich prosiect. Dylech gynnwys cyllideb ar gyfer cyfieithu o dan y categori costau 'Arall' yn yr adran costau prosiect.

[Maes testun – 500 gair]

# Yngl?n â'r dreftadaeth

### Dywedwch wrthym am y dreftadaeth yn eich prosiect a pham mae'n bwysig i'ch sefydliad a'ch cymuned.

Ar gyfer y rhaglen hon, mae treftadaeth yn cyfeirio at y safle(oedd) neu'r rhywogaethau y bydd y prosiect yn gweithio arnynt. Dywedwch wrthym:

- beth yw enw(au) y safle(oedd)
- a oes unrhyw gydnabyddiaeth swyddogol neu ddynodiadau ffurfiol, er enghraifft, efallai bod safle yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- pa gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys a'u cyflwr presennol
- sut mae'r safle(oedd) neu'r rhywogaeth yn gysylltiedig â rhwydwaith Cymru o safleoedd tir a morol gwarchodedig

Peidiwch â defnyddio'r adran hon i ddweud wrthym am eich prosiect, neu beth fydd yn digwydd yn ystod eich prosiect. Byddwn yn gofyn i chi am hyn yn nes ymlaen yn y cais.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## A ystyrir bod y dreftadaeth mewn perygl?

[Dewiswch ydy neu nac ydy]

Os ydy: Esboniwch pam a sut rydych chi'n ystyried bod y dreftadaeth mewn perygl.

Esboniwch pam fod y dreftadaeth o dan fygythiad, a pha gamau sydd wedi'u cymryd (os o gwbl) i isafu'r risg.

Er enghraifft, efallai ei fod mewn perygl o gael ei cholli trwy ddifrod ffisegol neu esgeulustod, neu ddiffygion ariannol. Gall mynediad y cyhoedd i'r dreftadaeth hefyd fod mewn perygl o gael ei golli.

Dywedwch wrthym a yw'r dirwedd, cynefin neu rywogaeth mewn perygl ac ym mha ffordd (er enghraifft, wedi'i nodi fel blaenoriaeth mewn Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth).

Dywedwch wrthym:

- sut mae'r dreftadaeth yn cael ei rheoli ar hyn o bryd a chan bwy
- sut mae pobl yn ymgysylltu â'r dreftadaeth ar hyn o bryd

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## A fyddwch yn ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf fel rhan o'ch prosiect?

[Dewiswch ydy neu nac ydy]

Os ydy: Rhowch fanylion.

Ceir manylion am yr hyn a ystyriwn yn waith cyfalaf yn yr arweiniad ymgeisio.

- Dywedwch wrthym a fydd unrhyw waith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect, hyd yn oed os yw'n rhan fach o'ch prosiect cyffredinol. Rhowch ddadansoddiad o'r gwaith yr ydych yn bwriadu ei wneud.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Os ydych yn ymgymryd ag unrhyw waith cyfalaf (gan gynnwys atgyweirio neu adnewyddu) ar dir, adeiladau neu eitemau treftadaeth, dywedwch wrthym bwy sy'n berchen arno.

- eich sefydliad
- partner yn y prosiect
- nid y naill na'r llall

- Dd/B

**Rhowch fanylion perchennog eich gwaith cyfalaf.**

Os bydd gwaith cyfalaf yn rhan o'ch prosiect, bydd angen i chi ddweud wrthym pwy sy'n berchen ar y dreftadaeth. Os oes gennych nhw, mae angen i ni weld unrhyw ddogfennau perchnogaeth. Gallwch uwchlwytho'r rhain yn nes ymlaen yn y cais.

Os mai eich sefydliad chi sy'n berchen ar y dreftadaeth, dywedwch wrthym:

- a oes gan eich sefydliad rydd-ddaliad ar yr adeilad neu dir, neu a yw'n berchen yn gyfan gwbl ar yr eitemau treftadaeth
- a oes gan eich sefydliad les ar yr adeilad neu dir a faint o flynyddoedd sy'n weddill ar y les
- a oes gan eich sefydliad, neu a yw'n bwriadu cymryd, morgais neu fenthyciadau eraill sydd wedi'u sicrhau ar yr adeilad neu dir, neu eitem treftadaeth. Os oes, rhowch fanylion y benthyciwr a maint y morgais neu fenthyciad i ni. Os oes gennych un, uwchlwythwch ddogfen o berchnogaeth.

Os yw sefydliad partner yn berchen ar y dreftadaeth, dywedwch wrthym:

- enw'r sefydliad partner
- a oes gan y partner yn y prosiect rydd-ddaliad ar yr adeilad neu dir, neu a yw'n berchen yn gyfan gwbl ar yr eitemau treftadaeth
- a oes gan y partner yn y prosiect les ar yr adeilad neu dir a faint o flynyddoedd sy'n weddill ar y les
- a oes gan y partner yn y prosiect, neu a yw'n bwriadu cymryd, morgais neu fenthyciadau eraill sydd wedi'u sicrhau ar yr adeilad neu dir, neu eitem treftadaeth
- os oes, rhowch fanylion y benthyciwr a maint y morgais neu fenthyciad i ni

Os nad ydych yn bodloni ein gofynion o ran perchnogaeth ar hyn o bryd, rhowch ddyddiad i ni pan fyddwch yn disgwyl y bydd modd gwneud hyn.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## A oes amodau, cyfyngiadau neu gyfamodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r ased treftadaeth a allai effeithio ar eich prosiect?

[Blwch ticio]

Rhowch fanylion.

Dywedwch wrthym os yw'r gofrestr teitl neu ddogfennau perchnogaeth eraill yn cynnwys unrhyw waharddiadau neu gyfyngiad ar ei defnydd neu berchnogaeth, neu a oes angen unrhyw ganiatadau ar gyfer unrhyw drafodion. Os oes, bydd angen i chi roi'r manylion llawn a thystiolaeth bod y rhain wedi'u bodloni.

Gallai hyn gynnwys:

- Cyfamod Cyfyngol sy'n cyfyngu ar y math o ddefnydd ar gyfer y tir neu'r eiddo
- cyfyngiad sy'n rhoi hawl i barti arall gael ei hysbysu am unrhyw drafodion neu nodi amodau y byddai angen eu datrys cyn gwerthu'r eiddo

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## A yw eich prosiect yn ymwneud â chaffael adeilad, tir neu eitemau treftadaeth?

Nid yw caffael tir yn gost gymwys ar gyfer cronfa Rhwydweithiau Natur. Ticiwch Nac ydy

# Rheoli eich prosiect

## A yw eich sefydliad wedi ymgymryd â phrosiect ar y raddfa hon yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf?

Rhowch fanylion.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Dywedwch wrthym pam mai hwn yw'r prosiect mwyaf priodol i'ch sefydliad ymgymryd ag ef ar hyn o bryd.

- Pa opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried?
- Beth fydd yr effaith ar eich sefydliad os na fydd y prosiect yn mynd yn ei flaen?
- Os ydych yn ymwneud â mwy nag un cais i'r Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5) fel ymgeisydd arweiniol neu bartner, rhowch rifau cyfeirnod y ceisiadau eraill a dywedwch wrthym pa brosiect sydd fwyaf critigol i'ch sefydliad ar hyn o bryd. Sut fyddech chi'n cyflwyno mwy nag un prosiect pe bai'n llwyddiannus?
- Os ydych yn cyflwyno prosiectau o dan rowndiau 2, 3 neu 4 Rhwydweithiau Natur ar hyn o bryd, esboniwch y berthynas (os o gwbl) rhwng y prosiectau. Sut fyddech chi'n cyflwyno mwy nag un prosiect pe bai'n llwyddiannus?

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## A oes angen i'ch sefydliad ymgymryd ag unrhyw weithgarwch adeiladu gallu er mwyn cyflwyno eich prosiect yn well?

Er enghraifft, oes angen i chi adolygu eich system gyllid neu adnoddau dynol, datblygu eich cynllun busnes neu adeiladu capasiti codi arian? Oes angen i chi ddod o hyd i unrhyw sgiliau neu arbenigedd ychwanegol?

Dywedwch wrthym a fyddwch yn gwneud newidiadau i lywodraethiant eich sefydliad er mwyn i chi gyflwyno eich prosiect yn fwy effeithiol.

Pa waith ydych chi wedi ymgymryd ag ef i gryfhau capasiti eich sefydliad i gyflwyno'r prosiect hwn?

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Dywedwch wrthym am unrhyw swyddi neu brentisiaethau y byddwch yn eu creu i gyflwyno eich prosiect.

Dywedwch wrthym am unrhyw swyddi a/neu brentisiaethau a fydd yn cael eu creu ac yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno eich prosiect. Dywedwch wrthym beth fydd eu prif rolau ac a ydynt yn swyddi amser llawn neu'n rhan-amser.

Os ydych yn symud aelod staff presennol i swydd sydd wedi'i chreu gan y prosiect hwn, neu'n ymestyn oriau aelod staff presennol, dywedwch wrthym beth yw ei gymwysterau ar gyfer y rôl a grëir gan y prosiect. Dywedwch wrthym sut y byddwch yn rheoli'r gwaith maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd, neu a yw hyn yn dod i ben.

Bydd angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer pob rôl a grëir ar gyfer eich prosiect fel dogfen ategol i'ch cais.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Pwy yw'r prif bobl sy'n gyfrifol am y gwaith yn ystod cam cyflwyno eich prosiect?

Rhowch wybodaeth fanwl am y tîm a fydd yn gweithio ar gam cyflwyno eich prosiect, gan gynnwys y person a fydd â chyfrifoldeb cyffredinol.

Dywedwch wrthym a fydd angen cymorth ychwanegol arnoch gan ymgynghorwyr neu staff newydd.

Esboniwch pwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a chymeradwyo newidiadau i'ch prosiect. Disgrifiwch y strwythur adrodd a pha mor aml y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal.

Disgrifiwch sut y byddwch yn dewis y gwasanaethau a'r nwyddau sydd eu hangen yn ystod eich cam cyflwyno.

Bydd angen hefyd i chi anfon y canlynol atom:

- strwythur rheoli'r prosiect
- briffiau ar gyfer unrhyw ymgynghorwyr

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Pa waith fyddwch chi'n ei wneud yn ystod cam cyflwyno eich prosiect?

Rhowch amlinelliad lefel uchel cryno o'r gwaith sydd i'w gyflawni ym mhob blwyddyn o gyflwyno'r prosiect. Dylai hyn gael ei ategu gan fanylion pellach yn y cynllun prosiect. Rydym wedi darparu templed cynllun prosiect ar gyfer Rhwydweithiau Natur.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Sut ydych chi'n bwriadu trefnu'r llif arian parod ar gyfer cam cyflwyno eich prosiect?

Gwneir taliadau grant mewn ôl-daliadau. Felly, mae angen i chi sicrhau y gallwch ddarparu llif arian parod yn llwyddiannus ar gyfer gwariant eich prosiect er mwyn osgoi trafferthion ariannol.

Bydd angen i chi ddarparu llif arian parod gyda'ch cais.

Dywedwch wrthym am unrhyw gronfeydd ariannol, incwm gan eich sefydliad neu ffynonellau ariannu eraill y byddwch yn eu cyrchu ar gyfer y llif arian parod wrth gyflwyno eich prosiect.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Dyddiad dechrau cyflwyno.

Ni ddylai eich dyddiad dechrau fod cyn 1 Ebrill 2026.

[Dewis dyddiad]

## Dyddiad gorffen cyflwyno.

Rhaid i chi gwblhau eich prosiect erbyn 31 Mawrth 2029, gan gynnwys yr holl adroddiadau a gwerthuso.

[Dewis dyddiad]

### A oes unrhyw derfynau amser penodol neu gerrig milltir allweddol a fydd yn cyfyngu ar amserlen eich prosiect?

Dywedwch wrthym am unrhyw ddyddiadau na ellir eu newid a fydd yn effeithio ar eich prosiect ac sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth.

Er enghraifft:

- unrhyw ganiatadau neu gydsyniadau statudol sydd eu hangen i ymgymryd â'ch prosiect a phryd yr ydych yn disgwyl derbyn y rhain
- cyfyngiadau tymhorol ar unrhyw waith ar gynefinoedd
- Dyddiadau pan ddaw cynigion cyllid partneriaeth i ben neu ddyddiadau olaf ar gyfer gwario cronfeydd wedi'u sicrhau
- digwyddiadau allanol sy'n allweddol i lwyddiant eich prosiect

[Maes testun – 5,000 o nodau]

# Ein hegwyddorion buddsoddi

Bydd ein pedair egwyddor fuddsoddi'n cyfeirio ein holl benderfyniadau gwneud grantiau o dan ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033

Ein hegwyddorion buddsoddi yw:

- achub treftadaeth
- diogelu'r amgylchedd
- cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad
- cynaladwyedd sefydliadol

Rydym wedi esbonio isod sut mae meini prawf y Gronfa Rhwydweithiau Natur yn gweddu i'r egwyddorion buddsoddi. Gallwch ganolbwyntio'n fwy ar rai egwyddorion buddsoddi nag eraill.

Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn achub treftadaeth.

Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn gwella cyflwr a chysylltedd y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig.

Er enghraifft, disgrifiwch pa gamau penodol y byddwch yn eu cymryd i wella rheolaeth y cynefinoedd a'r rhywogaethau a pha effaith y bydd hyn yn ei chael dros gyfnod y prosiect ar y nodwedd ddynodedig.

Os nad yw eich prosiect yn digwydd yn uniongyrchol ar safle gwarchodedig, esboniwch sut y bydd eich prosiect yn ychwanegu gwerth at y rhwydwaith yn y tymor hir ac yn cefnogi adeiladu cydnerthedd gan gynnwys cydnerthedd y cynefinoedd a'r rhywogaethau dynodedig.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gyfeirio at y Map Rhwydweithiau Natur am dystiolaeth o sut y bydd lleoliad gweithgareddau y tu hwnt i safleoedd gwarchodedig yn datblygu cysylltedd. Mae'r dolenni i hyn ar gael o dan 'Nodi safleoedd posibl ar gyfer cysylltedd' yn yr arweiniad ymgeisio.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

### Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn diogelu'r amgylchedd.

Esboniwch sut y bydd y camau y byddwch yn eu cymryd yn lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a/neu'n gwella'r gallu i addasu i'r argyfwng hinsawdd.

Gall hyn gynnwys:

- pa wasanaethau ecosystem y byddwch yn gweithio i'w gwarchod neu eu hadfer.
- sut y bydd eich gwaith yn cyfrannu at gydnerthedd ecosystemau ar raddfa'r dirwedd.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

### Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn cynyddu cynhwysiad, mynediad a chyfranogiad.

Mae'r gronfa hon yn cefnogi cyfranogiad gweithredol cymunedau mewn safleoedd gwarchodedig ac o'u cwmpas.

Dylai eich ateb esbonio sut y bydd proffil eich staff, cynulleidfa neu wirfoddolwyr wedi newid drwy gydol y prosiect. Gall hyn gynnwys:

- gwelliannau i hygyrchedd safle
- gweithio gyda phartneriaid neu sefydliadau eraill i gyrraedd cynulleidfaoedd sydd heb eu gwasanaethau'n ddigonol
- cefnogi unigolion newydd i gyrchu'r sector trwy swyddi, hyfforddiant a/neu brentisiaethau

[Maes testun – 5,000 o nodau]

### Esboniwch sut y bydd eich prosiect yn gwella'ch cynaladwyedd sefydliadol.

Dylai eich ateb esbonio sut y bydd eich sefydliad yn datblygu ac yn cynnal sgiliau a gallu i sicrhau dyfodol hirdymor i safleoedd gwarchodedig yng Nghymru.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

## Ar ôl i'r prosiect ddod i ben

### Sut fyddwch chi'n cynnal buddion eich prosiect ac yn talu unrhyw gostau cysylltiedig?

Dywedwch wrthym sut y byddwch yn rheoli buddion eich prosiect ar ôl i'r ariannu ddod i ben.

Er enghraifft:

- sut y byddwch yn rheoli ac yn monitro safleoedd y prosiect yn y dyfodol, er enghraifft a fyddwch yn parhau i gyflogi staff neu sut y byddwch yn cefnogi grwpiau gwirfoddol i helpu cynnal safle rydych wedi'i adfer
- sut y byddwch yn ymdrin ag unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw safleoedd y prosiect pan ddaw'r prosiect i ben

[Maes testun – 5,000 o nodau]

### Sut fyddwch yn gwerthuso llwyddiant eich prosiect ac yn rhannu'r dysgu?

Rhaid i chi werthuso eich prosiect a darparu adroddiad gwerthuso ysgrifenedig ar ôl i chi orffen eich prosiect.

Bydd angen i chi greu cynllun gwerthuso ar ddechrau eich prosiect. Braslun yw hwn o sut y byddwch yn cywain data i fesur, dadansoddi a deall yr hyn rydych chi'n ei wneud ac yn y pen draw i ddarparu tystiolaeth o'r canlyniadau y mae eich prosiect wedi'u cyflawni.

Dywedwch wrthym pwy fydd yn gwneud eich gwerthusiad. Gallai hyn fod yn staff yn eich sefydliad neu'n unigolyn neu sefydliad y bydd angen i chi ei gyflogi. Dylech ddarparu brîff ar gyfer y gwaith hwn fel dogfen ategol.

Rydym yn disgwyl gweld costau ar gyfer eich gwerthusiad wedi'u cynnwys yn eich costau prosiect.

[Maes testun – 5,000 o nodau]

# Costau ac incwm y prosiect

## Dywedwch wrthym am gostau ac incwm eich prosiect.

Dylech gynnwys yr holl gostau ac incwm sy'n gysylltiedig â'ch prosiect. **Rhaid** i chi ddweud wrthym pa gostau sy'n gyfalaf a pha rai sy'n refeniw. Cyfeiriwch at yr arweiniad ymgeisio am fanylion yr hyn yr ystyriwn i fod yn gostau cyfalaf a refeniw.

Defnyddiwch y templed isod i amlinellu eich costau fel refeniw neu gyfalaf, yn ogystal â manylu ar y costau hyn yma.

Templed costau prosiect

Mae yna wahanol benawdau ar gyfer pob math o gost y gallwch ddewis ohonynt, ac ar gyfer pob math o incwm y gallech ei dderbyn i gefnogi eich prosiect.

Dewiswch y math o incwm sy'n gweddu orau i bob ffynhonnell incwm y byddwch yn ei derbyn.

**Costau'r cam cyflwyno:**

Cyfeiriwch at yr arweiniad ymgeisio am enghreifftiau o gostau cymwys.

**Costau cyfalaf:**

#### Cost prynu eitemau treftadaeth

- Peidiwch â defnyddio'r pennawd cost hwn, nid yw caffael tir yn gymwys o dan y Gronfa Rhwydweithiau Natur.

#### Gwaith cychwynnol

- Mae hwn yn cynnwys unrhyw waith paratoi neu archeoleg cyn-adeiladu.

#### Gwaith atgyweirio a chadwraeth

- Mae hyn yn cynnwys costau gwaith atgyweirio, adfer neu warchod eitem neu safle treftadaeth.

#### Gwaith adeiladu o'r newydd

- Mae hyn ond yn gysylltiedig â gwaith adeiladu o'r newydd (er enghraifft, estyniad i adeilad neu waith i osod arddangosfa). Os ydych yn sefydliad masnachol allwch chi ddim gynnwys costau yma.

#### Gwaith cyfalaf arall

- Dylech gynnwys unrhyw gostau eraill ar gyfer gwaith cyfalaf yma.

#### Allbynnau digidol

- Costau ar gyfer creu unrhyw waith digidol a bodloni ein gofynion digidol.

#### Offer a deunyddiau (cyfalaf)

- Gallai hyn gynnwys prynu peiriannau ac offer i ymgymryd â gwaith cadwraeth.

#### Costau eraill (cyfalaf)

- Defnyddiwch 'arall' am unrhyw gostau nad ydynt yn ffitio o fewn y penawdau cost penodol. Rhowch ddisgrifiad clir o'r costau hyn.

#### Ffioedd proffesiynol (cyfalaf)

- Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson a benodir am gyfnod penodol i helpu gyda chynllunio a chyflwyno gwaith cyfalaf yn eich prosiect. Gallai hyn gynnwys rheolwr prosiect, ecolegwyr neu syrfëwr meintiau.

### Costau gweithgareddau:

#### Staff newydd

- Dylech gynnwys costau ar gyfer staff a fydd yn gweithio ar eich prosiect. Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys unrhyw argostau perthnasol hefyd.
- Gallai hyn gynnwys costau contractau cyfnod penodol newydd, secondiadau, prentisiaethau a chost staff llawrydd i helpu cyflwyno eich prosiect. Peidiwch â chynnwys costau talu hyfforddeion yma.
- Mewn rhai amgylchiadau gall fod yn briodol cynnwys costau ar gyfer absenoldeb mamolaeth a/neu daliadau diswyddo. Rydym yn disgwyl i'ch sefydliad lynu wrth arfer adnoddau dynol da a dilyn yr holl gyfreithiau perthnasol, gan gynnwys talu o leiaf y Cyflog Byw Cenedlaethol i holl aelodau staff y prosiect.

#### Hyfforddiant ar gyfer staff

- Mae hyn yn cynnwys cost yr holl hyfforddwyr ac adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno gweithgareddau i helpu staff i feithrin sgiliau newydd neu wella'u sgiliau.

#### Lleoliadau hyfforddi â thâl

- Mae hyn yn cynnwys cost yr holl leoliadau gwaith ac adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno gweithgareddau i helpu staff i feithrin sgiliau newydd neu wella'u sgiliau.

#### Hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr

- Mae hyn yn cynnwys cost yr holl hyfforddwyr ac adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno gweithgareddau i helpu gwirfoddolwyr i feithrin sgiliau newydd neu wella'u sgiliau.

#### Teithio a threuliau ar gyfer staff

- Gallai hyn gynnwys costau teithio i safle neu leoliad. Dylai costau teithio mewn car fod yn seiliedig ar 45c y filltir.

#### Teithio a threuliau ar gyfer gwirfoddolwyr

- Gall hyn gynnwys bwyd, teithio ac unrhyw dreuliau eraill. Dylai costau teithio mewn car fod yn seiliedig ar 45c y filltir.
- Mae hyn hefyd yn cynnwys prynu a hurio'r holl gerbydau, offer a deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau y mae eich gwirfoddolwyr yn eu cyflwyno yn ystod eich prosiect.

#### Costau digwyddiadau

- Mae hyn yn cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chynnal digwyddiadau, gan gynnwys llogi ystafell, lluniaeth ac offer.

#### Offer a deunyddiau (gweithgareddau)

- Gallai enghreifftiau gynnwys hetiau caled i roi mynediad i safle, deunyddiau celf neu daflenni a chyhoeddiadau. Peidiwch â chynnwys deunyddiau sy'n ymwneud â hyfforddiant neu wirfoddolwyr yma.

#### Costau eraill (gweithgareddau)

- Dylid cynnwys unrhyw gostau eraill fel bwyd ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau dysgu neu hurio safleoedd. Rhowch ddisgrifiad clir.
- Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys costau digonol ar gyfer cyfieithu i'r Gymraeg yma.

#### Ffioedd proffesiynol (gweithgareddau)

- Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson a benodir am ffi sefydlog i helpu gyda chynllunio a chyflwyno gweithgareddau eich prosiect. Gallai hyn gynnwys ymgynghorwyr neu artistiaid a storïwyr.

### Costau eraill:

#### Recriwtio

- Gall hyn gynnwys cost hysbysebu ac unrhyw dreuliau teithio ar gyfer cyfweliadau.
- Rydym yn disgwyl i'ch sefydliad lynu wrth arfer adnoddau dynol da a dilyn yr holl gyfreithiau perthnasol.

#### Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo

- Gallwn ariannu deunyddiau hyrwyddo sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'ch prosiect.
- Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys costau digonol ar gyfer cydnabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru hefyd.

#### Gwerthuso

- Mae'r pennawd cost hwn yn orfodol gan fod yn rhaid gwerthuso pob prosiect.

- Dylid cynnwys costau gwerthuso eich prosiect o'r cychwyn cyntaf. Efallai y byddwch am gyflogi unigolyn neu sefydliad i'ch cefnogi gyda hyn.
- Rydym yn argymell bod y costau'n gymesur â graddfa eich prosiect.

**Arall**

- Dylech gynnwys unrhyw gostau eraill yma. Rhowch ddisgrifiad clir o bob cost.

**Adennill costau llawn**

- Mae adennill costau llawn yn fath o gost a ddefnyddir i dalu costau anuniongyrchol prosiect. Mae costau anuniongyrchol yn cynnwys gorbenion, neu gostau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r prosiect y mae eich sefydliad yn ei gyflwyno, ond sy'n hanfodol i redeg eich sefydliad.
- Os ydych yn sefydliad yn y sector gwirfoddol, gallwn dalu cyfran o orbenion eich sefydliad, y mae'n rhaid iddynt fod yn briodol i'r amser neu adnoddau a ddefnyddir ar gyfer eich prosiect. Wrth sector gwirfoddol rydym yn golygu sefydliadau sy'n annibynnol ar lywodraeth y mae gan eu llywodraethu, eu hariannu a'u hadnoddau ffocws gwirfoddol. Er enghraifft, gallai sefydliad yn y sector gwirfoddol:
    - fod â Bwrdd Ymddiriedolwyr
    - cael ei ariannu gan grantiau a rhoddion
    - dibynnu ar wirfoddolwyr i gyflawni ei nodau
- Dylech gynnwys unrhyw gostau ar gyfer adennill costau llawn yma.

**Grantiau cymunedol**

- Gallwch gynnwys costau ar gyfer unrhyw daliadau i berchnogion trydydd parti, gan gynnwys perchnogion preifat, ar gyfer gweithgareddau a gwaith cyfalaf sy'n cyfrannu at gyflawni nodau cyffredinol eich prosiect.

**Swm wrth gefn**

- Mae'r pennawd cost hwn yn orfodol. Mae swm wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i dalu am gostau annisgwyl sy'n angenrheidiol er mwyn cyflwyno eich prosiect.
- Byddem yn disgwyl i swm yr arian wrth gefn sydd wedi'i gynnwys helpu wrth reoli'r heriau neu'r risgiau a nodwyd gennych. Dylai hefyd adlewyrchu graddfa eich prosiect.
- Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys eich swm wrth gefn gofynnol yma yn unig ac nid o fewn penawdau cost eraill y cais.

**Chwyddiant**

- Dylech gynnwys unrhyw gostau priodol a fydd yn darparu'n ddigonol am chwyddiant a ragfynegir. Dylech gyllidebu'n briodol ar gyfer chwyddiant yn seiliedig ar amserlen y prosiect, ynghyd â ffactorau eraill megis deunyddiau a ddefnyddir, gofynion o ran llafur a lleoliad.

**Cyfraniadau nad ydynt yn arian parod**

- Dyma unrhyw beth sydd ei angen arnoch ar gyfer eich prosiect nad oes rhaid i chi dalu amdano (er enghraifft, hurio ystafelloedd neu offer). Gallwn ond derbyn cyfraniadau nad ydynt yn arian parod os ydynt yn gostau prosiect uniongyrchol y byddent fel arall yn rhan o gyllideb eich prosiect.
- Mae'n rhaid cynnwys cyfraniadau nad ydynt yn arian parod yn adrannau costau ac incwm eich ffurflen gais. Mae hyn oherwydd ein bod yn cydnabod gwerth y cyfraniad hwn.

**Amser gwirfoddolwyr**

- Dyma'r amser y mae gwirfoddolwyr yn ei roi i gefnogi'r gwaith o gyflwyno eich prosiect. Gallai hyn gynnwys gwaith gweinyddol, clirio safle neu weithio fel stiward mewn digwyddiad.
- Ni ddylech gynnwys costau am amser pobl a fydd yn cymryd rhan yn eich gweithgareddau (er enghraifft, pobl sy'n mynychu gweithdy neu'n mynd ar daith dywysedig).
- Rydym yn defnyddio cyfradd safonol o £20 yr awr i gyfrifo amser gwirfoddolwyr.
- Mae'n rhaid cynnwys amser gwirfoddolwyr yn adrannau costau ac incwm eich ffurflen gais. Mae hyn oherwydd ein bod yn cydnabod gwerth y cyfraniad hwn.

**Incwm y cam cyflwyno:**

- awdurdod lleol
- sector cyhoeddus arall
- llywodraeth ganolog
- rhodd breifat – unigolyn
- rhodd breifat – ymddiriedolaethau/elusennau/gwaddolion
- rhoddion preifat – corfforaethol
- masnachol/busnes
- eich cronfeydd wrth gefn eich hun
- arian arall a godir
- benthyciad/cyllid
- cyfraniadau nad ydynt yn arian parod
- amser gwirfoddolwyr

# Dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y cam cyflwyno

Cyn i ni asesu eich cais, mae angen i ni weld eich dogfennau ategol.

**Noder** bod y dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y rhaglen hon yn wahanol i'r rhai a nodir ar y ffurflen gais ar-lein.

Mae rhai dogfennau ategol yn orfodol - mae'r rhain yn ddogfennau y mae'n rhaid i bob prosiect eu darparu ar gyfer eu cais cam cyflwyno. Dim ond os ydynt yn berthnasol i'ch prosiect y mae dogfennau ategol eraill yn orfodol: er enghraifft, os ydych yn comisiynu unrhyw waith, bydd angen i ni weld briffiau ar gyfer y gwaith hwnnw.

Dewiswch enw ffeil clir a disgrifiadol ar gyfer pob dogfen ategol fel y gallwn nodi pob un yn hawdd.

Y mathau o ffeiliau a gefnogir: .jpg, .doc, .docx, .pdf, .xls, .xlsx, .ppt, .pptx, .zip, .kml

[Uwchlwytho ffeiliau]

## Rhestr o ddogfennau ategol ar gyfer y cam cyflwyno

**Cyfrifon**

Uwchlwythwch gyfrifon eich sefydliad.

Rhaid i chi ddarparu eich cyfrifon diweddaraf sydd wedi'u harchwilio neu eu dilysu gan gyfrifydd.

Mae angen i gyfrifon fod:

- yn **enw cyfreithiol** eich sefydliad
- **â dyddiad arnynt**
- â **llofnod mewn llawysgrifen**. Nid yw hyn yn cynnwys llofnodion digidol
- Dylid cynnwys **teitl** y sawl sy'n eu llofnodi. Rhaid i'r person hwn fod yn gyfarwyddwr, ymddiriedolwr, cyfrifydd, neu berson uwch arall yn eich sefydliad.

Os yw cyfrifon eich sefydliad yn h?n na 18 mis, rhaid hefyd i chi ddarparu tri mis o'ch cyfriflenni banc diweddaraf. Dylai hyn fod y tri mis cyn y dyddiad yr ydych yn cyflwyno'ch cais.

Os sefydlwyd eich sefydliad lai na 14 mis yn ôl ac nid oes gennych set o gyfrifon wedi'u harchwilio, rhaid i chi ddarparu eich tair cyfriflen banc ddiwethaf, neu lythyr gan eich banc yn cadarnhau bod eich sefydliad wedi agor cyfrif.

Nid oes angen i ni weld eich cyfrifon os ydych yn sefydliad cyhoeddus, er enghraifft awdurdod lleol neu brifysgol.

**Cynllun prosiect a chofrestr risgiau**

Rhaid i bob prosiect gyflwyno cynllun prosiect a chofrestr risgiau. Rhaid i chi ddefnyddio templed cynllun prosiect Rhwydweithiau Natur.

Mae'r templed hwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am eich cynllun ymgysylltu ac unrhyw ganiatadau sydd heb eu sicrhau eto.

**Llif arian parod**

Dylai hwn fod yn fanwl ar gyfer y flwyddyn gyntaf ac yn fraslun ar gyfer y blynyddoedd wedyn.

**Strwythur rheoli'r prosiect**

Amlinellwch strwythur rheoli eich prosiect er mwyn i ni wybod pwy fydd yn gwneud penderfyniadau a sut y byddwch yn rheoli newid yn ystod eich prosiect.

**Dadansoddiad manwl o gostau**

Taenlen orfodol sy'n rhoi manylder y dadansoddiad o gostau yn adran Costau'r prosiect y cais, gan wahanu costau i gyfalaf a refeniw.

Defnyddiwch dempled costau prosiect y Gronfa Rhwydweithiau Natur

**Risgiau ar gyfer y cam cyflwyno**

Nid oes angen i chi gyflwyno cofrestr risgiau ar wahân os ydych wedi defnyddio'r daflen waith cofrestr risgiau sydd wedi'i chynnwys yn y templed cynllun prosiect Rhwydweithiau Natur.

**Dogfen prif risgiau ar gyfer y cyfnod ar ôl cwblhau'r prosiect**

Amlinellwch y prif risgiau sy'n wynebu'r prosiect ar ôl iddo gael ei gwblhau a sut y byddant yn cael eu rheoli.

**Cyfrifiadau adennill costau llawn**

Os ydych wedi cynnwys adennill costau llawn fel pennawd cost yn eich costau prosiect, rhaid i chi ddarparu dogfen sy'n dangos sut rydych wedi cyfrifo hyn. Dylai costau fod yn gymesur â'r amser neu'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer eich prosiect. Gallwn hefyd dalu cyfran o gost aelod staff presennol, ar yr amod nad yw'n gweithio'n gyfan gwbl ar y prosiect a ariennir mewn swydd newydd.

**Briffiau ar gyfer gwaith a gomisiynir**

Mae briffiau'n disgrifio unrhyw waith rydych chi'n bwriadu ei gomisiynu yn ystod cam cyflwyno eich prosiect. Os ydych chi'n comisiynu gwaith, er enghraifft, gan artist neu bensaer, dylech uwchlwytho brîff. Dylai'r brîff ddisgrifio'r gwaith, faint o amser y bydd yn ei gymryd, a faint y bydd yn ei gostio. Ar gyfer ffioedd dros £10,000 dylech ddod o hyd i dri thendr neu ddyfynbris cystadleuol. Ar gyfer ffioedd dros £50,000 byddwn yn disgwyl i chi ddarparu prawf o'r broses dendro gystadleuol.

**Disgrifiadau swydd**

Os ydych yn bwriadu recriwtio staff neu brentisiaid newydd i helpu cyflwyno eich prosiect, mae angen i chi ddarparu disgrifiad swydd ar gyfer pob swydd newydd. Dylai pob disgrifiad swydd gynnwys y cyflog a'r oriau gwaith arfaethedig.

**Lluniau**

Darparwch y canlynol:

- map o safle(oedd) y prosiect gyda safleoedd/nodweddion gwarchodedig wedi'u labelu
- map yn dangos lleoliad y safle(oedd) ar raddfa ranbarthol (ShapeFile, Tab File neu KML yn dangos safle(oedd) eich prosiect fel polygonau)

**Cynllun rheoli a chynnal a chadw (os yn berthnasol)**

Nid oes angen i chi gyflwyno cynllun rheoli a chynnal a chadw ar gyfer eich cais i'r Gronfa Rhwydweithiau Natur.

**Cytundebau partneriaeth**

Os ydych yn bwriadu gweithio gyda phartner i gyflawni eich prosiect, bydd angen i chi ddarparu cytundeb partneriaeth. Dylai'r ddogfen hon amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r ddau bartner a dylai pob parti ei lofnodi. Dylai'r ddogfen hon adlewyrchu anghenion eich prosiect ac mae'n bosibl y bydd angen i chi ofyn am gyngor annibynnol ar y ffordd orau o lunio cytundeb. Mae partner yn sefydliad arall neu gorff trydydd parti sy'n rhan annatod o gyflwyno'ch prosiect, er enghraifft perchennog eitem, adeilad, tir neu gasgliad sy'n rhan o'ch prosiect. Nid yw partneriaid yn isgontractwyr. Bydd ganddynt rôl weithredol yn y prosiect a byddant yn cymryd rhan yn y prosiect. Byddant yn helpu i adrodd ar gynnydd, yn mynychu cyfarfodydd partneriaeth rheolaidd ac yn cefnogi gwerthusiad y prosiect.

**Dogfennau perchnogaeth**

Os ydych yn cynllunio unrhyw waith cyfalaf, darparwch gopïau o unrhyw ddogfennau perchnogaeth perthnasol. Er enghraifft, dogfennau perchnogaeth y Gofrestrfa Tir, neu brydles neu benawdau telerau.

# Datganiad

## Cadarnhau'r datganiad

Rydym yn cynnal ymchwil defnyddwyr ansoddol i'n helpu datblygu ein cynhyrchion a'n gwasanaethau. Gallai hyn amrywio o arolwg 20 munud i gyfweliad dwy awr.

Ticiwch y blwch hwn os hoffech gymryd rhan yn ein hymchwil, neu i gael mwy o wybodaeth. [Blwch ticio]

Rwyf wedi darllen y datganiad ac yn cytuno iddo. [Blwch ticio]

### a) Diogelu Data

Rydym yn ymrwymedig i fod mor agored a thryloyw â phosibl. Mae hyn yn cynnwys bod yn glir yngl?n â sut rydym yn asesu ac yn gwneud penderfyniadau ar ein grantiau a sut y byddwn yn defnyddio eich ffurflen gais a'r dogfennau eraill rydych yn eu rhoi i ni. Rydym yn dilyn yr holl gyfreithiau a rheoliadau diogelu data sy'n berthnasol ac mewn grym o bryd i'w gilydd (y 'ddeddfwriaeth Diogelu Data'). Fel y diffinnir gan y ddeddfwriaeth Diogelu Data mae Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol (sy'n gweinyddu Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol) yn rheolydd data. Mae ein Polisi Preifatrwydd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys gwybodaeth gyswllt ein Swyddog Diogelu Data. Gellir dod o hyd iddo ar wefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Fel rhan o'r broses ymgeisio byddwn yn casglu eich enw a'ch swydd yn y sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli yn ogystal ag unrhyw wybodaeth bersonol ychwanegol rydych yn ei darparu amdanoch chi eich hun neu am bobl eraill sy'n ymwneud â'ch prosiect. Efallai y byddwn ni'n rhannu'r wybodaeth hon gydag un o'r ymgynghorwyr ar ein Cofrestr Gwasanaethau Cefnogi os byddant yn cael eu penodi i roi cefnogaeth i chi ar eich prosiect. Nid ydym yn trosglwyddo eich data i unrhyw drydydd partïon sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r UE.

Efallai y byddwn yn defnyddio'ch ffurflen gais a dogfennau eraill a roddwch i ni i:

- Benderfynu a fyddwn ni'n rhoi grant i chi.
- Darparu copïau i unigolion neu sefydliadau eraill sy'n helpu ni i asesu, monitro a gwerthuso grantiau.
- Rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda ni sydd â diddordeb dilys mewn ceisiadau a grantiau'r Loteri Genedlaethol neu raglenni ariannu penodol.
- Cadw mewn cronfa ddata a defnyddio at ddibenion ystadegol.
- Os byddwn ni'n cynnig grant i chi, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth amdanoch chi sy'n ymwneud â'r gweithgaredd rydym wedi'i ariannu, gan gynnwys swm y grant a'r gweithgaredd yr oedd i dalu amdano. Efallai y bydd yr wybodaeth hon yn ymddangos yn ein datganiadau i'r wasg, yn ein cyhoeddiadau printiedig ac ar-lein, ac yng nghyhoeddiadau neu ar wefannau adrannau Llywodraeth perthnasol ac unrhyw sefydliadau partner sydd wedi ariannu'r gweithgaredd gyda ni.
- Os byddwn yn cynnig grant i chi, byddwch yn cefnogi ein gwaith o ddangos gwerth treftadaeth drwy gyfrannu (pan ofynnir i chi) at weithgareddau cyhoeddusrwydd yn ystod y cyfnod y byddwn yn darparu ariannu ar ei gyfer a chymryd rhan mewn gweithgareddau i rannu dysgu, y byddwn o bosibl yn cysylltu grantïon eraill â chi i wneud hynny.

### b) Rhyddid Gwybodaeth

Fel sefydliad cyhoeddus rydym yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 sy'n rhoi hawl mynediad i'r cyhoedd i'r wybodaeth a ddaliwn, oni bai bod unrhyw eithriadau'n berthnasol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth gofnodedig a ddarparwyd i ni gan ein hymgeiswyr a grantïon.

Pan fyddwch yn cwblhau'r Datganiad ar ddiwedd y ffurflen gais, rydych yn cadarnhau nad oes gennych chi unrhyw wrthwynebiad i ni ryddhau'r ffurflen gais ac unrhyw wybodaeth arall a ddarparwch i ni i unrhyw un sy'n gofyn am weld nhw ar ôl i'ch cais gwblhau'r broses asesu. Os oes unrhyw wybodaeth nad ydych eisiau iddi fod ar gael yn gyhoeddus, gofynnir i chi esbonio eich rhesymau isod:

[Blwch testun]

Os byddwn yn derbyn cais am wybodaeth byddwn bob amser yn ymgynghori â chi'n gyntaf ac yn cymryd eich sylwadau i ystyriaeth, a byddwn yn cymhwyso'r eithriadau yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Fodd bynnag, ni sy'n penderfynu a fyddwn yn rhyddhau eich gwybodaeth neu'n ei dal yn ôl ac ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod yr ydych yn ei ddioddef o ganlyniad i ni gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

Efallai y byddwn ni'n cysylltu â chi o bryd i'w gilydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am waith Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

[Ticiwch y blwch os hoffech chi gael eich hysbysu am ein gwaith]

- Cadarnhaf fod y sefydliad sydd wedi'i enwi ar y cais hwn wedi rhoi'r awdurdod i mi gwblhau'r cais hwn ar ei ran.
- Cadarnhaf fod y gweithgaredd yn y cais yn dod o dan ddibenion a phwerau cyfreithiol y sefydliad.
- Cadarnhaf fod gan y sefydliad y p?er, os dyfernir grant iddo, i dderbyn y grant ac i'w dalu'n ôl.
- Cadarnhaf fod yr wybodaeth yn y cais hwn yn wir ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.

# Derbyn eich grant: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5) £50,000 i £250,000

24/06/2025
24/06/2025
See all updates
Mae'r arweiniad hwn yn disgrifio sut y byddwch yn derbyn eich grant Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5). Mae hefyd yn esbonio beth rydym yn ei ddisgwyl gennych cyn, yn ystod ac ar ôl ei dderbyn.

## Cyflwyniad

Ar ôl i grant gael ei ddyfarnu i chi, mae'n bwysig deall y camau nesaf y mae'n rhaid i chi eu cymryd. Mae'r arian y byddwch yn ei dderbyn yn arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n bwysig y caiff ei reoli mewn ffordd atebol.

Trwy ddarllen a deall y gofynion a amlinellir yn yr arweiniad hwn, eich cais wedi'i gwblhau, yr arweiniad ymgeisio a'r telerau ac amodau (gan gynnwys ein diffiniadau), gallwch wneud yn si?r y bydd eich prosiect yn cydymffurfio â'n gofynion.

Ar ôl darllen y dogfennau hyn, os oes gennych gwestiynau neu bryderon sydd heb eu hateb, cysylltwch â ni am gefnogaeth bellach. Eich pwynt cyswllt cyntaf â Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw eich

Rheolwr Cymorth Grant.

Mae arweiniad ychwanegol hefyd ar gael yn adran Arweiniad arfer da y wefan.

# Amserlen y prosiect

1. rhowch fwy o wybodaeth i ni am eich prosiect **cyn** y gallwch gytuno i'ch grant
2. cytunwch i'ch telerau grant o fewn **tri mis** o'r dyddiad y gwnaethoch dderbyn yr e-bost yn gofyn i chi wneud hynny
3. cyflwynwch weithgaredd eich prosiect
4. cyflwynwch eich adroddiad cwblhau a'ch gwerthusiad erbyn 30 Ionawr 2029.
5. cydymffurfiwch â'r telerau y cytunwyd arnynt am gyfnod eich contract grant, **hyd at 10 mlynedd**

## Rhowch fwy o wybodaeth i ni am y prosiect

Unwaith y byddwn wedi dweud wrthych eich bod wedi cael grant, byddwch yn gallu mewngofnodi i'ch cyfrif a rhoi rhagor o wybodaeth i ni am eich prosiect. Bydd hyn yn cynnwys cwestiynau am:

- swyddi a chyfleoedd hyfforddi a fydd yn cael eu cefnogi trwy eich prosiect
- unrhyw wirfoddolwyr neu ymwelwyr a allai fod gan eich prosiect
- effaith amgylcheddol eich prosiect
- sut y byddwch yn cydnabod ac yn hyrwyddo eich grant

Nid yw'r cwestiynau hyn yn rhan o'ch cais – ni fydd eich atebion yn effeithio ar eich dyfarniad grant. Rydym yn gofyn y cwestiynau hyn i helpu casglu data ar effaith ein hariannu. Rydym yn casglu tystiolaeth ar draws ein portffolio i helpu llywio ein harfer a sut rydym yn cyflwyno ein strategaeth.

I'ch helpu i ateb y cwestiynau ychwanegol hyn am eich prosiect, darllenwch yr arweiniad a chwestiynau Rhowch fwy o wybodaeth i ni am y prosiect.

Bydd angen i chi gwblhau'r dasg hon cyn y gallwch gytuno i delerau eich grant a dechrau ar eich prosiect.

## Cytuno i'r telerau ac amodau

Unwaith y byddwn wedi dweud wrthych bod grant wedi'i ddyfarnu i chi, byddwch yn derbyn e-bost yn eich gwahodd i fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein i wirio a chytuno i fanylion eich prosiect a chytuno i delerau ac amodau eich grant a'u llofnodi.

I gytuno i'r grant, bydd angen i chi:

- wirio bod y manylion sydd gennym am eich prosiect yn gywir
- anfon unrhyw dystiolaeth newydd ar gyfer eich prosiect atom, er enghraifft cyfraniadau arian parod, caniatadau neu drwyddedau
- dweud wrthym a fu unrhyw newidiadau sylweddol i'ch prosiect ers i chi gyflwyno eich cais, er enghraifft newidiadau i bartneriaid y prosiect neu gyfraniadau arian parod
- Rhoi manylion dau lofnodai cyfreithiol ar gyfer eich sefydliad i ni, fel y gallwn anfon dolen atynt i lawrlwytho, darllen, llofnodi ac uwchlwytho'r telerau ac amodau. Os mai chi yw'r llofnodwr cyfreithiol ar gyfer eich sefydliad, byddwch yn cael eich tywys yn syth i'r broses telerau ac amodau yn y cam hwn heb fod angen e-bost.
- lawrlwytho, darllen a llofnodi'r telerau ac amodau

Bydd angen hefyd i chi anfon y canlynol atom, os yn berthnasol:

- prawf o berchnogaeth ar eiddo gan gynnwys, er enghraifft, copïau diweddar o gofrestr teitl y Gofrestrfa Tir (gyda chynllun), lesau a thystiolaeth o unrhyw forgeisi presennol
- cynllun prosiect a chofrestr risgiau wedi'u diweddaru os bu newidiadau sylweddol i'ch prosiect ers i chi wneud eich cais am grant
- rhagolwg llif arian parod y prosiect, yn dangos pryd y disgwyliwch dderbyn unrhyw gyfraniadau arian parod a thaliadau grant

Cyn i ni allu prosesu eich telerau ac amodau, bydd angen i chi fod wedi gwneud y canlynol, os yn berthnasol:

- sicrhau pob cyfraniad arian parod
- sicrhau pob caniatâd neu drwydded statudol, ac unrhyw ganiatâd angenrheidiol gan dirfeddiannwr. Os oes unrhyw un o'r rhain yn weddill, yna llenwch ein Templed Caniatadau Heb eu Sicrhau gan gofnodi pryd y disgwyliwch dderbyn pob caniatâd/trwydded.
- bodloni ein gofynion perchnogaeth

Rhaid i chi gyflwyno'r wybodaeth hon o fewn tri mis i dderbyn yr e-bost.

Er bod gennym gontract safonol ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau, mae'n bosibl y byddwn yn amrywio ein prosesau a'n telerau gan ddibynnu ar amgylchiadau penodol eich prosiect. Os yn berthnasol, byddwch yn cael gwybod am unrhyw delerau ychwanegol yn y cam hwn.

Unwaith y byddwn wedi prosesu'r wybodaeth rydych wedi'i darparu, byddwn yn cadarnhau hyn i chi mewn e-bost. Yna gallwch chi ddechrau gweithio ar eich prosiect. Ni ddylech ddechrau unrhyw waith ar eich prosiect hyd nes y byddwch wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gennym i wneud hynny. Os byddwch yn dechrau unrhyw waith cyn cael y caniatâd hwn, fe fydd ar eich menter eich hun.

# Sut y byddwn yn talu eich grant

Ar ôl i chi gytuno i delerau'r grant, gofynnir i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein i ddarparu eich manylion banc.

Unwaith y byddwch wedi darparu eich manylion banc a'u bod wedi'u gwirio gennym, mae'r taliad cyntaf yn cael ei brosesu a thelir 50% o'r grant i'r cyfrif banc y gwnaethoch ddarparu manylion amdano.

Ar ôl i chi wario'r 50% cyntaf o gostau eich prosiect, byddwch yn gallu cyflwyno cais am daliad ar-lein am y 30% nesaf o'ch grant. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos sut y gwariwyd y 50% cyntaf o gostau eich prosiect.

Byddwn yn talu'r 20% sy'n weddill o'ch grant mewn ôl-ddyledion unwaith y byddwch wedi gwario holl gostau eich prosiect. Rhaid i chi gyflwyno cais am daliad terfynol a thystiolaeth i ddangos sut y gwariwyd y taliad blaenorol o 30% o'ch grant a sut y gwariwyd yr 20% terfynol hwn. Rhaid i chi hefyd ddarparu'r adroddiad cwblhau, gwerthusiad a thystiolaeth o gydnabod eich grant fel y cytunwyd yn eich contract.

Unwaith y byddwch wedi gwneud eich cais am daliad terfynol, ni fyddwn yn derbyn unrhyw geisiadau pellach am daliadau gennych. Dylech felly gytuno ar eich cyfrifon terfynol gyda'ch contractwyr a'ch cyflenwyr cyn i chi wneud cais am y taliad grant terfynol.

Anelwn at ryddhau pob taliad grant o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais am daliad a'r dogfennau ategol gofynnol.

Os byddwch yn gwario llai na'ch costau cytunedig a bod eich prosiect yn cael ei gwblhau o dan y gyllideb, bydd angen i chi ddychwelyd unrhyw arian gan y grant a dalwyd i chi nad ydych wedi'i wario. Byddwn yn cytuno â chi ar y swm sydd i'w ddychwelyd fel rhan o gwblhau eich prosiect.

# Cwblhau eich prosiect

Byddwch yn derbyn dyddiad dod i ben y grant sy'n seiliedig ar amserlen y prosiect y gwnaethoch ei nodi yn eich cais. Rhaid i chi gwblhau eich prosiect ac anfon eich adroddiad cwblhau a'ch gwerthusiad atom erbyn dyddiad dod i ben y grant.

Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am ddiweddariadau ychwanegol ar eich cynnydd yn ystod oes eich prosiect. Byddwn yn eich hysbysu am yr amlder sy'n eich cefnogi orau ac sy'n adlewyrchu risg y prosiect. Mae hyd yr amser y mae telerau eich contract grant yn berthnasol **yn dibynnu ar y gweithgareddau craidd** a gyflawnir yn eich prosiect.

Ar gyfer prosiectau sy'n seiliedig ar **weithgareddau**, er enghraifft heb unrhyw allbynnau digidol neu waith cyfalaf, daw'r telerau ac amodau i ben ar ddyddiad cwblhau'r prosiect.

Ar gyfer prosiectau sy'n creu allbynnau **digidol**, er enghraifft creu gwefan, mae'r telerau ac amodau'n berthnasol tan bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect. Os yw'r ymgeisydd arweiniol yn berchennog preifat ar dreftadaeth, bydd y telerau'n berthnasol am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect.

Ar gyfer prosiectau **cyfalaf** mae'r telerau'n berthnasol tan bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect. Os ydych yn unigolyn preifat neu'n sefydliad masnachol er-elw, bydd y telerau ac amodau'n berthnasol am 10 mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect.

Pan fyddwn wedi derbyn yr holl ddogfennaeth angenrheidiol i gofnodi bod eich prosiect wedi'i gwblhau, byddwn yn cadarnhau hyn gyda chi. Gelwir hyn yn ddyddiad cwblhau'r prosiect.

Wrth gwblhau rydym yn golygu:

- bod eich prosiect wedi'i orffen, a'ch bod wedi cyflawni'ch dibenion cymeradwy
- rydych wedi  cydnabod eich grant fel y nodir yn ein harweiniad ar sut i gydnabod eich grant gan Lywodraeth Cymru
- rydych wedi gwerthuso eich prosiect a chyflwyno adroddiad gwerthuso a chwblhau
- gallwch ddarparu ffotograffau digidol manylder uchel sy'n dogfennu eich prosiect
- os oedd eich prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, rydych wedi darparu tystysgrif cwblhau ymarferol
- os yn berthnasol, rydych wedi rhestru allbynnau digidol y prosiect a darparu cyfeiriad gwe (URL) y wefan neu wefannau lle gellir cael mynediad iddynt
- os yn berthnasol, eich bod wedi ffeilio'ch cynllun cadwraeth gyda'r llyfrgell gyhoeddus, archif a/neu gronfa ddata berthnasol, a rhannu'r manylion gyda'ch Rheolwr Cymorth Grant

# Gweithio gyda ni

Rydym yn eich annog i gadw mewn cysylltiad â ni, fel y gallwn glywed am y pethau rydych yn eu cyflawni drwy gydol eich prosiect.

Er nad yw bob amser yn bosibl i ni ymweld neu gwrdd â'r sefydliadau a ariannwn, gofynnir i chi ein gwahodd i ddigwyddiadau ac agoriadau prosiect allweddol a byddwn yn ceisio anfon cynrychiolydd lle bo modd.

Rydym yn deall y gall problemau neu faterion arwyddocaol godi yn ystod prosiect. Gallai hyn gynnwys unrhyw broblemau o fewn eich sefydliad, newidiadau i gostau'r prosiect, oedi difrifol neu fethiant i gyflawni eich dibenion cymeradwy. Rhaid i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl, fel y gallwn ymateb a'ch cefnogi fel y bo'n briodol.

Disgwyliwn i chi ymateb yn brydlon i unrhyw geisiadau am wybodaeth ac i drafod unrhyw newidiadau sylweddol i'ch prosiect gyda ni. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw newidiadau i bolisi neu arferion grant y Gronfa Treftadaeth a allai effeithio ar eich ariannu.

Ni allwch newid dibenion cymeradwy eich prosiect heb gael ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw. Os ydych am i ni ystyried unrhyw newidiadau i'ch dibenion cymeradwy, rhaid i chi anfon manylion ysgrifenedig y rhesymau dros y cais ac esbonio sut y bydd yn effeithio ar:

- ansawdd eich prosiect
- cost eich prosiect
- yr amser sydd ei angen arnoch i gwblhau eich prosiect
- hyfywedd eich prosiect yn y dyfodol

Mae'n bosibl wedyn y byddwn yn ailasesu'r prosiect neu'n cymryd unrhyw gamau eraill yr ystyriwn eu bod yn angenrheidiol. Efallai y byddwn yn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer y newid dim ond os byddwch yn cytuno i delerau ac amodau ychwanegol fel y bo angen.

Rhaid i unrhyw newidiadau y cytunir arnynt gyda ni fod yn ysgrifenedig a dylid eu hadrodd hefyd yn eich diweddariadau prosiect ac/neu adroddiad cwblhau fel y bo'n berthnasol

Os oes angen i chi wneud mân newidiadau i'r gyllideb a symud arian rhwng y penawdau cost a ddarparwyd yn eich cais er mwyn cyflawni eich dibenion cymeradwy, gallwch adrodd ar hyn yn eich diweddariad prosiect. Noder na ellir symud costau rhwng y penawdau cost cyfalaf a refeniw fel yr amlinellir yn eich cais. Rhaid i chi ddangos sut mae'r newidiadau hyn wedi eich helpu i gyflwyno eich prosiect.

Rhaid i chi gysylltu â ni ymlaen llaw os ydych am gynnig unrhyw newidiadau sylweddol i'r penawdau costau hyn ac ar gyfer unrhyw wariant mawr o'ch cyllideb wrth gefn.

Os bydd cyfanswm cost y prosiect yn cynyddu yn ystod y prosiect, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn ystyried cynyddu eich grant ac os bydd cyllideb ar gael gan Lywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn bydd yn rhaid i chi ddarparu gwybodaeth bellach a gaiff ei hadolygu ar sail yr achos unigol.

Os ydym yn cytuno ar unrhyw newidiadau i'ch Prosiect, bydd eich swyddfa leol yn ysgrifennu atoch drwy e-bost i gadarnhau'r newidiadau a gynigiwyd. Bydd angen i chi gadarnhau eich bod yn derbyn hyn trwy ymateb i'r e-bost o fewn y pum diwrnod gwaith.

# Diweddariadau prosiect

Wrth gytuno i delerau ac amodau eich grant, byddwn yn rhoi gwybod i chi faint o ddiweddariadau prosiect y disgwyliwn i chi eu darparu yn ystod cam cyflwyno'ch prosiect.

Gan ddefnyddio'r diweddariadau hyn, byddwn yn monitro cynnydd eich prosiect i gadarnhau ei fod yn cyflwyno'r prosiect a fanylwyd yn eich cais a'r dibenion cymeradwy a nodir yn eich contract grant.

Dylai eich diweddariadau prosiect gynnwys y canlynol:

- ffotograffau yn dangos cynnydd eich prosiect (gorfodol)
- cofnod o weithgareddau neu ddigwyddiadau rydych wedi'u trefnu (gorfodol)
- disgrifiadau swydd/manylion recriwtio (gorfodol os yn berthnasol)
- adroddiadau caffael (gorfodol os yn berthnasol)
- cynnydd o ran cyrraedd cerrig milltir allweddol, er enghraifft penodi contractwyr neu staff
- materion yn codi er mwyn i ni allu ymateb a'ch cefnogi fel y bo'n briodol

Bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein a dewis y prosiect yr hoffech roi diweddariad ar ei gyfer. Yna bydd angen i chi ateb cyfres o gwestiynau i roi diweddariad ar sut gynnydd y mae eich prosiect yn ei wneud.

Ar ôl i chi ddarparu'r wybodaeth hon ac uwchlwytho unrhyw dystiolaeth ategol, byddwch yn gallu cyflwyno eich diweddariad prosiect.

Byddwch hefyd yn gallu cyflwyno cais am daliad os oes angen.

### Darparu tystiolaeth o wariant

Rhaid i chi ddarparu anfonebau ar gyfer yr holl wariant dros £500. Dylai pob anfoneb a gyflwynir i ni fod ar gyfer gwaith cymwys tuag at y prosiect rydym wedi cytuno i'w hariannu. Dylent fod yn glir, yn ddarllenadwy a heb gael eu difrodi na'u hystrywio.

Dylai'r anfoneb gael ei chyfeirio at y sefydliad sy'n cyflwyno'r cais am daliad.

Rhaid i anfonebau gynnwys:

- rhif anfoneb
- y dyddiad y cawsant eu codi
- y dyddiad y disgwylir y taliad a'r telerau talu
- sut mae'r taliad i gael ei wneud ac i bwy
- manylion cwmni, gan gynnwys enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, rhif cwmni, rhif cofrestru TAW (os yn gofrestredig ar gyfer TAW)
- disgrifiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd
- y swm gros (heb TAW), swm y TAW os yn gofrestredig ar gyfer TAW a'r (cyfanswm) net sy'n ddyledus

Gallwch ddarparu tabl ar wahân yn manylu ar gostau o dan £500, gan gynnwys y cyfanswm hwn fel un llinell gwariant yn eich cais am daliad.

Dylid dangos tystiolaeth o gostau cyflog trwy ddarparu slipiau cyflog neu lythyr wedi'i lofnodi gan aelod o'ch sefydliad sydd ag awdurdod ariannol.

Os yw eich prosiect yn ymwneud â chaffael treftadaeth, bydd angen i chi ddarparu anfoneb i ni am y pris prynu llawn.

Dylid adrodd am yr holl arian grant a wariwyd ar y prosiect yn erbyn y penawdau cost yn eich cais.

Ni allwn dalu costau TAW y gallwch ei adennill. Eich cyfrifoldeb chi yw ceisio cyngor priodol ynghylch adennill TAW.

Os bydd eich statws TAW yn newid yn ystod eich prosiect, byddwn yn lleihau ein cyfraniad at y costau os ydych wedi llwyddo i hawlio'r TAW yn ôl.

## Grantiau cymunedol

Fel rhan o’ch prosiect, efallai eich bod wedi gofyn i ni gyfrannu tuag at gronfa o arian y gallwch ei defnyddio i ariannu grwpiau neu sefydliadau eraill, yr ydym yn eu galw’n dderbynyddion grantiau cymunedol, i gwblhau darnau o waith a fydd yn cyfrannu at nodau cyffredinol eich prosiect. Mae hwn yn cael ei alw'n grant cymunedol.

Cyn i chi lansio eich cynllun grant cymunedol, bydd angen i chi anfon manylion atom am eich prosesau ymgeisio, gwneud penderfyniadau a monitro cynnydd. Dylid anfon hwn at eich Rheolwr Cymorth Grant a fydd yn ei adolygu a'i gymeradwyo.

Wrth wneud cais am daliad i ni, rhaid i chi gynnwys rhestr o dderbynyddion grant cymunedol fel tystiolaeth o wariant. Rhaid i'r rhestr gynnwys faint a ddyfarnwyd i bob grantï, dyddiad y penderfyniad i ddyfarnu'r grant, a rhaid iddi gael ei llofnodi gan ddau berson o'ch panel penderfyniadau grant cymunedol.

Chi sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd grantiau cymunedol a sicrhau cydymffurfiaeth â'r telerau yr ydych wedi cytuno iddynt yn ystod eich cais am brosiect. Bydd angen i chi benderfynu sut y byddwch yn cadw mewn cysylltiad â phob derbynnydd grant cymunedol a pha wybodaeth yr hoffech ei gweld ganddynt. Gall hyn fod yn gymesur gan ddibynnu ar faint y grant ac am beth y cafodd ei ddyfarnu.

Dylech ddweud wrthym sut mae'r cynllun grant cymunedol yn dod yn ei flaen yn eich diweddariadau prosiect i ni a gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol grantiau cymunedol o fewn eich prosiect yn eich adroddiad cwblhau.

## Rheoli eich data

Y Gronfa Treftadaeth a Llywodraeth Cymru fydd y cyd-reolwyr data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperwch mewn perthynas â'ch cais am grant neu gais am arian grant. Byddwn yn ei brosesu'n unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio ynom i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio hunaniaeth.

Bydd eich data personol a data sy'n gysylltiedig â'r grant yn cael eu rhannu â rheolydd data arall, Llywodraeth Cymru, ac unrhyw gontractwr a benodir gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad allanol o'r Rhwydweithiau Natur i adolygu effaith, perfformiad a chostau'r cynllun. Byddwch yn cael eich hysbysu pan fydd gwerthusiad allanol yn cael ei gynnal a byddwch yn cael cyfle i optio allan.

## Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.

# Derbyn eich grant: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5) £250,000 i £1miliwn

24/06/2025
24/06/2025
See all updates
Mae'r arweiniad hwn yn disgrifio sut y byddwch yn derbyn eich grant Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 5). Mae hefyd yn esbonio beth rydym yn ei ddisgwyl gennych cyn, yn ystod ac ar ôl ei dderbyn.

## Cyflwyniad

Ar ôl i'ch Grant gael ei ddyfarnu i chi, mae'n bwysig deall y camau nesaf y mae'n rhaid i chi eu cymryd. Mae'r arian y byddwch yn ei dderbyn yn arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n rhaid iddo gael

ei reoli mewn ffordd atebol.

Bydd angen i chi ddarllen a deall y gofynion a amlinellir yn:

- yr arweiniad Derbyn Grant hwn
- eich Cais wedi'i gwblhau
- Arweiniad Ymgeisio Rhwydweithiau Natur (rownd 5)
- Arweiniad Arall perthnasol yn adran Ariannu ein gwefan
- y Contract Grant (gan gynnwys ein diffiniadau)

Mae eich Contract Grant yn cynnwys:

- eich Llythyr Hysbysiad o Grant
- ein Telerau Grant Safonol
- unrhyw Amodau Grant Ychwanegol
- eich dogfen Caniatâd i Ddechrau wedi'i llofnodi

Bydd hyn yn eich helpu sicrhau y bydd eich Prosiect yn cydymffurfio â'n gofynion.

Os oes gennych gwestiynau neu bryderon o hyd ar ôl darllen y dogfennau hyn, cysylltwch â natur@heritagefund.org.uk am gymorth. Eich pwynt cyswllt cyntaf â Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yw eich Rheolwr Cymorth Grant.

Noder, mae'r geiriau mewn priflythrennau yn yr arweiniad hwn yn adlewyrchu'r diffiniadau yn y Telerau Grant Safonol.

# Amserlen y prosiect

1. dod i gyfarfod dechrau arni
2. cyflwyno'ch dogfennau Caniatâd i Ddechrau o fewn tri mis i dderbyn y dyfarniad
3. cwblhau'r dasg Rhowch fwy o wybodaeth am y prosiect i ni
4. cyflwyno eich Prosiect fel y cytunwyd
5. cyflwyno adroddiad cwblhau a gwerthusiad erbyn 31 Mawrth 2029.
6. cydymffurfio â'ch Contract Grant am y cyfnod a nodir yn eich Llythyr Hysbysiad o Grant

# Ar ôl i'ch Grant gael ei ddyfarnu

Byddwn yn cysylltu â chi i drefnu cyfarfod dechrau arni. Diben y cyfarfod dechrau arni yw:

- egluro'r Gwaith
- cytuno ar drefniadau rheoli prosiect, caffael a'r rhaglen
- nodi gofynion adrodd, monitro a gwerthuso eich Prosiect
- trafod unrhyw bwyntiau cyfreithiol, megis perchnogaeth, trwyddedau ar gyfer gwaith neu reoli cymhorthdal
- sicrhau bod ariannu yn ei le ar gyfer y prosiect
- trafod cydnerthedd sefydliadol

Byddwn yn cytuno ar strwythur adrodd ar gyfer pryd y dylech gyflwyno diweddariadau Prosiect

# Caniatâd i ddechrau

Ni ddylech ddechrau unrhyw waith ar eich Prosiect hyd nes y byddwch wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gennym i wneud hynny.

Byddwch yn derbyn e-bost yn gofyn i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein a darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i'ch galluogi i ddechrau ar eich Prosiect.

Fel arfer byddwn yn disgwyl i chi gyflwyno'r dogfennau y gofynnir amdanynt yn y cam hwn o fewn tri mis i ddyddiad eich Llythyr Hysbysiad o Grant. Os bydd oedi sylweddol ac nad yw'r dogfennau wedi'u derbyn o fewn chwe mis mae'n bosibl y byddwn yn penderfynu dileu eich cynnig Grant.

Cyn y gallwn roi Caniatâd i Ddechrau eich Prosiect i chi a rhyddhau eich arian Grant, bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol fel y bo angen:

- prawf o berchnogaeth rhydd-ddaliad neu brydles (ar gyfer pob prosiect cyfalaf, os bu unrhyw newidiadau ers cyflwyno'ch Cais)
- manylion caniatadau landlord, caniatadau statudol a/neu drwyddedau sydd eu hangen ac a gafwyd. Os oes unrhyw un o'r rhain heb eu sicrhau, yna llenwch ein Templed Caniatadau Heb eu Sicrhau gan gofnodi pryd y disgwyliwch dderbyn pob caniatâd statudol/trwydded.
- cadarnhad o ariannu partneriaeth fel yr amlinellwyd yn eich Cais
- dadansoddiad costau ac adroddiad llif arian parod sy'n amlinellu'r prosiect
- braslun o strwythur rheoli prosiect eich sefydliad a'ch dulliau o ddewis ymgynghorwyr, contractwyr a chyflenwyr
- amserlen yn amlinellu'r prosiect
- cynnig o ran sut y byddwch yn rheoli caffael
- unrhyw fanylion eraill y teimlwn y gallent fod yn berthnasol i'ch Prosiect
- unrhyw gyngor rheoli cymhorthdal rydych wedi'i dderbyn

Rhaid i chi ddweud wrthym a fu unrhyw newidiadau sylweddol i'ch Prosiect ers i chi gyflwyno eich Cais, er enghraifft newidiadau i bartneriaid y prosiect neu gyfraniadau arian parod, gan ddarparu'r dystiolaeth ddiweddaraf fel y bo'n berthnasol.

Yna bydd gofyn i chi ddarparu manylion dau lofnodai cyfreithiol ar gyfer eich sefydliad. Bydd angen iddynt ddarllen a chytuno i'r Telerau Grant Safonol ac unrhyw Amodau Ychwanegol a nodir yn eich Llythyr Hysbysiad o Grant.

Unwaith y byddwn wedi prosesu a chymeradwyo'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn ystod y cam hwn, byddwn yn anfon e-bost yn cadarnhau bod gennych ganiatâd i ddechrau gweithio ar eich Prosiect. Os byddwch yn dechrau unrhyw waith cyn cael y caniatâd hwn, fe fydd ar eich menter eich hun ac ni fyddwn yn talu unrhyw gostau a ysgwyddir.

# Rhowch fwy o wybodaeth i ni am y prosiect

Ar ôl i chi gyflwyno eich ffurflen caniatâd i ddechrau a'n bod ni wedi'i hadolygu, bydd modd i chi fewngofnodi i'ch cyfrif a rhoi mwy o wybodaeth i ni am eich prosiect. Bydd hyn yn cynnwys cwestiynau am:

- swyddi a chyfleoedd hyfforddi a fydd yn cael eu cefnogi trwy eich prosiect
- unrhyw wirfoddolwyr neu ymwelwyr a allai fod gan eich prosiect
- effaith amgylcheddol eich prosiect
- sut y byddwch yn cydnabod ac yn hyrwyddo eich grant

Nid yw'r cwestiynau hyn yn rhan o'ch cais – ni fydd eich atebion yn effeithio ar eich dyfarniad grant. Rydym yn gofyn y cwestiynau hyn i helpu casglu data ar effaith ein hariannu. Rydym yn casglu tystiolaeth ar draws

ein portffolio i helpu llywio ein harfer a sut rydym yn cyflwyno ein strategaeth.

I'ch helpu i ateb y cwestiynau ychwanegol hyn am eich prosiect, darllenwch yr arweiniad a chwestiynau Rhowch fwy o wybodaeth i ni am y prosiect.

Mae angen i chi gwblhau'r dasg hon cyn y gallwn ryddhau unrhyw daliadau i chi. Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth hon i ni cyn gynted â phosibl ar ôl i ni roi caniatâd i chi ddechrau, efallai y bydd eich taliadau'n cael eu gohirio.

# Sut y byddwn yn talu eich grant

Bydd gofyn i chi ddarparu eich manylion banc yn eich cyfrif ar-lein, a bydd y manylion hyn wedyn yn cael eu gwirio gan ein tîm cyllid.

Telir grantiau dros £250,000 mewn ôl-daliadau.

Byddwn yn cadw'r 10% olaf o'ch Grant hyd nes y byddwn yn fodlon bod y Prosiect wedi'i gwblhau, bod y Grant wedi'i wario'n briodol, a'ch bod wedi anfon eich Adroddiad Gwerthuso a phrawf o'ch cydnabyddiaeth o'r ariannu atom.

I hawlio'r 10% olaf o'ch Grant mae'n rhaid i chi gyflwyno Adroddiad Cwblhau ddim hwyrach na Dyddiad Dod i Ben eich Grant, sef 31 Mawrth 2029.

Byddwn yn talu eich Grant fel canran o gostau eich Prosiect. Rydym yn disgrifio hyn fel canran talu, sydd wedi'i hesbonio yn eich Llythyr Hysbysiad o Grant. Er enghraifft, os byddwch yn darparu tystiolaeth o wariant gwerth cyfanswm o £50,000 a bod eich canran Grant yn 85%, eich taliad fydd £42,500.

Anelwn at ryddhau eich taliad Grant o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais am daliad a'r dogfennau ategol gofynnol.

# Cwblhau eich Prosiect

Rhaid i chi gyflwyno Adroddiad Cwblhau a Gwerthusiad erbyn Dyddiad Dod i Ben y Grant.

Pan fyddwn wedi derbyn yr holl ddogfennaeth angenrheidiol i gofnodi bod pob cam o'ch Prosiect wedi'i gwblhau, byddwn yn cadarnhau hyn gyda chi. Gelwir hyn yn Ddyddiad Cwblhau'r Prosiect ffurfiol.

Wrth gwblhau rydym yn golygu:

- bod eich Prosiect wedi'i orffen, a'ch bod wedi cyflawni'ch Dibenion Cymeradwy
- eich bod wedi cydnabod eich Grant yn briodol
- eich bod wedi gwerthuso eich Prosiect a chyflwyno Adroddiad Cwblhau
- y gallwch ddarparu ffotograffau digidol manylder uchel sy'n dogfennu eich Prosiect
- os oedd eich Prosiect yn cynnwys gwaith cyfalaf, eich bod wedi darparu Tystysgrif Cwblhau Ymarferol
- os yn berthnasol, eich bod wedi rhestru Allbynnau Digidol y prosiect a darparu cyfeiriad gwe (URL) y wefan neu wefannau lle gellir cael mynediad iddynt
- os yn berthnasol, eich bod wedi ffeilio'ch cynllun cadwraeth gyda'r llyfrgell gyhoeddus, archif a/neu gronfa ddata berthnasol, a rhannu'r manylion gyda'ch Rheolwr Cymorth Grant

Mae'n bwysig deall bod eich Contract Grant yn dod i rym unwaith y byddwch wedi llofnodi a'n bod ni wedi prosesu eich Caniatâd i Ddechrau. Mae'r Contract Grant yn parhau mewn grym ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect ac mae hyd y cyfnod y bydd yn parhau mewn grym yn dibynnu ar y gweithgareddau craidd a

gyflawnir gan eich Prosiect. Bydd hyn yn cael ei ddisgrifio yn eich Llythyr Hysbysiad o Grant.

Ar gyfer prosiectau sy'n seiliedig ar **weithgareddau**, er enghraifft arddangosfa neu ddigwyddiad heb unrhyw allbynnau digidol neu waith cyfalaf, daw'r Contract Grant i ben ar Ddyddiad Cwblhau'r Prosiect.

Ar gyfer prosiectau sy'n creu Allbynnau **Digidol**, er enghraifft creu gwefan, bydd y Contract Grant mewn grym o'r Caniatâd i Ddechrau tan 10 mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect ar gyfer Grantiau rhwng £250,000 a £5miliwn neu 20 mlynedd ar gyfer Grantiau rhwng £5miliwn a £10miliwn.

Ar gyfer prosiectau **cyfalaf**, er enghraifft adeiladu o'r newydd neu waith adfer, bydd y Contract Grant mewn grym o'r Caniatâd i Ddechrau tan 20 mlynedd ar ôl Dyddiad Cwblhau'r Prosiect.

Unwaith y byddwch wedi gwneud eich cais am daliad terfynol, ni fyddwn yn derbyn unrhyw geisiadau pellach am daliadau ar gyfer y cam hwnnw gennych. Dylech felly gytuno ar eich cyfrifon terfynol gyda'ch contractwyr a'ch cyflenwyr cyn i chi wneud cais am y taliad Grant terfynol.

Os byddwch yn gwario llai na'ch costau cytunedig a bod eich Prosiect yn cael ei gwblhau o dan y gyllideb, bydd angen i chi ddychwelyd unrhyw arian sydd heb ei wario o'ch Grant i ni. Byddwn yn cytuno â chi ar y swm sydd i'w ddychwelyd fel rhan o gwblhau eich Prosiect.

Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chi o bryd i'w gilydd ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau gan gynnwys drwy ein harolygon cwsmeriaid.

# Gweithio gyda ni

Rydym yn eich annog i gadw mewn cysylltiad â ni, fel y gallwn glywed am y pethau rydych yn eu cyflawni drwy gydol eich prosiect.

Er nad yw bob amser yn bosibl i ni ymweld neu gwrdd â'r sefydliadau a ariannwn, gofynnir i chi ein gwahodd i ddigwyddiadau ac agoriadau prosiect allweddol a byddwn yn ceisio anfon cynrychiolydd lle bo modd.

Rydym yn deall y gall problemau neu faterion sylweddol godi yn ystod Prosiect. Gallai hyn gynnwys:

- unrhyw broblemau o fewn eich sefydliad
- newidiadau i gostau'r prosiect
- oedi difrifol
- methu â chyflawni eich Dibenion Cymeradwy neu gyflwyno yn erbyn ein hegwyddorion buddsoddi
- methu â chynnal y Defnydd Cymeradwy

Rhaid i chi gysylltu â ni cyn gynted â phosibl, fel y gallwn ymateb a'ch cefnogi fel y bo'n briodol.

Rhaid i chi ymateb yn brydlon i unrhyw geisiadau am wybodaeth ac am drafod unrhyw newidiadau sylweddol i'ch Prosiect gyda ni. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw newidiadau a allai effeithio ar eich ariannu.

Ni allwch newid Dibenion Cymeradwy neu Ddefnydd Cymeradwy eich Prosiect heb gael caniatâd ysgrifenedig gennym ymlaen llaw. Os ydych am i ni ystyried unrhyw newidiadau i'ch Dibenion Cymeradwy neu Ddefnydd Cymeradwy, rhaid i chi anfon manylion ysgrifenedig y rhesymau dros y cais ac esbonio sut y bydd yn effeithio ar:

- ansawdd eich Prosiect
- cost eich Prosiect
- yr amser sydd ei angen arnoch i gwblhau eich Prosiect

- hyfywedd eich Prosiect yn y dyfodol
- mynediad cyhoeddus i'r Eiddo a ariennir gan y Grant yn y dyfodol
- rheoli a chynnal a chadw'r Eiddo a ariennir gan y Grant yn y dyfodol

Mae'n bosib wedyn y byddwn yn ailasesu'r Prosiect neu'n cymryd unrhyw gamau eraill yr ystyriwn eu bod yn angenrheidiol. Efallai y byddwn yn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer y newid dim ond os byddwch yn cytuno i delerau ac amodau ychwanegol fel y bo angen. Gall hyn gynnwys ei gwneud yn ofynnol i chi lofnodi gweithred amrywio neu weithred drosglwyddo'r Contract Grant os bydd newid mewn perchnogaeth.

Rhaid i unrhyw newidiadau y cytunir arnynt gyda ni fod yn ysgrifenedig a dylid eu hadrodd hefyd yn eich diweddariadau Prosiect ac/neu Adroddiad Cwblhau fel y bo'n berthnasol

Rhaid i chi gysylltu â ni ymlaen llaw os ydych am gynnig unrhyw newidiadau sylweddol i'r gyllideb ac ar gyfer unrhyw wariant mawr o'ch cyllideb wrth gefn.  Noder na allwch chi symud arian rhwng y penawdau cost cyfalaf a refeniw fel yr amlinellir yn eich cais.

Os bydd cyfanswm cost y prosiect yn cynyddu yn ystod y prosiect, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn ystyried cynyddu eich grant ac os bydd cyllideb ar gael gan Lywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn bydd yn rhaid i chi ddarparu gwybodaeth bellach a gaiff ei hadolygu ar sail yr achos unigol.

Os ydym yn cytuno ar unrhyw newidiadau i'ch Prosiect, bydd eich swyddfa leol yn ysgrifennu atoch drwy e-bost i gadarnhau'r newidiadau a gynigiwyd. Bydd angen i chi gadarnhau eich bod yn derbyn hyn trwy ymateb i'r e-bost o fewn y pum diwrnod gwaith.

# Diweddariadau prosiect

Yn eich cyfarfod dechrau arni, byddwn yn cytuno gyda chi faint o ddiweddariadau Prosiect y disgwyliwn i chi eu darparu wrth i chi gyflwyno'ch Prosiect. Byddwn yn eich hysbysu am yr amlder sy'n eich cefnogi orau ac sy'n adlewyrchu risg y Prosiect.

Gan ddefnyddio'r diweddariadau hyn, byddwn yn monitro cynnydd eich Prosiect i gadarnhau ei fod yn cyflwyno'r cynllun prosiect a fanylwyd yn eich Cais a'r Dibenion Cymeradwy a nodwyd yn eich dogfennau Caniatâd i Ddechrau.

Dylai eich diweddariadau prosiect gynnwys y canlynol:

- ffotograffau yn dangos cynnydd eich Prosiect (gorfodol)
- cofnod o weithgareddau neu ddigwyddiadau rydych wedi'u trefnu (gorfodol)
- disgrifiadau swydd/manylion recriwtio (gorfodol os yn berthnasol)
- adroddiadau caffael (gorfodol os yn berthnasol)
- cynnydd o ran cyrraedd cerrig milltir allweddol, er enghraifft penodi contractwyr neu staff
- unrhyw faterion yn codi er mwyn i ni allu ymateb a'ch cefnogi fel y bo'n briodol

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am baratoi'r dogfennau hyn yn adran Dogfennau ategol yr arweiniad ymgeisio.

### Sut i gyflwyno diweddariad Prosiect

I ddarparu diweddariad Prosiect, mewngofnodwch i'n gwasanaeth ar-lein ac agorwch y Prosiect yr hoffech roi diweddariad ar ei gyfer.

Yn y cam hwn, bydd modd i chi gyflwyno cais am daliad neu ddarparu diweddariad Prosiect. Wrth ddewis 'Rhoi diweddariad prosiect', cewch eich gofyn i ateb cwestiynau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd

eich Prosiect.

Ar ôl i chi ddarparu'r wybodaeth hon ac uwchlwytho tystiolaeth fel y bo angen, byddwch yn gallu cyflwyno eich diweddariad Prosiect.

# Darparu tystiolaeth o wariant

Rhaid i chi ddarparu anfonebau ar gyfer yr holl wariant grant dros £500. Dylai pob anfoneb a gyflwynir i ni fod yn glir, yn ddarllenadwy, ac ar gyfer gwaith cymwys tuag at y Prosiect yr ydym wedi cytuno i'w ariannu. Ni ddylent fod wedi'u difrodi na'u hystrywio.

Dylai'r anfoneb gael ei chyfeirio at y sefydliad sy'n cyflwyno'r cais am daliad.

Rhaid i anfonebau gynnwys:

- rhif anfoneb
- y dyddiad y cawsant eu codi
- y dyddiad y disgwylir y taliad a'r telerau talu
- sut mae'r taliad i gael ei wneud ac i bwy
- manylion cwmni, gan gynnwys enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn, rhif cwmni, rhif cofrestru TAW (os yn gofrestredig ar gyfer TAW)
- disgrifiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd
- y swm gros (heb TAW), swm y TAW os yn gofrestredig ar gyfer TAW a'r (cyfanswm) net sy'n ddyledus

Gallwch ddarparu tabl ar wahân yn manylu ar gostau o dan £500, gan gynnwys y cyfanswm hwn fel un llinell gwariant yn eich cais am daliad.

Dylid dangos tystiolaeth o gostau cyflog trwy ddarparu slipiau cyflog neu lythyr wedi'i lofnodi gan aelod o'ch sefydliad sydd ag awdurdod ariannol.

Ni allwn dalu costau TAW y gallwch ei adennill. Eich cyfrifoldeb chi yw ceisio cyngor priodol ynghylch adennill TAW.

Os bydd eich statws TAW yn newid yn ystod eich prosiect, byddwn yn lleihau ein cyfraniad at y costau os ydych wedi llwyddo i hawlio'r TAW yn ôl.

# Caffael

Ym mhob prosiect, pryd bynnag y byddwch yn defnyddio eich Grant i brynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau, byddwn yn gofyn i chi roi manylion caffael i ni (sef y broses brynu, tendro a dethol). Os ydych eisoes wedi prynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau ar gyfer eich Prosiect, bydd angen i chi ddweud wrthym sut y gwnaethoch chi hynny. Ni allwn dalu eich Grant os nad ydych wedi dilyn y drefn a ganlyn.

Os ydych yn gorff cyhoeddus neu os yw eich Prosiect yn destun deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus, mae'n rhaid i chi ddilyn y ddeddfwriaeth berthnasol.

Rhaid i weithdrefnau recriwtio ymgynghorwyr a chontractau fod yn deg ac yn agored a chydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a chyflogaeth berthnasol. Dylai ffioedd unrhyw ymgynghorwyr neu weithwyr proffesiynol eraill y byddwch yn eu recriwtio yn ystod y Prosiect weddu i ganllawiau proffesiynol a bod yn seiliedig ar fanyleb ysgrifenedig glir. Os oes unrhyw un o'r contractwyr, cyflenwyr neu ymgynghorwyr y dymunwch eu penodi'n gysylltiedig, er enghraifft yn ffrindiau neu'n berthnasau agos, neu os oes unrhyw

gysylltiad ariannol megis perchnogaeth ar y cyflenwyr hyn bydd angen i chi gael caniatâd ysgrifenedig gennym ni'n gyntaf.

Os ydych yn ansicr ynghylch eich rhwymedigaethau, rydym yn eich cynghori i geisio cyngor proffesiynol neu gyfreithiol. Gallwch ddarllen ein canllaw arfer da ar gaffael hefyd.

## Llai na £10,000

Os ydych yn prynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau am £10,000 neu lai, nid oes angen i chi dendro'n agored am y rhain na chael dyfynbrisiau lluosog. Byddwn yn disgwyl i chi ddangos gwerth cyffredinol am arian.

## Rhwng £10,000 a £50,000

Dylech gael o leiaf tri thendr neu ddyfynbris cystadleuol ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau gwerth £10,000 neu fwy (heb gynnwys TAW) yr ydym wedi cytuno i'w hariannu.

Nid oes angen o reidrwydd i chi benodi'r contractwr, y cyflenwr neu'r ymgynghorydd sy'n darparu'r dyfynbris isaf. Wrth benderfynu pwy i'w benodi ar gyfer eich prosiect, dylech edrych ar y gwerth am arian cyffredinol y mae'r tendr neu ddyfynbris yn ei ddarparu a sgiliau, profiad a hyfywedd ariannol y contractwr, y cyflenwr neu'r ymgynghorydd.

## Mwy na £50,000

Ar gyfer yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau sy'n werth mwy na £50,000 (ac eithrio TAW), rhaid i chi ddarparu prawf o weithdrefnau tendro cystadleuol. Dylai eich prawf fod yn adroddiad ar y tendrau yr ydych wedi'u derbyn, ynghyd â'ch penderfyniad ar ba un i'w dderbyn.

Nid oes angen o reidrwydd i chi benodi'r contractwr, y cyflenwr neu'r ymgynghorydd sy'n darparu'r dyfynbris isaf. Wrth benderfynu pwy i'w benodi ar gyfer eich prosiect, dylech edrych ar y gwerth am arian cyffredinol y mae'r dyfynbris yn ei ddarparu a sgiliau, profiad a hyfywedd ariannol y contractwr, y cyflenwr neu'r ymgynghorydd.

Mewn rhai amgylchiadau, nid oes angen i chi ddilyn gweithdrefn dendro gystadleuol a gallwch wahodd un sefydliad yn unig i dendro. Mae hyn yn wir os:

- yw cyfanswm pris y contract yn llai na £10,000
- yw cytundeb fframwaith yn ei le ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwaith neu wasanaethau a fu'n destun tendr cystadleuol yn flaenorol, ac mae'r nwyddau neu'r gwasanaethau'n uniongyrchol berthnasol i gwmpas y gwaith prosiect sydd i'w wneud, os oes contract prosiect ar waith a fu'n destun tendr cystadleuol yn flaenorol, a'i fod yn rhesymegol i'w ymestyn i ddarparu gwaith ychwanegol ar y prosiect. Yn yr achos hwn, mae'n rhaid i chi gadarnhau:
    - yn achos gwaith cyfalaf, y gellir cymhwyso prisiau'r rhan fwyaf o elfennau gwaith, gan gynnwys rhagofynion, gorbenion ac elw yn uniongyrchol o'r contract presennol i'r gwaith newydd
    - bod y gwaith newydd yn llai o ran graddfa, ac o fath tebyg i waith y prif gontract
    - na fydd y contractwr yn hawlio costau tarfu neu ymestyn y prif gontract os cyflwynir y gwaith newydd
    - bod y contract presennol yn cyfyngu ar waith sy'n cael ei wneud gan eraill
- yw'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau gofynnol yn unigryw fel y nodir mewn manyleb gofyniad heb frand ac nad yw'n bosibl eu caffael o ffynonellau eraill trwy dendr cystadleuol
- gallwch ddangos eich bod wedi ceisio tendro am y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau yn agored ac yn gystadleuol ond nad oeddech wedi derbyn digon o ddiddordeb. Roedd yr unig dendr a

dderbyniwyd wedi'i gyflwyno gan ddarparwr gwasanaeth a oedd yn credu ei fod yn gwneud hynny mewn cystadleuaeth ag eraill
- yw'n waith brys lle gellir dangos y byddai'r amser a gymerir i ddod o hyd i dendrau'n peryglu'r prosiect ac yn ychwanegu'n sylweddol at gostau yn y pen draw
- nad yw'r cwmni sy'n darparu'r tendr unigol wedi'i gysylltu, naill ai trwy berchnogaeth neu drwy gysylltiadau teuluol, ag uwch gynrychiolwyr y grantï

Byddwn hefyd yn gofyn i chi ystyried gwerthoedd cymdeithasol wrth gaffael, gan gynnwys:

- cadwyni cyflenwi amrywiol
- gwell cyflogadwyedd a sgiliau
- cynhwysiad, iechyd meddwl a lles
- cynaladwyedd amgylcheddol
- cadwyni cyflenwi diogel

Dylech sicrhau bod unrhyw gontractwr/cyflenwr/ymgynghorydd neu bartner a allai fod yn cyfrannu at greu Allbynnau Digidol yn ymwybodol o'n gofyniad i brosiectau rannu'r rhain o dan Drwydded Priodoliad Creative Commons 4.0 Ryngwladol neu gyfwerth, a sicrhau bod gennych gytundeb i'r gwaith dilynol gael ei rannu yn y modd hwn. Lle nad yw hyn yn bosibl, rhaid i chi geisio cytundeb ysgrifenedig i wneud trefniadau amgen gyda ni, er enghraifft defnyddio dewis arall o drwydded agored, cyn cyhoeddi unrhyw gontract gwaith.

# Grantiau cymunedol

Fel rhan o'ch Prosiect, efallai eich bod wedi gofyn i ni gyfrannu tuag at gronfa o arian y gallwch ei defnyddio i ariannu grwpiau neu sefydliadau eraill, yr ydym yn eu galw'n dderbynyddion grantiau cymunedol, i gwblhau darnau o waith a fydd yn cyfrannu at nodau cyffredinol eich prosiect. Mae hwn yn cael ei alw'n grant cymunedol.

Cyn i chi lansio eich cynllun grant cymunedol, bydd angen i chi anfon manylion atom am eich prosesau ymgeisio, gwneud penderfyniadau a monitro cynnydd. Dylid anfon hwn at eich Rheolwr Cymorth Grant a fydd yn ei adolygu a'i gymeradwyo.

Wrth wneud cais am daliad i ni, rhaid i chi gynnwys rhestr o dderbynyddion grant cymunedol fel tystiolaeth o wariant. Rhaid i'r rhestr gynnwys faint a ddyfarnwyd i bob grantï, dyddiad y penderfyniad i ddyfarnu'r grant, a rhaid iddi gael ei llofnodi gan ddau berson o'ch panel penderfyniadau grant cymunedol.

Chi sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd grantiau cymunedol a sicrhau cydymffurfiaeth â'r telerau yr ydych wedi cytuno iddynt yn ystod eich cais am brosiect. Bydd angen i chi benderfynu sut y byddwch yn cadw mewn cysylltiad â phob derbynnydd grant cymunedol a pha wybodaeth yr hoffech ei gweld ganddynt. Gall hyn fod yn gymesur gan ddibynnu ar faint y grant ac am beth y cafodd ei ddyfarnu.

Dylech ddweud wrthym sut mae'r cynllun grant cymunedol yn dod yn ei flaen yn eich diweddariadau prosiect i ni a gwerthuso effeithiolrwydd cyffredinol grantiau cymunedol o fewn eich prosiect yn eich adroddiad cwblhau.

# Rheoli eich data

Y Gronfa Treftadaeth a Llywodraeth Cymru fydd y cyd-reolwyr data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperwch mewn perthynas â'ch cais am grant neu gais am arian grant. Byddwn yn ei brosesu'n unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio ynom i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i wirio hunaniaeth.

Bydd eich data personol a data sy'n gysylltiedig â'r grant yn cael eu rhannu â rheolydd data arall, Llywodraeth Cymru, ac unrhyw gontractwr a benodir gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad allanol o'r Rhwydweithiau Natur i adolygu effaith, perfformiad a chostau'r cynllun. Byddwch yn cael eich hysbysu pan fydd gwerthusiad allanol yn cael ei gynnal a byddwch yn cael cyfle i optio allan.

## Diweddariadau i'r arweiniad

Byddwn yn adolygu'r arweiniad hwn yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau fel y bo angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl trwy'r dudalen we hon.

# Cwestiynau Cyffredin: Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd pump)

See all updates

Atebion i gwestiynau a godwyd gan fynychwyr yn ystod gweminar cyn ymgeisio y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd pump), a gynhaliwyd ddydd Mawrth 1 Gorffennaf 2025.

Cododd y rhai a fynychodd y weminar gyfres o gwestiynau, yr ydym wedi'u hateb isod.

Gellir dod o hyd i atebion i nifer o gwestiynau a godwyd hefyd trwy ddarllen yr arweiniad.

## Cwestiynau Cyffredin

### A all prosiectau mawr ddefnyddio blwyddyn 1 fel blwyddyn ddatblygu i benderfynu ar y lleoedd a'r dulliau gorau ar gyfer gwaith cyfalaf ym mlynyddoedd 2 a 3?

Yn fras gallant – fodd bynnag, bydd hon yn rownd gystadleuol ar gyfer yr holl brosiectau. Rydym yn chwilio am brosiectau sydd yn y cyflwr gorau posibl i ddechrau ar waith cyfalaf, gyda dealltwriaeth glir o'r risgiau o ran cyflwyno.

Byddem yn disgwyl, felly, os nad ydych wedi nodi safleoedd neu ddulliau cyflwyno penodol eto, eich bod yn rhoi'r rheswm dros hynny i ni a darparu cymaint o wybodaeth â phosibl am ardaloedd cyffredinol arfaethedig h.y: pam eu bod wedi'u dewis a darparu sail resymegol a sicrwydd o ran yr amserlen gyflwyno. Efallai y byddwch yn ei chael hi'n fwy priodol gwneud cais am grant datblygu prosiect hyd at £250,000 er mwyn rhoi'r cynlluniau hyn ar waith.

### A oes arweiniad o ran faint o refeniw y gallai prosiect ei gynnwys?

Nid ydym yn nodi rhaniad cyfalaf/refeniw, gan ein bod yn chwilio am gydbwysedd costau ar draws y portffolio cyfan. Dylai costau refeniw eich prosiect fod yn gymesur ag anghenion eich prosiect.

### A ellir cynnwys amser staff fel cost gyfalaf os yw'r amser ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â chyfalaf yn unig?

Ydy, os yw staff yn cyflwyno gwaith cyfalaf yn uniongyrchol 'yn y fan a'r lle'. Nodwch y costau hyn yn fanwl yn y templed costau a ddarperir.

## A yw prosiectau parhad yn dderbyniol?

Mae prosiect parhad yn dderbyniol ar yr amod y gallwch ddangos yr angen yn glir ac adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'r prosiect cynharach. Dylech roi ystyriaeth i gynaladwyedd tymor hir.

## Ar gyfer prosiect datblygu heb unrhyw waith cyfalaf sy'n ymwneud â darn o dir nad ydym yn berchen arno ar hyn o bryd, a fyddai'n rhaid i'r tirfeddiannwr presennol lofnodi telerau'r grant hefyd?

Na, ni fyddai angen i'r tirfeddiannwr ymrwymo i'n telerau grant os nad oes unrhyw waith cyfalaf yn cael ei wneud. Byddai angen i chi gael cytundeb tirfeddiannwr ar gyfer gweithgareddau fel arolygu ac astudiaethau dichonoldeb.

## Oes ardal ddaearyddol neu gynefin penodol yr hoffech ganolbwyntio arno yn y rownd hon?

Rydym yn chwilio am amrywiaeth o brosiectau o safbwynt daearyddiaeth a chynefinoedd. Os byddwn yn derbyn mwy o geisiadau o ansawdd da nag y gallwn eu hariannu, byddwn yn defnyddio'r egwyddorion cydbwyso wrth wneud y penderfyniadau terfynol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio mapiau'r Rhwydwaith Ecolegol Blaenoriaeth fel ffordd o flaenoriaethu.

## A fydd adroddiad effaith neu werthuso ar gyfer y rhaglen Rhwydweithiau Natur yn gyffredinol?

Mae Llywodraeth Cymru'n comisiynu gwerthusiad ar lefel y rhaglen a ddylai ddechrau eleni. Nid oes gennym fanylion pellach am hyn ar hyn o bryd.